Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad a Chyfrifon

y flwyddyn a ddaeth i ben ar 27 Mawrth 2005

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mae Grŵp y Post Brenhinol yn unigryw o ran ei fod yn cyrraedd pawb yn y DG drwy ei fusnesau llythyrau, Swyddfa'r Post® a pharseli sy'n cyflogi dros 196,000 o bobl. Mae'r Post Brenhinol yn casglu, prosesu ac yn dosbarthu tua 84 miliwn o eitemau i 27 miliwn o gyfeiriadau yn ddyddiol am brisiau sydd gyda'r isaf yn Ewrop; rydym yn gwasanaethu 28 miliwn o gwsmeriaid yr wythnos drwy ein rhwydwaith o 14,609 o ganghennau Swyddfa'r Post® a phob blwyddyn mae ein busnesau parseli mewnol ac Ewropeaidd - Systemau General Logistics a Parcelforce Worldwide - yn dosbarthu rhyw 284 miliwn o barseli.

Eleni yw blwyddyn olaf y Cynllun Adnewyddu tair blynedd sy'n fodd i ni wynebu'r gystadleuaeth yn ein busnesau llythyrau, sy'n parhau i drawsnewid Swyddfa'r Post Cyfyngedig a'n busnes parseli mewnol ac Ewropeaidd, sy'n rhoi gwell elw masnachol i'n Cyfranddalwyr ac sydd yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi yn ein pobl, ein hisadeiledd ac ansawdd ein gwasanaeth.

Cynnwys

Uchafbwyntiau	3
Datganiad y Cadeirydd	4
Datganiad y Prif Weithredwr	6
Adolygiad Blynddol 2004-05	8
Adolygiad Gweithredol ac Ariannol	12
Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc	21
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	23
Rheolaeth Gorfforaethol	25
Rheolaeth Fewnol	29
Adroddiad am Dâl y Cyfarwyddwyr'	30
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon	37
Adroddiad yr Archwilwyr annibynnol i aelodau Daliadau'r Post Brenhinol ccc	38
Polisïau Cyfrifyddu	39
Cyfrif elw a cholled y Grwp	42
Datganiad y Grŵp o holl enillion a cholledion y Grŵp	43
Cysoni symudiadau yng nghronfeydd cyfranddalwyr y Grŵp	43
Mantolenni	44
Datganiad llif arian y Grŵp	45
Nodiadau i'r datganiad llif arian	46
Nodiadau i'r cyfrifon	47
Crynodeb pum mlynedd	68
Rhestr Termau	69
Gwybodaeth Gorfforaethol	71

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Uchafbwyntiau

- 92.8% oedd ansawdd gwasanaeth Dosbarth 1 yn ystod Chwarter 4
  Cyn y Cynllun Adnewyddu: Perfformiad dosbarth cyntaf yn 91.4% yn Chwarter 4
- Cynnydd o £317m (144%) ers y llynedd yn elw'r gweithrediadau (£537m)
  Cyn y Cynllun Adnewyddu: Yn 2001- 02 collodd y Grŵp £318m
- £218m o wobr Rhannu Mewn Llwyddiant i'n pobl - £1,074 i bob person cymwys
  Cyn y Cynllun Adnewyddu = Dim Rhannu Mewn Llwyddiant
- 62% o'n pobl o'r farn bod y Post Brenhinol yn lle gwych i weithio
  Cyn y Cynllun Adnewyddu: Nid oedd gennym ddull o fesur
- Mewnlif arian o £140m cyn arian cyfalaf gweithiol Swyddfa'r Post Cyf.
  Cyn y Cynllun Adnewyddu: Yn 2001- 02 defnyddiodd y Grŵp £96m o arian ac roedd yn wynebu materion cwmni gweithredol
- Arbedion cost gros o £1.5bn (15% effeithlonrwydd) a ailfuddsoddwyd yn ein pobl, ein cwsmeriaid a'r isadeiledd (targed £1.4bn)
- Cwblhawyd y Cynllun Adnewyddu a gwnaed cynnydd ar ei holl amcanion
  - gwella'r gwasanaeth i'r cwsmer
  - gwneud y Post Brenhinol yn 'Lle Gwych i Weithio'
  - dychwelyd i broffidioldeb
  - gwneud arian

Crynodeb o'r canlyniadau

	Cynllun Adnewyddu			Cyn y Cynllun Adnewyddu
Blwyddyn yn diweddu ym Mawrth	2005	2004	2003	2002
Gwerthiannau allanol (£m)	8,956	8,633	8,299	8,408
Elw/(colled) o'r gweithrediadau (£m)[1]	537	220	(197)	(318)
Elw/(colled) cyn treth (£m)	207	105	(611)	(1,124)
Llif arian (£m)[2]	140	65	(553)	(96)
Pobl (is-gwmnïau perchnogaeth lwyr yn y DG) (000'au)	196	202	213	229
Lle Gwych i Weithio (%)	62%	57%	n/a	n/a
Ansawdd gwasanaeth Chwarter 4 – Dosbarth 1[af] (%)	92.8	89.4	91.8	89.9

1 Cyfanswm elw/(colled) cyn yr eitemau eithriadol a chostau diffyg ariannol pensiynau/ credydau gorged pensiynau. Ceir cysoniad llawn o gyfanswm yr elw/(colled) ar dudalen 68

2. Llif arian net cyn defnyddio adnoddau hylifol ac ariannu a chyn symud gweddill ariannol cleientiaid Swyddfa'r Post Cyfyngedig.



Datganiad y Cadeirydd

"Mae dynion a gwragedd post y Post Brenhinol wedi cyflawni newidiadau rhyfeddol."
Mae'r Post Brenhinol wedi cael blwyddyn arbennig. Erbyn diwedd 2004-05:

- roedd ansawdd y gwasanaeth ar ei lefel uchaf ar gofnod;
- enillodd y dynion a'r gwragedd post eu bonws mwyaf – £1,100 yr un bron;
- roedd y £537m o elw o'r gweithrediadau yn 2004-05 yn record gyda thros £200m yn mynd i bobl y Cwmni yn un o'r arferion mwyaf o rannu elw â gweithwyr yn hanes corfforaethol y DG;
- cwblhawyd y gwaith o weithredu'r newidiadau gweithredol er mwyn rhoi'r llwyfan angenrheidiol i'r Post Brenhinol i ymgymryd â chystadleuaeth lawn yn y farchnad bost o Ionawr 2006;
- gyda 84 miliwn o lythyrau'r dydd, miliwn yn fwy y dydd na'r flwyddyn flaenorol, roedd swmp y post ar ei uchaf erioed, ac roedd incwm gwerthiannau'r Grŵp, sef £8.9bn, yr uchaf hefyd; a
- chyflawnwyd effeithlonrwydd o 15% yn ystod cyfnod y Cynllun Adnewyddu, gan arbed costau gros o £1.5bn, a ailfuddsoddwyd yn ein pobl, ein cwsmeriaid – gan gynnwys gwelliant penodol mewn ansawdd gwasanaeth – a'n hisadeiledd, gan guro'r targed a osodwyd o £1.4bn.

I lawer roedd y syniad y gallai'r Post Brenhinol gyflawni unrhyw un o'r llwyddiannau uchod yn anhygoel dair blynedd yn ôl. Yn 2002, roedd y Cwmni'n colli ymhell dros £1m y dydd ar ei weithrediadau, yn siomi ei gwsmeriaid, roedd hanes ei gysylltiadau diwydiannol gyda'r gwaethaf yn y DG, ac roedd ganddo ddull gweithredu aneffeithiol nad oedd modd iddo fod yn broffidiol o dan y rheoliad trymaf yn y byd post. Nid oedd mewn sefyllfa i groesawu cystadleuaeth; oni bai ei fod yn moderneiddio, nid oedd modd i'r Post Brenhinol oroesi. Roedd yn rhaid i ni newid. Ond yr hyn sy'n syfrdanol am ganlyniadau 2004-05 yw graddau anhygoel y cynnydd a wnaeth y Cwmni. Mae dynion a gwragedd post y Post Brenhinol wedi llwyddo i sicrhau newidiadau ffantastig. Mae'r ffaith bod ein gweithwyr wedi gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid yn sylweddol yn bwysicach hyd yn oed na'r ffaith ein bod wedi llwyddo i wneud elw parchus. Bellach mae pawb yn y Post Brenhinol yn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid ac yn fwy ymrwymedig i gyflawni gwasanaeth sydd hyd yn oed yn well nag o'r blaen.

Y twf yn nifer y llythyrau oedd y prif ffactor a oedd yn gyfrifol am y gwerthiannau neilltuol o £8.9bn – cynnydd o 3.7% mewn refeniw o'i gymharu â'r flwyddyn gynt. Cyfrannodd y codiadau is na chwyddiant ym mhris y post domestig hefyd at gynnydd yn y trosiant, ynghyd â chynnydd yn incwm gwerthiannau Parcelforce Worldwide a General Logistics Systems.

Yn hanfodol, cwblhawyd y gwaith o weddnewid gweithrediadau rheng flaen y Post Brenhinol a bellach mae swyddi dros 164,000 o'n pobl wedi newid. Eleni newidiwyd i'r cynllun un dosbarthiad dyddiol yn lle'r ddau ddosbarthiad blaenorol y rhoddodd pob cwmni post modern arall y gorau iddynt flynyddoedd yn ôl. Roedd y Cwmni wedi ystyried gwneud y newid angenrheidiol hwn bron i ddau ddegawd yn ôl. I'n cwsmeriaid, hwn oedd y newid mwyaf gweledol a wnaethom gan ei fod yn golygu gostyngiad yn ansawdd y gwasanaeth yn ystod gwanwyn a dechrau haf 2004. Er hynny, fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi gwella'n arw ac mae ein cwsmeriaid yn cael lefelau gwasanaeth na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Yn ogystal â hynny rydym wedi cwblhau'r gwaith o liflinio ein rhwydwaith cludiant ac wedi cyflwyno dulliau gweithio mwy effeithiol yn ein canolfannau post.

O ganlyniad i'r cynnydd yn ein cynnyrch cafodd ein dynion a'n gwragedd post godiad cyflog, bellach £311.50 yr wythnos o leiaf yw eu cyflog sylfaenol pensiynadwy – codiad o £60 neu bron i 25% yn y cyflog sylfaenol cyn cyflwyno'r rhaglen foderneiddio. Ein pobl oedd yn gyfrifol am weithredu'r newidiadau llwyddiannus a sicrhaodd elw o'r gweithrediadau ac felly maent yn cael eu gwobrwyo â thaliad gros o £1,074 yn Rhannu Mewn Llwyddiant, yn ogystal â'u codiad cyflog. Petaem wedi gwneud elw o £400m o'n gweithrediadau, £800 fuasai'r taliad, ond gan ein bod wedi gwneud yn well na'r targed cafodd ein gweithwyr daliad uwch. Mae ein pobl yn llwyr haeddu eu taliad Rhannu Mewn Llwyddiant gan mai ein pobl sydd wedi gweddnewid y cwmni.

Un o'r llwyddiannau eraill a gafwyd eleni oedd y newid yn Parcelforce Worldwide. Diweddodd 2004-05 gan wneud elw ar ei weithrediadau o ddydd i ddydd yn ystod yr ail hanner. Mae'r gwaith radical a wnaed i adlunio'r busnes, gan ganolbwyntio ar wasanaethau brys o fewn amser gwarantedig i'n cwsmeriaid busnes yn talu ar ei ganfed. Roedd y golled ar ei weithrediadau yn 2004-05 yn £13m, ond roedd hynny bron yn 80% yn well na'r £54m o golled a wnaeth y flwyddyn gynt.

Parhaodd General Logistics Systems, ein busnes parseli Ewropeaidd, sy'n dosbarthu i gwsmeriaid mewn 34 o wledydd, i berfformio'n gryf gan wneud £61m o elw o'i weithrediadau – cynnydd o £36m ar y flwyddyn gynt, codiad o 144%. Cynyddodd y cwmni ei werthiannau gyda thwf yn ei farchnadoedd craidd yn yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal. Hwyluswyd hyn drwy reoli'r costau yn llym, gwell cynhyrchiant gweithredol ac ehangu rhwydwaith GLS yn yr Eidal. Gwnaeth GLS gynnydd ardderchog yn ystod y tair blynedd diwethaf a bellach mae'n gyfrannwr arwyddocaol i broffidioldeb cyffredinol y Grŵp. Yn ystod y cyfnod hwn, mae GLS hefyd wedi parhau i gryfhau ei rwydwaith gan roi presenoldeb cryf i'r Post Brenhinol yn Ewrop.

Mae Swyddfa'r Post Cyf. yn parhau i wynebu rhai o heriau mwyaf y Grŵp cyfan – yn wir, eleni eto roeddem yn ansicr a ellid ei ystyried yn gwmni gweithredol. Gwnaeth £110m o golled o'i weithrediadau, £7m yn waeth na'r flwyddyn gynt, er bod y canlyniad yn cynnwys £18m o golledion sefydlu Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post. Er gwaethaf y golled ar y gweithrediadau, parhaodd rhwydwaith Swyddfa'r Post® i ddarparu ei gymysgedd unigryw o wasanaethau cyhoeddus, ynghyd ag amrediad cynyddol o wasanaethau ariannol i dros 28 miliwn o gwsmeriaid. Roedd ei ffynhonnell draddodiadol fwyaf o incwm - sef trin taliadau pensiwn a budd-dâl plant drwy lyfrau archeb - yn dod i ben yn 2004-05 wrth i'r incwm budd-daliadau traddodiadol barhau i newid i daliadau uniongyrchol i gyfrifon banc.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Cadeirydd (parhad)

Yn 2005-6 teimlir effaith lawn y newid i dalu budd-daliadau yn uniongyrchol i gyfrifon banc, a oedd yn werth rhyw 40% o'n refeniw blynyddol ac sydd bellach wedi mynd. Bydd hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan refeniw ychwanegol o wasanaethau newydd fel bancio, yswiriant ceir, cartrefi a'u cynnwys, cynhyrchion cynilo Swyddfa'r Post®, adlenwadau ffonau symudol a'r gwasanaeth HomePhone sydd wedi denu ymhell dros 60,000 o gwsmeriaid eisoes mewn deg wythnos ers ei gyflwyno. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig eisoes yn arweinydd marchnad gyda'i wasanaeth cyfnewid arian tramor yn ddigomisiwn ynghyd ag yswiriant teithio, ac eleni rhagwelir y byddwn yn gwerthu dros filiwn o bolisïau. Er hynny, mae diffyg yn yr incwm o gymharu refeniw'r busnesau newydd a'r busnes o fudd-daliadau. Felly, mae her sylweddol yn wynebu'r rhwydwaith. Mae nod Swyddfa'r Post Cyfyngedig o greu rhwydwaith cynaliadwy ac ymarferol yn parhau'n un anodd.

Mewn gwirionedd mae'r Grŵp yn wynebu heriau a phwysau ar draws ei holl weithrediadau. Byddai'n wirion iawn i ni feddwl oherwydd ein bod wedi llwyddo i drawsnewid y Post Brenhinol yn ystod y tair blynedd diwethaf fod y gwaith ar ben ac y gall y Cwmni ymlacio tra bo'r elw yn pentyrru. Mewn gwirionedd bydd yn rhaid i'r Post Brenhinol ganolbwyntio hyd yn oed yn fwy manwl ar wneud gwelliannau pellach i'w wasanaethau i gwsmeriaid, mwy o enillion effeithlonrwydd a sicrhau ymrwymiad parhaus pob un o'i bobl.

Mae'r gystadleuaeth yn llym eisoes, ond ym mis Ionawr 2006 pan agorir y farchnad bost i gystadleuaeth, bydd yn rhaid i'r Post Brenhinol wynebu ei her fwyaf erioed. Bydd yn rhaid i'r Cwmni feistroli – a hynny'n fuan – y gallu i ennill a chadw cwsmeriaid pan fydd amrediad cynyddol o wasanaethau ein cydymgeiswyr ar gael iddynt. Bydd hynny'n golygu newid arferion ar draws y sefydliad cyfan. Gan fod y Rheolydd yn dal i barhau i osod dulliau rheoli caeth arnom, gan gynnwys ein prisiau – lle rydym yn colli dros £200m ar agos i 90% o feintiau â phrisiau rheoledig y mae'n rhaid i ni eu cynnig - mae'n rhaid i'r Post Brenhinol fod hyd yn oed yn well am weithredu'r cylch rhinweddol o ennill elw i dalu ei bobl ac ariannu'r buddsoddiad mewn mwy o dechnoleg, i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid ymhellach, ac i sicrhau'r arbediadau effeithiolrwydd a'r gwerthiannau sy'n cynhyrchu mwy o elw. Mae'r Post Brenhinol yn parhau'n ymroddedig i sicrhau bod ei gronfa bensiwn yn parhau i fodloni ei rhwymedigaethau'n llawn, ond oherwydd y £2.5bn o ddiffyg bydd yn rhaid gwneud mwy o gynnydd yng nghyfraniad y cyflogwr – a thrwy fod yn fwy proffidiol yw'r ffordd orau o wneud hynny. Mae'n rhaid i ni gofio bod yr 8.6% o elw'r Post Brenhinol ar drosiant ei fusnes llythyrau domestig, lawer yn is nag elw ffigyrau dwbl dau o'n cystadleuwyr mwyaf - Deutsche Post a Grŵp Post TNT, sef 16.4% a 22.2% yn ôl eu trefn.

Sicrhau mai ef yw'r cwmni post gorau a'r mwyaf dibynadwy yn y byd, a bod hynny'n amlwg i bawb, yw cenhadaeth y Post Brenhinol o hyd. Profodd y tair blynedd diwethaf mai ymdrech aruthrol pawb yn y Cwmni oedd i gyfrif am y llwyddiannau pwysig o ran ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid, perfformiad y Cwmni a'r gydnabyddiaeth ariannol i'n pobl. Dangos pa mor dda a llwyddiannus y gall y Post Brenhinol, a foderneiddiwyd ac a adfywiwyd, gystadlu mewn marchnad a fydd yn newid am byth yn 2006, yw'r her yn awr.

Allan Leighton

Cadeirydd

16 Mai 2005

Datganiad y Prif Weithredwr

"Darparu gwasanaeth o safon sydd hyd yn oed yn uwch yw ein prif flaenoriaeth o hyd."
Bu'r flwyddyn hon yn garreg filltir i'r Post Brenhinol. Nododd derfyniad llwyddiannus y rhaglen i foderneiddio ei weithrediadau gydag un o weddnewidiadau mwyaf unrhyw un o ddiwydiannau'r DG yn ystod y 25 mlynedd diwethaf. I'n cwsmeriaid, terfynodd y Post Brenhinol y flwyddyn drwy ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf a gofnodwyd – gan gynnwys y gwasanaethau Dosbarth 1af ac 2il Ddosbarth yn cyrraedd neu'n rhagori ar eu targedau ers mis Gorffennaf y llynedd. Bellach mae'r Cwmni, a oedd yn colli dros £1m y dydd ac yn methu â chyrraedd ei dargedau, yn fusnes sy'n ennill mwy na £2m y dydd – hyd yn oed yn sgîl y buddsoddi sylweddol mewn gwella ansawdd y gwasanaeth - ac yn cyrraedd lefelau targed ansawdd gwasanaeth allweddol. Mae gan ein dynion a'n gwragedd post hawl i ymhyfrydu yn yr hyn yr ydym oll wedi'i gyflawni. Maent wedi gwneud gwaith rhagorol.

Roedd 2004-05 yn garreg filltir mewn ystyr dyngedfennol arall. Hon oedd y flwyddyn olaf yr oedd gan y Post Brenhinol unrhyw amddiffyniad rhag cystadleuaeth. O fis Ionawr 2006, bydd y farchnad bost yn gwbl agored i gwmnïau cystadleuol mawr a bach. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, bu'r Post Brenhinol yn canolbwyntio ar baratoi'r Cwmni i gystadlu. Y cynllun moderneiddio oedd y prawf mwyaf i'r Post Brenhinol ei wynebu mewn degawdau, gan fod ein dyfodol yn dibynnu arno. Bydd yr her a wynebwn, wrth i gystadleuaeth lawn ddod yn realiti, hyd yn oed yn fwy. Mae amseroedd anodd ond cyffrous o'n blaenau.

Mewn gwirionedd, mae'r gystadleuaeth yma'n barod oherwydd y llynedd lansiodd nifer o'n cydymgeiswyr wasanaethau casglu post cwsmeriaid busnes, gan ei basio ymlaen i'n dynion a'n gwragedd post ni i'w ddosbarthu dros y filltir olaf. Wrth i'r gystadleuaeth boethi bydd yn rhaid i'r Post Brenhinol weithio hyd yn oed yn galetach i roi'r cwsmer wrth galon popeth a wnawn. Bydd hynny yn cynrychioli newid aruthrol yn ein harferion a bydd yn effeithio ar bawb sy'n gweithio i'r Cwmni, ond mae'n hanfodol os yw'r Post Brenhinol i gystadlu'n llwyddiannus. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ein dewis ni oherwydd bod y Post Brenhinol yn gyson yn darparu'r gwasanaeth o safon uchel y maent ei angen, am brisiau gwych sy'n rhoi gwerth am arian. Cadw ein cwsmeriaid a denu rhai newydd yw'r her. Oni bai ein bod yn gwneud hynny, rydym mewn perygl o golli swmp a refeniw i'n cystadleuwyr. Bydd hynny yn ei dro yn golygu llai o broffidioldeb a rhy ychydig o fuddsoddiad ar gyfer ein pobl a'n hisadeiledd.

Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson yw'r allwedd i ddenu a chadw cwsmeriaid. Bu hynny'n un o brif flaenoriaethau pawb ohonom yn ystod 2004-05 ac mae wrth galon ein strategaeth i symud ymlaen. Yn nhermau gwasanaeth, roedd dwy ran hollol wahanol ac arbennig i'r llynedd. Yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf, gwelwyd y cyfnod mwyaf dwys ers degawdau o ran newid yn y gweithrediadau, ac o ganlyniad bu gostyngiad yn y gwasanaethau i gwsmeriaid. Cyflwynasom un dosbarthiad dyddiol yn ein 1,400 o swyddfeydd dosbarthu, dulliau gweithio mwy effeithiol yn ein 71 canolfan bost ac yn ein 8 canolfan ddosbarthu, a llifliniom ein rhwydwaith cludiant cenedlaethol drwy ganolfan ddosbarthu genedlaethol newydd. Ond, o ganlyniad i ymdrech ac ymrwymiad aruthrol y Cwmni, roedd y gwasanaethau wedi gwella'n ardderchog erbyn canol yr haf. Erbyn diwedd y flwyddyn, roeddem wedi cyrraedd, neu wedi pasio, lefelau ein targedau ar gyfer post Dosbarth 1af ac 2il Ddosbarth, gwasanaethau swmpbost Mailsort a Presstream, a Pharseli Safonol, a oedd gyda'i gilydd yn cynrychioli tua 80% o'r post dyddiol. Yn hanfodol, cyrhaeddodd Dosbarth 1af, y gwasanaeth meincnod, y lefel uchaf ar gofnod ar gyfer chwarter 4 o agos i 1%. Gwnaed hyn er gwaetha'r tywydd ofnadwy yn Ionawr a gaeodd y rhwydwaith awyr, sydd yn cludo post Dosbarth 1af yn yr Alban a Gogledd Lloegr, ac eira trwm yn y De-Ddwyrain ym mis Chwefror a Mawrth a rwystrodd rai dosbarthiadau. Roedd yr 2il Ddosbarth yn well na'i darged o 98.5% yn ystod y flwyddyn gyfan. Mae'r rhain yn berfformiadau gyda'r gorau yn y byd ar adeg pan yw swmp y post yn uwch nag erioed, cyfartaledd o 84 miliwn o lythyrau'r dydd, a cheir bonws ychwanegol i gwsmeriaid sef y prisiau post isaf yn Ewrop bron.

Mae cyfraddau'r newid a wnaethom, a'n cyflymder yn gweithredu'r newidiadau hynny, tra'n cynnal ein gwasanaeth un-pris-i-unrhywle i 27 miliwn o gyfeiriadau'r DG, yn dyst i waith caled ac ymrwymiad ein pobl. Maent yn hanfodol i'n llwyddiant yn y dyfodol. Er mwyn cydnabod eu cyraeddiadau a'u hymrwymiad, rydym yn rhoi taliad gros Rhannu Mewn Llwyddiant o £1,074 i'r rhan fwyaf o'n pobl sydd wedi bod gyda'r busnes yn ystod blwyddyn olaf y Cynllun Adnewyddu. Mae'r £218m o elw o weithrediadau yr ydym yn ei roi yn ôl i'n pobl, yn un o'r taliadau rhannu mewn elw mwyaf i weithwyr yn hanes corfforaethol y DG. Mae'r Post Brenhinol hefyd yn parhau i gynnig cynllun pensiwn cyflog terfynol, sy'n fantais allweddol, i'r rhan fwyaf o'n pobl, Gyda phrinder o £2.5bn yn y gronfa ar hyn o bryd, mae'r Post Brenhinol eisoes wedi cyfrannu £271m yn fwy na'r cyfraniadau arferol, mewn dwy flynedd, er mwyn sicrhau y gall y gronfa fodloni ei rwymedigaethau i'n pobl. Mae'n eglur mai gwneud elw yw'r ffordd orau i'r Cwmni ddiogelu cyfraniadau parhaol y Post Brenhinol.

Mae'r tâl sylfaenol i'n dynion a'n gwragedd post yn cynyddu eto – codiad o £11.50 o 1 Ebrill, sef 3.8% ar ben y £300 o leiaf o dâl sylfaenol, pensiynadwy yr wythnos y mae ein pobl yn ei gael eisoes. Rydym yn awyddus iddynt barhau i rannu yn llwyddiant y Cwmni ac o dan y cynllun bonws newydd, bydd gan ein dynion a'n gwragedd post gyfle i ennill hyd at 50% o unrhyw arbediadau a wneir gan eu huned a 10% pellach petaem yn cyrraedd y targed newydd, 93.0%, ar gyfer Dosbarth 1af. Mae'n arwyddocaol hefyd fod y cysylltiadau diwydiannol wedi gwella. Ar ddechrau ein Cynllun Adnewyddu, prin yr ai diwrnod heibio heb ryw fath o anghydfod. Roedd y llynedd yn un o'r blynyddoedd tawelaf mewn degawd bron ac o ganlyniad i'r cysylltiadau adeiladol a gwell gyda'n hundeb daethpwyd i gytundeb cynt a haws nag a gofiai unrhyw un ynghylch tâl ar gyfer 2005-06 – sefyllfa sy'n fanteisiol i bawb.

Mae hyn i gyd yn swnio'n wych – ac mae. Ond, mewn gwirionedd, mae'r heriau a wynebwn yn enfawr. Nid yn unig y bydd yn rhaid i'r Post Brenhinol gynhyrchu digon o elw i dalu'r diffyg o £2.5bn yn y gronfa bensiwn, ar hyn o bryd mae'n colli dros £200m ar agos i 90% o'i feintiau â phrisiau rheoleig y mae'n rhaid iddo eu darparu dan ei rwymedigaeth i gynnig gwasanaeth cyffredinol. Hefyd collodd y rhwydwaith o 14,609 cangen o Swyddfa'r Post® golled ar ei weithrediadau o £110m y llynedd. Mae'r rhwydwaith gwledig o 8,000 cangen yn aneconomaidd ac mae angen £3m yr wythnos i oroesi. Mae arian presennol y Llywodraeth, sef £150m y flwyddyn, yn dod i ben yn 2008 ac ni ellir disgwyl i Swyddfa'r Post Cyfyngedig wynebu costau ychwanegol ar y lefel hon. Yn y cyfamser, mae'r Post Brenhinol hefyd ar ei hôl hi gyda thechnoleg didoli awtomataidd o'i gymharu â'i gystadleuwyr pennaf ac mae angen i ni fuddsoddi sawl biliwn o bunnoedd os ydym i gystadlu'n llwyddiannus – mae hyn yn golygu bod yn broffidiol er mwyn buddsoddi.

Gwnawn ni newidiadau sylfaenol i'r hyn a wnawn a'n dulliau o'i wneud. Yn ogystal â buddsoddi mewn awtomateiddio mae hyn yn golygu y bydd angen datblygu set o gynhyrchion a gwasanaethau sy'n cyd-fynd yn dda â gofynion ein cwsmeriaid. Rydym yn gweithio ar hynny ac rydym yn disgwyl y byddwn yn medru dweud wrthych amdanynt yr haf hwn. Ar yr un pryd, rydym yn llunio strategaeth werthu a marchnata gwbl newydd gyda'r math o ffocws ar y cwsmer sy'n angenrheidiol i fusnes post modern ond nad oedd gennym yn y gorffennol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Prif Weithredwr (parhad)

Mae'r ffocws ar ein cwsmeriaid hefyd yn ganolog i Swyddfa'r Post Cyfyngedig sydd â 28 miliwn o gwsmeriaid sydd yn galw mwy na 43 miliwn o weithiau'r wythnos. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn un o'r rhwydweithiau manwerthol mwyaf yn Ewrop ac mae'n ganolog i gymunedau ac yn ymroddedig i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau sydd yn bwysig i'n cwsmeriaid mewn ffordd syml ac am elw.

Ein her fwyaf a'r bwysicaf wrth i ni wynebu'r dyfodol han y budd-daliadau traddodiadol, a oedd yn hanesyddol yn cynrychioli 40% o'n refeniw, yw cael rhywbeth yn lle'r refeniw colledig. Bydd gwyrdroi'r canghennau a reolir yn uniongyrchol sydd yn colli £71m a phennu dyfodol aneconomaidd y rhwydwaith gwledig, sydd yn costio rhyw £3m yr wythnos i ni, hefyd yn allweddol.

Bu eleni yn gyfnod o newid radical i Swyddfa'r Post Cyfyngedig gyda chyflwyno portffolio cystadleuol o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol a fydd yn helpu i adennill yr incwm a gaed gynt drwy fudd-daliadau ac i ddatblygu proffidioldeb masnachol y busnes yn y dyfodol. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn darparu mwy na 170 o wahanol gynhyrchion a gwasanaethau ond y rhai sy'n allweddol i'n cwsmeriaid a'n dyfodol yw'r gwasanaethau post, teliffon, teithio ac ariannol.

Mae ein gwasanaethau bancio'n arbennig o bwysig i'n cwsmeriaid oherwydd ein bod wedi creu mynediad i fancio mewn cymunedau lle nad oes gan y banciau mawr bresenoldeb mwyach.

Rydym wedi ffurfio partneriaethau gyda'r Alliance & Leicester, y Bank of Ireland, Barclays, Cahoot, Clydesdale, Co-op, First Direct (yr Alban yn unig), Lloyds TSB a Smile, ac rydym yn cynnal trafodaethau ag eraill.

Yn hanfodol, mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn chwarae rhan allweddol mewn cynyddu cynhwysiad ariannol gan fod cwsmeriaid gyda chyfrifon banc sylfaenol yn medru cyrraedd eu harian mewn awyrgylch cyfeillgar lle teimlant yn gartrefol a diogel a lle medrant siarad â phobl y maent yn ymddiried ynddynt.

Rydym hefyd wedi cydnabod bod yn rhaid i ni ofalu bod y bobl iawn yn y lle iawn yn gwneud y pethau iawn ac rydym wedi recriwtio nifer o reolwyr o'r radd flaenaf sydd wedi llwyddo ym myd gwasanaethau ariannol a manwerthu i helpu i arwain, hyfforddi a chefnogi ein pobl.

Mae sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gwybod y cyfan am gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post® yn rhan allweddol o'n strategaeth ymadfer. Nod ein hysbysebion yw cynyddu gwerthiant drwy gyflwyno ein cwsmeriaid i'n cynhyrchion a'n gwasanaethau newydd a'u hannog i ailwerthuso'r rhai sydd gennym ar hyn o bryd.

Eleni hefyd cwblhawyd y rhaglen Adnewyddu'r Rhwydwaith trefol a hynny o fewn terfynau amser a chost. Bu'r rhaglen yn gam pwysig ymlaen tuag at wneud y rhwydwaith yn gynaliadwy a gwneud Swyddfa'r Post® yn fwy deniadol i isbostfeistri drwy leihau'r gorddarparu, a darparu mwy o ganghennau modern a fydd yn diogelu mynediad i bawb, yn enwedig pobl agored i niwed. Wedi ymgynghori'n eang gyda'r cyhoedd ac isbostfeistri, caewyd cyfanswm o 2,500 o ganghennau yn ystod y rhaglen.

Mae Swyddfeydd Post gwledig yn chwarae rhan hanfodol o fewn strwythur economaidd a chymdeithasol eu cymunedau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn costio mwy i'w rhedeg na'r incwm a gynhyrchant ac felly mae amheuaeth ynghylch eu dichonoldeb hirdymor. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi rhyddhau £450m o gronfeydd elw hanesyddol mantolen y Grŵp i gefnogi rhannau o'r rhwydwaith sydd heb fod yn fasnachol gynaliadwy, ac yn 2004 cyhoeddwyd y byddai £300m arall yn cael ei ryddhau i ymestyn y gefnogaeth honno tan Ebrill 2008, yn amodol ar gliriad Cymorth Gwladol yr UE. Bydd yr arian hwn yn ein galluogi i barhau i dalu cyflogau isbostfeistri gwledig, cynnig gwasanaethau cefnogi i'r rhwydwaith ac – yn hollbwysig – barhau i beilota gweithgarwch ar wahanol ffyrdd i gynnig gwasanaethau i'r rhwydwaith gwledig. Rydym hefyd wedi dechrau datblygu a phrofi gwahanol ddulliau gan gynnwys Swyddfa'r Post yn gwneud gwaith ar ran yr Heddlu. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn sail i benderfyniad y Llywodraeth am ddyfodol y rhwydwaith ar ôl 2008.

Ym marchnad barseli'r DG, llwyddodd Parcelforce Worldwide i wrth-droi ei fusnes ac mae bellach yn un o'r prif ddarparwyr yn niwydiant cystadleuol parseli brys, gan barhau i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid, yn enwedig o safbwynt cynhyrchion amser-hanfodol. Llwyddodd i sicrhau gostyngiad trawiadol, sef 76%, yng ngholledion ei weithrediadau yn ystod y 12 mis diwethaf, o £54m yn 2003-04 i £13m eleni ac mae wedi cynhyrchu elw masnachol o'i weithrediadau yn ystod ail hanner 2004-05. Adeiladu ar y gwelliannau hyn, a sicrhau ei fod yn gwneud elw o'i weithrediadau ar gyfer y flwyddyn lawn nesaf, yw'r her sy'n ei wynebu nawr.

Yn Ewrop, llwyddodd ein busnes parseli, General Logistics Systems, i gynyddu ei refeniw yn sylweddol yn ystod 2004-05 – gyda thwf aruthrol o 144% yn ei elw o weithrediadau i £61m. Twf yn ei farchnadoedd yn yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal, ynghyd â rheoli costau'n llym, dau gaffaeliad newydd yn yr Eidal a chyfnerthu ei weithrediadau yng Ngwlad Pwyl, sydd i gyfrif am hyn. Gwnaeth GLS gynnydd ardderchog yn ystod y tair blynedd diwethaf a bellach mae'n gyfrannwr arwyddocaol i broffidioldeb cyffredinol y Grŵp. Yn ystod y cyfnod hwn, mae GLS hefyd wedi parhau i gryfhau ei rwydwaith. Mae ganddo safleoedd cryf yn ei farchnadoedd craidd ac mae'n darparu presenoldeb cryf i'r Post Brenhinol yn Ewrop. Bydd yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau ei rwydwaith yn Ewrop a diogelu effeithlonrwydd gweithredu.

Rydym bellach wedi cwblhau ein Cynllun Adnewyddu tair blynedd, ac mae'r Post Brenhinol yn gwneud elw unwaith eto, yn rhoi gwasanaeth o well ansawdd i'w gwsmeriaid ac yn buddsoddi yn ein pobl. Mae pob un o'n cyfranogwyr wedi cael budd o'r gweddnewidiad. Mae ein cwsmeriaid yn cael lefelau uchel o ansawdd gwasanaeth na welwyd eu tebyg o'r blaen ac mae ein prisiau wedi gostwng mewn termau go iawn. Mae dynion a gwragedd post yn cael gwell cyflog. Mae'r Cwmni yn broffidiol unwaith eto ac mae ein parodrwydd i groesawu cystadleuaeth ym mis Ionawr 2006, yn gynt na'r dyddiad rhyddfrydoli blaenorol o fis Ebrill 2007, hefyd yn golygu bod ein cwsmeriaid yn cael mwy o ddewis yn y farchnad 15 mis yn gynt. Bellach, mae'n rhaid i ni wneud y newid ymagweddol angenrheidiol er mwyn i ni fod yn llwyddiannus fel busnes masnachol ac i fod yn weithredwr post dewisol i gwsmeriaid mewn marchnad gystadleuol agored. Parhau i fod yn amlwg fel y cwmni post gorau a'r mwyaf dibynadwy yn y byd yw ein gweledigaeth o hyd. Rydym yn hyderus y gallwn gyrraedd y nod hwnnw gydag ymroddiad ac ymrwymiad ein pobl.

Adam Crozier
Prif Weithredwr
Grŵp y Post Brenhinol ccc
16 Mai 2005

David Mills
Prif Weithredwr
Swyddfa'r Post Cyfyngedig
16 Mai 2005

Adolygiad Blynyddol 2004-05

Eleni, gwnaed mwy o newidiadau gweithredol yn y Post Brenhinol nag mewn unrhyw flwyddyn mewn nifer o ddegawdau. Dyma'r flwyddyn hefyd pan ddaeth cystadleuaeth sylweddol yn realiti, gan i nifer o gystadleuwyr sefydlu gwasanaethau post yn seiliedig ar gael mynediad i rwydwaith didoli a dosbarthu'r Post Brenhinol. Fodd bynnag, er gwaethaf y newidiadau hyn, y sialens i'r busnes a maint sylweddol y newid yn y gweithrediadau, cafodd y Post Brenhinol flwyddyn neilltuol gan ei gorffen â'r perfformiad ansawdd gwasanaeth gorau mewn degawd ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion post.

Gwella'r gwasanaeth i'r cwsmer

Er mwyn i ni fedru cystadlu'n llwyddiannus ym marchnad bost y DG yn y dyfodol, rydym wedi gweddnewid ein gweithrediadau'n aruthrol er mwyn rhoi gwasanaeth o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid yn barhaus a gwneud y Post Brenhinol yn lle gwych i'n staff weithio. Mae hyn wedi newid swyddi rhyw 164,000 o'n pobl yn y rheng flaen – mwy na thebyg un o'r newidiadau mwyaf yn niwydiant y DG dros y 25 mlynedd diwethaf. Trwy gydol 2004-05, gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid oedd ein prif flaenoriaeth drwy'r flwyddyn ac rydym wedi gwneud cynnydd go iawn. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd ein gwasanaeth meincnodi, Dosbarth 1af, yn uwch na'i darged o 92.5% - y perfformiad gorau am y chwarter olaf ers degawd – a gwnaeth yr 2il Ddosbarth yn well na'i darged o 98.5% am y flwyddyn gyfan. Gwnaeth y rhan fwyaf o gynnyrch post ein swmp fusnes berfformio'n dda hefyd, gyda Mailsorts 2, 3 a Presstream 2 yn cael y perfformiadau gorau yn y deng mlynedd diwethaf. Mae cyflawni gwasanaeth cyson, o safon uchel yn hanfodol os yw'r Post brenhinol i gystadlu'n llwyddiannus mewn marchnad gwbl agored i gystadlu llawn o Ionawr 2006.

Cafodd y newid a wnaed i'n rhwydwaith dosbarthu brawf go iawn dros y Nadolig, sef yr amser mwyaf prysur i'r Post Brenhinol wrth i ni ddosbarthu cardiau, parseli ac anrhegion Nadolig ar draws y DG ac o gwmpas y byd - adeg pan fyddwn yn trin 60 miliwn o eitemau ychwanegol bob dydd, gan gynyddu'r bag post dyddiol cyffredin i 140 miliwn o eitemau. Profasom ein bod yn fwy nag abl i ymgymryd â'r her honno, gan ein bod wedi llwyddo i ddosbarthu popeth a bostiwyd erbyn y dyddiadau postio diwethaf a argymhellwyd erbyn y Nadolig. Yn gyffredinol, cofnododd y busnes ei berfformiad masnachu cryfaf, gyda chynnydd o 10.6% yn y refeniw a chynnydd o £80m yn y gwerthiannau yn y pedair wythnos i'r 25 Rhagfyr – un o'r perfformiadau gorau a gyhoeddwyd gan gwmni mawr yn y DG am y cyfnod hwnnw.

Diogelu dilysrwydd y post

Mae pob llythyr yn bwysig i'r Post Brenhinol ac rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu dilysrwydd y post ac i sicrhau diogelwch y llythyrau a'r parseli sy'n cael eu hymddiried i ni i'w dosbarthu. Mae mwyafrif helaeth ein pobl yn bobl onest iawn ac mae swmp y post (99.92%) yn cyrraedd ei gyrchfan cywir yn ddiogel. Er mai sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth y maent yn ei ddisgwyl gan y Post Brenhinol yw ein nod, gan ein bod yn trin tua 84 miliwn o eitemau'r dydd, fe all pethau fynd o chwith weithiau. Petai hynny yn digwydd, rydym am ddigolledu ein cwsmeriaid yn sydyn ac yn deg. Yn unol â hynny rydym wedi ad-dalu rhyw £60 miliwn i gwsmeriaid yr oedd eu post yn hwyr y llynedd. Rydym yn cynnig gwell diogelwch gwasanaeth i'n cwsmeriaid nag unrhyw gwmni arall ac rydym yn un o'r ycyhydig weithredwyr sy'n digolledu pan fydd y post yn hwyr. Ym mis Ionawr 2005 anfonasom daflen i'r 27 miliwn o gyfeiriadau yn y DG i roi atebion i rai o'r cwestiynau a ofynnir yn aml ynghylch dosbarthu'r post a'r gwasanaeth y gall cwsmeriaid ddisgwyl ei gael oddi wrth y Post Brenhinol, ac â phwy y dylid cysylltu â hwy petai rhywbeth yn mynd o chwith.

Gan ein bod yn disgwyl y safonau uchaf o onestrwydd gan ein pobl, bellach mae gweithwyr sy'n ymuno â'r Post Brenhinol yn cael eu harchwilio i sicrhau nad ydynt yn ceisio celu unrhyw gyn-euogfarnau troseddol. Mae hyn yn ychwanegu haen ychwanegol bwysig o ddiogelwch i'n gweithrediadau ac yn golygu y gall cwsmeriaid bostio eu post gyda hyd yn oed fwy o hyder na chynt.

Mae nifer y gweithwyr achlysurol a gyflogir gan y busnes wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd, o dros 20,000 i tua 2,500. Pan fyddwn angen cymorth ychwanegol ar gyfnodau prysur, rydym wedi bod yn gweithio i greu cronfa o weithwyr dros dro o'r radd flaenaf. Mae hyn yn golygu rhoi cardiau adnabod tebyg i basport, sy'n nodi manylion yr hyfforddiant a'r profiad gwaith y maent wedi'i gael yn y Post Brenhinol, i recriwtiaid newydd, hyd yn oed os ydynt wedi gweithio mewn gwahanol swyddfeydd ac am gyfnodau ysbeidiol gyda'r Cwmni.

Ein pobl, ein hased mwyaf

Mae maint y newid yr ydym wedi ei weithredu a chyflymder gweithredu'r newid hwnnw, tra'n cadw'r gwasanaeth i fynd, yn dyst i waith caled ac ymrwymiad ein pobl. Er mwyn cydnabod hynny, rydym yn rhoi taliad Rhannu Mewn Llwyddiant o £1,074 i'r rhan fwyaf o'n pobl a fu gyda'r busnes yn ystod y flwyddyn olaf o'n Cynllun Adnewyddu. Mae'n debygol mai'r £218m hwn yw'r taliad rhannu elw mwyaf a wnaed i weithwyr unrhyw gwmni yn y DG. Yn ogystal â hynny, rydym wedi codi'r tâl sylfaenol pensiynadwy i fwy na £300 yr wythnos, ac wedi newid o wythnos waith chwe diwrnod i bum niwrnod, tra'n parhau i ddosbarthu ar chwe diwrnod yr wythnos.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddwch, gan na fydd gweithgareddau o'r fath yn cael eu dioddef ar unrhyw lefel. Trwy gydol y flwyddyn ymgymerom â rhaglen hyfforddi amrywiaeth ar draws y Cwmni, er mwyn dangos sut y mae'n rhaid gwerthfawrogi a pharchu pawb am eu cyfraniad i'r cwmni, pa fath o ymddygiad sy'n annerbyniol ac i ble i fynd am help petai yna broblem. I gydnabod ymdrechion y busnes i fynd i'r afael â'r materion hyn dywedodd Race for Opportunity, yn ei adroddiad ar hil ac ethnigrwydd ar draws nifer o wahanol feysydd busnes, mai Grŵp y Post Brenhinol yw'r cwmni sydd wedi gwneud y gwelliant mwyaf yn ei sector.

Rydym wedi cymryd camau mawr i ddelio ag absenoldeb hefyd. Yr haf diwethaf, cyflwynwyd cynlluniau newydd i roi gwell cefnogaeth i bobl sy'n absennol drwy salwch ac i wobrwyo'r rhai sydd yn eu gwaith yn rheolaidd. Mewn raffl a oedd yn agored i'n gweithwyr na fu'n absennol drwy salwch rhwng dechrau Awst 2004 a diwedd Ionawr 2005, enillodd 37 gar newydd sbon, enillodd 75 gwerth £2,000 o dalebau gwyliau ac enillodd 90,000 o bobl werth £150 o dalebau gwyliau fel diolch am eu cyfraniad i gwsmeriaid a'r busnes. Yn y cyfnod chwe mis hwnnw bu 11% o welliant ym mhresenoldeb dyddiol ein dynion a'n gwragedd post o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn gynt – roedd hynny yn cyfateb â 1,000 o ddynion a gwragedd post ychwanegol yn eu gwaith yn casglu, didoli a dosbarthu post ar unrhyw ddiwrnod neilltuol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Blynyddol (parhad)

Roedd cadw cysylltiad agosach â phobl a oedd angen cymryd amser o'r gwaith oherwydd eu bod yn sâl, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y lefel iawn o gefnogaeth i'w helpu i ddychwelyd i'w gwaith cyn gynted ag y gallant, a llenwi'r bylchau heb unrhyw golled i'r gwasanaeth neu i gwsmeriaid, ymhlith y cynlluniau eraill a weithredwyd. Gwnaethom wella'r gefnogaeth i unrhyw un a oedd yn absennol drwy salwch hefyd. Mae bellach yn haws ac yn gyflymach i'n pobl gael triniaeth sy'n cyfateb yn agosach â'u hanghenion, bydd desg cymorth meddygol newydd yn hwyluso cyfeirebau a bydd ffisiotherapi a gwasanaethau therapi galwedigaethol yn haws eu cael i bawb sydd eu hangen.

Buom yn helpu ein pobl mewn ffyrdd eraill hefyd drwy negydu deliadau arbennig ar eu rhan. Trwy'r Cynllun Addysg i Bawb, mae gan tua 26,000 o bobl gyfrifiadur gartref â mynediad i'r rhyngrwyd a oedd yn costio 40% yn llai na'r systemau tebyg a geir ar y stryd fawr. Mae dros 30,000 o bobl wedi cymryd mantais o ddau benwythnos pan gynigiwyd 20% o ddisgownt yn Homebase, a hyd yn hyn mae 300 wedi manteisio ar y cyfle i arbed hyd at £5,000 ar gar Vauxhall newydd o dan y cynllun a ffurfiwyd rhwng GM Motors a'r Post Brenhinol.

Siopa ar y rhyngrwyd

Mae siopa ar y rhyngrwyd yn sydyn ddatblygu i fod yn gystadleuaeth anodd i adwerthwyr y stryd fawr, gyda siopa ar-lein bellach yn cynrychioli tua 6% o adwerthu ac mae hynny'n debygol o gyrraedd 15% erbyn 2010, marchnas sy'n werth dros £40bn. Yn ystod Nadolig 2004, dosbarthodd y Post Brenhinol 55 miliwn o eitemau a archebwyd ar-lein – 15 miliwn yn fwy na'r un cyfnod y flwyddyn gynt. Llyfrau, fideos a DVDs yw'r eitemau tocyn-isel sy'n ffefryn o hyd, ond mae dillad ac eitemau tocyn-uwch yn dod yn fwyfwy poblogaidd, gyda dillad bellach yn cyfrif am 10% o'r holl werthiannau ar-lein. O ganlyniad i'r twf hwn bu cynnydd o 6% yng ngwerthiant archebion post yng nghanghennau Swyddfa'r Post® - pobl ifanc rhwng 16- 24 oed oedd cyfran uchel o'r cwsmeriaid – gan eu bod yn cynnig dull sicr a dibynadwy o dalu i gwsmeriaid sydd heb gyfrif banc. Amcangyfrifwn fod tua 445,000 o werthwyr eBay hefyd yn postio tua 650,000 o eitemau drwy ein canghennau Swyddfa'r Post® bob wythnos; mae 23% o'r eitemau hyn yn mynd dramor.

Rydym yn cydweithio'n agos ag adwerthwyr i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y sianel adwerthu newydd hon ac yn gallu dosbarthu eu heitemau i'w cwsmeriaid. Yn dilyn y cytundeb a wnaed gyda darparwyr e-fasnach Marketworks, gall y Post Brenhinol helpu cwmnïau sydd eisiau dechrau masnachu ar eBay.co.uk trwy reoli pob agwedd ar y gweithrediad – o ddylunio blaen y storaf, rheoli archebion a gweithgareddau marchnata ar-lein i storio cynhyrchion a chyflawni nwyddau. Mae'r bartneriaeth yn galluogi masnachwyr i ddefnyddio eBay fel sianel i gyfannu gweithgareddau gwerthu eraill, yn enwedig o werthu gorstoc, eitemau a ailwampiwyd neu nwyddau a ddychwelwyd oherwydd nad oedd eu hangen, yn hytrach na'u bod wedi'u difrodi. Rydym hefyd yn gweithio i annog masnachwyr i fanteisio ar ein gwasanaeth Local Collect, sy'n galluogi'r masnachwr i gynnig dosbarthu eitemau i gangen Swyddfa'r Post® leol lle gall cwsmeriaid eu casglu petai hynny'n fwy cyfleus iddynt.

Helpu busnesau bach

Mae system postio ar-lein y Post Brenhinol, SmartStamp™, a lansiwyd y llynedd yn galluogi busnesau bach i ychwanegu naws broffesiynol i'w post drwy argraffu neges addasedig neu logo'r cwmni yn ymyl yr argraffiad post yn uniongyrchol o'u cyfrifiaduron eu hunain. Bu'n ddull poblogaidd, gwahanol i'r stampiau traddodiadol, ymhlith cwmnïau bach ar draws sawl sector.

Mae rhyw 13 miliwn o eitemau SmartStamp™ wedi'u hanfon hyd yn hyn, gan helpu'r 15,000 o ddefnyddwyr cofrestredig i sicrhau bod eu post yn fwy amlwg na'u cystadleuwyr, yn ogystal ag arbed amser iddynt. Cafodd y system bost flaengar hon ei chydnabod hefyd gan Wobrau Busnes Cenedlaethol y llynedd pan ddyfarnwyd Gwobr Defnydd Gorau o Dechnoleg i'r Post Brenhinol.

Gellir cael gwybodaeth ychwanegol ar sut y mae modd i fusnesau bach arbed arian ac amser ar eu post, yng nghanolfan wybodaeth ar-lein y Post Brenhinol ar ein gwefan - www.royalmail.com/smallbusiness. Mae'r Ganolfan i Fusnesau Bach yn helpu cwmnïau bach i gael gwybodaeth sydyn a hwylus ar bopeth, gan amrywio o sut i reoli costau post, i sut mae dod o hyd i gwsmeriaid newydd a ffurfio cysylltiadau busnes parhaol. Mae hefyd yn fforwm i rannu profiadau a thactegau llwyddiannus gyda chwmnïau eraill o'r un maint.

Gwobrau Pobl Dosbarth 1af

Ein pobl yw ein hased mwyaf ac er mwyn cydnabod yr ymdrechion hynod a wnânt wrth iddynt ddosbarthu bob dydd i'r 27 miliwn o gyfeiriadau yn y DG eleni, dyfarnwyd Gwobr Pobl Dosbarth 1af i bedwar o ddynion a gwragedd post, a ddweiswyd o blith 30 enillydd rhanbarthol. Cafodd Tracey Smith a Karen Cowling eu henwi fel 'postmon a phostwraig y flwyddyn' am eu cefnogaeth arwrol i Boscastle yng Nghernyw a drawyd gan lifogydd. Profodd gwybodaeth leol unigryw y pâr yn amhrisiadwy pan drawodd llifogydd sydyn y pentref hanesyddol ym mis Awst 2004. Gweithiodd Karen a Tracey 20 awr y dydd yn union wedi'r drychineb, er mwyn helpu'r gwasanaethau brys ac i sicrhau bod y post yn dal i gael ei ddosbarthu i'r pentrefwyr.

Cydnabuwyd ymdrech ddewr Steve Lyon, postmon yn Chippenham, am neidio i afon â llif sydyn i achub bachgen bach 18 mis oed rhag cael ei olchi i gored beryglus, wedi iddo syrthio wrth iddo fwydo hwyaid; ac enwyd y postmon o Watford, Mohammed Younis, fel 'codwr arian y flwyddyn' gan iddo godi £250,000 dros yr 20 mlynedd diwethaf i adeiladu ysbyty ar gyfer trigolion Pindi Bhattian, ardal anghysbell ym Mhacistan lle, ar hyn o bryd, mae cael unrhyw driniaeth feddygol yn golygu taith 5 awr.

Bod yn gwmni cyfrifol

Mae busnes y Post Brenhinol yn fawr ac felly rydym yn effeithio'n sylweddol ar y byd o'n cwmpas. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol o ddifrif ac ym mis Medi 2004, cyhoeddom ein Hadroddiad Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CCC) llawn cyntaf. Mae hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i ddarparu ein busnes mewn ffordd addas ar gyfer ein pobl, ein cwsmeriaid a'n cymunedau, y rhaglenni yr ydym wedi'u datblygu i hyrwyddo gwelliant a'r targedau yr ydym wedi'u gosod ar gyfer ni ein hunain i fesur y rhain.

Cadarnhaodd yr adroddiad ein bod wedi gwneud peth cynnydd cadarnhaol iawn – mae ein perfformiad diogelwch wedi gwella ac rydym ar y llwybr iawn gyda'r rhan fwyaf o'n targedau amgylcheddol. Cydnabu nifer o ffynonellau ein dulliau, yn eu plith fe'n cydnabuwyd fel Rhaglen CCC Orau Ewrop yng Ngwobrau Rheoli Risg Ewrop 2004. Yn ystod 2004-05, parhaodd y nifer o ddanweiniau adroddadwy yn y busnes i ostwng, i lawr dros 23% i 5,598. Yn ystod y Cynllun Adnewyddu, gwelsom gyfraddau damweiniau adroddiadwy'n gostwng o ryw 40%. Mae'r duedd hon yn ganlyniad i'n hymchwiliadau i bob damwain fawr a llawer o ddamweiniau llai er mwyn darganfod lle gallwn wneud gwelliannau.

Adolygiad Blynyddol (parhad)

Llythyrwyr ifanc

Denodd cystadleuaeth llythyrwyr ifanc y Post Brenhinol dros 5 miliwn o gystadleuwyr ers ei sefydlu 28 mlynedd yn ôl, gan sicrhau mae hi yw'r gystadleuaeth fwyaf o'i bath yn y DG. Gwahoddir plant ysgolion cynradd ar draws y DG i gystadlu, ac eleni heriodd y gystadleuaeth lythyrwyr ifanc y genedl i "Ysgrifennu at eu Harwr Pennaf".

Dathliadau drwy stampiau

Dathlodd stampiau'r Post Brenhinol amrediad eang o ben-blwyddi ac achlysuron yn ystod y flwyddyn a fu. Nodwyd dewrder y milwyr a ymladdodd yn Rhyfel y Crimea 150 o flynyddoedd yn ôl â set o stampiau a gyhoeddwyd ym mis Hydref diwethaf.

Yn y bleidlais gyntaf o'i bath ar deledu cenedlaethol, pleidleisiodd gwylwyr y rhaglen 'This Morning' ar ITV i benderfynu pa raglenni o'r 50 mlynedd diwethaf ddylai ymddangos ar set o stampiau i'w comisiynu'n arbennig gan y Post Brenhinol. Mewn cystadleuaeth glos iawn, Emmerdale a ddaeth i'r brig gan guro Coronation Street a'r Bill, bydd y stampiau'n ymddangos ar lythyrau a pharseli o fis Medi.

Eleni, 163 o flynyddoedd wedi ei ymddangosiad cyntaf, ailymddangosodd stamp enwocaf y byd, y Penny Black, er mwyn dathlu 250 pen-blwydd y Gymdeithas Frenhinol i hybu'r Celfyddydau, Cynhyrchwyr a Masnach (RSA). Fe'i dangoswyd ar y stamp Dosbarth 1af, yn un o chwech a gyhoeddwyd i nodi cyfraniad dihafal y RSA i ddyfeisgarwch a chreadigrwydd dros ddwy ganrif a hanner.

Swyddfa'r Post Cyfyngedig - newid y ffocws ar gyfer y dyfodol

Bu'r newid yn y modd y mae budd-daliadau fel pensiynau, budd-dâl plant a lwfans ceiswyr gwaith yn cael eu talu'n gatalydd i Swyddfa'r Post Cyfyngedig newid. Wrth iddo wynebu colli rhyw 40% o'i incwm hanesyddol o daliadau budd-dâl gan fod trosglwyddo arian yn uniongyrchol wedi disodli'r system bapur gynt, mae Swyddfa'r Post® yn mynd drwy newid diwylliannol enfawr wrth geisio canolbwyntio mwy ar werthiannau ac ar y cwsmer, er mwyn iddo fedru cystadlu ag adwerthwyr eraill y stryd fawr, a chadw'r 28 miliwn o gwsmeriaid sy'n ymweld yn wythnosol â changen Swyddfa'r Post®.

Mewn ymgais i atal y colledion refeniw, mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi lansio nifer o gynhyrchion a gwasanaethau newydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae lansio yswiriant car, Bondiau Twf a Bondiau Ecwiti Gwarantedig wedi ehangu portffolio Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post ac mae dau bartner bancio newydd – Clydesdale Bank a'r Bank of Ireland – yn golygu bellach fod mwy na 26 miliwn o bobl yn medru codi arian yn ddi-dâl dros unrhyw gownter mewn urhyw un o ganghennau Swyddfa'r Post®.

Yr her sy'n wynebu Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn awr yw bod yn well o ran gwerthu ei amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau os yw ar atal colledion ariannol yn ystod y flwyddyn i ddod. Yn y pendraw, bydd ei ddyfodol yn dibynnu ar ei allu i werthu ei gynhyrchion a'i wasanaethau.

Aeth Swyddfa'r Post Cyfyngedig hefyd i'r farchnad llinellau ffôn sefydlog yn Ionawr pan lasiodd HomePhone Swyddfa'r Post®. Tanysgrifiodd 60,000 o gwsmeriaid yn y 10 wythnos gyntaf a'r her i Swyddfa'r Post® yw cynnal y lefel hon os yw i gyrraedd ei darged o ddenu miliwn o gwsmeriaid erbyn 2008.

Yn y sector teithio, sefydlodd Swyddfa'r Post® ei hun fel un o'r prif ddarparwyr polisïau yswiriant teithio a gwasanaethau cyfnewid arian tramor – lle mae bellach yn arwain y farchnad – a pholisïau yswiriant teithio. Bellach mae rhyw 2,000 cangen Swyddfa'r Post® ar-gais yn gwerthu arian tramor yn ddigomisiwn – ac mae gweddill y canghennau'n cynnig gwasanaeth rhagarchebu lle dosberthir y diwrnod wedyn.

Tuag at rwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post® ymarferol a chynaliadwy

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn amser o newid mawr a meddwl newydd i'n rhwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post®. Bellach, mae'r gwaith o ad-drefnu ein rhwydwaith trefol o ganghennau Swyddfa'r Post® ar ben ac, fel a ragwelom, rydym yn parhau wrth galon y gymuned gyda changen Swyddfa'r Post® o fewn milltir i gartref tros 99% o'r boblogaeth mewn ardaloedd trefol. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'n his-bostfeistri er mwyn gwella'r cyfleusterau ac i adnewyddu canghennau trefol.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i atal cau canghennau Swyddfa'r Post® gwledig lle bynnag y bo modd. Maent yn chwarae rhan gymdeithasol bwysig ym mywyd bob dydd cefn gwlad ac i gydnabod hynny, rydym yn croesawu datganiad y Llywodraeth y bydd yn parhau i ddarparu £150m o gyllid y flwyddyn tan 2008. Yn ogystal â chadw canghennau gwledig i redeg, mae'r cyllid yn cynnwys buddsoddiad ar gyfer dulliau newydd a dyfeisgar i ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post® i gwsmeriaid mewn ardaloedd mwy anghysbell. O ganlyniad i waith ein tîm penodol o ymgynghorwyr trosglwyddiad gwledig, bellach gellir gweld canghennau Swyddfa'r Post® mewn neuaddau pentref, tafarndai ac eglwysi ymhlith lleoliadau eraill. Rydym wedi ymuno â Heddlu Norfolk mewn cynllun peilot i gynnig gwybodaeth a chyngor ar faterion yr heddlu yn ogystal â chynnyrch a gwasanaethau Swyddfa'r Post® o nifer o ganghennau Norfolk. Yn Cwmbria, mae cangen Swyddfa'r Post® symudol yn mynd at y cwsmeriaid, gan arbed siwrnai iddynt i'r dref agosaf, ac mae'n cynnig yr un trosglwyddiadau bancio ar-lein ac amrediad eang o gynnyrch a gwasanaethau eraill ag a geir mewn cangen sefydlog.

Mynd o nerth i nerth yn y busnes parseli

Yn y farchnad barseli, mae Parcelforce Worldwide wedi gwella ei safle ariannol gan barhau ar yr un pryd â gwella ansawdd y gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid, yn enwedig o ran cynhyrchion amser-hanfodol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi cynyddu ei swmp a'i refeniw, ac mae'n dal i ennill busnes arwyddocaol.Cafodd ei enwi fel cludwr Parseli Brys Ewropeaidd 2005 gan Sefydliad Rheoli Cludiant i gydnabod ei berfformiad uchel yn dosbarthu i gwsmeriaid, ei ddefnydd o dechnoleg dilyn ac olrhain soffistigedig a'r sylw a rydd ei weithwyr i'r cwsmer.

Adolygiad Blynyddol (parhad)

Cydnabu Gwobrau Busnesau Bach Parcelforce Worldwide, sydd bellach yn eu 12fed flwyddyn, ragoriaeth ymhlith busnesau bychain a'u cyfraniad i'r economi. Enwyd Blue Chip Feed Ltd a leolir yn Sheffield fel Busnes Bychan y Flwyddyn 2004. Clodforodd y beirniaid y cwmni, sy'n cyflenwi bwyd ceffylau o'r radd flaenaf, am ei angerdd a llwyddiant yn creu marchnad ar gyfer cynnyrch bwyd ceffyl gwyddonol datblygedig – mae gan Blue Chip Feed 55% o'r farchnad arbenigol hon.

Mae Parcelforce Worldwide yn dosbarthu i 240 gwlad a thiriogaeth ledled y byd ac yn y DG ef yw partner General Logistics Systems (GLS), ein busnes parseli Ewropeaidd. Mae'n cynnwys rhwydwaith o gwmnïau mewn 15 o wledydd, sy'n dosbarthu miliwn o barseli'r dydd ar gyfartaledd, ar draws 34 o wledydd i ryw 180,000 o gwsmeriaid.

Rydym wedi dod ymhell ers cychwyn ein Cynllun Adnewyddu tair blynedd, ond wrth i'r Post Brenhinol wynebu cystadleuaeth lawn ym marchnad bost y DG o fis Ionawr 2006, yr her i ni fydd gwella ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid ymhellach a buddsoddi yn ein pobl, er mwyn sicrhau mai ni fydd cwmni dewisol y cwsmer.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

Rhagarweiniad ac uchafbwyntiau ariannol

Elw/(colled) y Grŵp o weithrediadau - £m



Eleni yw blwyddyn olaf Cynllun Adnewyddu tair blynedd y Grŵp, a luniwyd i ad-drefnu ein gweithrediadau a chreu busnes proffidiol a chynaliadwy a all wynebu'n hyderus y gystadleuaeth a ddaw i'n rhan yn fuan ym mhob un o'r marchnadoedd craidd - llythyrau, parseli a rhwydwaith adwerthu Swyddfa'r Post®.

Crynodeb o'r canlyniadau	**2005 £m**	2004 £m
Trosiant allanol	**8,956**	8,633
Elw o'r gweithrediadau	**537**	220
Eitemau eithriadol:		
Costau Rhannu Mewn Llwyddiant	**(218)**	nil
Arall	**8**	nil
Elw cyn llog a threth	**189**	88
Llog net derbyniadwy	**18**	17
Elw cyn treth	**207**	105
Credyd/(tâl) treth	**28**	(98)
Elw ar ôl treth	**235**	7

Elw/(colled) o dwf y gweithrediadau yn ôl uned busnes - £m



Elw/(colled) o'r gweithrediadau yn ôl uned busnes - £m



Eleni rydym yn adrodd am yr elw uchaf erioed o'n gweithrediadau, £537m o'i gymharu â £220m am 2003-04, cynnydd o £317m neu 144.1%. Cyfrannodd pob un o'r unedau busnes, ar wahân i Swyddfa'r Post Cyf. at y cynnydd hwn, roedd cynnydd o £245m (70.8%) ym mhroffidioldeb y Post Brenhinol; £36m (144.0%) yn General Logistics Systems; £41m (75.9%) yn Parcelforce Worldwide; tra bo cynnydd o £7m (6.8%) yng ngholledion Swyddfa'r Post Cyf. Cynnydd o £211m (3.2%) mewn refeniw post, oherwydd y twf yn y swmp sylfaenol, ac eithrio cynhyrchion rhyngwladol a Drws i Ddrws o 1.4%, a chodiad prisiau ychwanegol o 1.3%, fel a ganiateir o dan y rheolau prisiau cyfredol, sydd i gyfrif am y gwelliant o £245m yng nghanlyniadau'r Post Brenhinol. Ychwanegodd y gostyngiad o £35m (0.7%) yng nghostau net y Post Brenhinol at y trosiant, cafodd y costau pobl uwch mewn perthynas â'r 14.5% o godiad cyflog, mwy na'i wrthbwyso gan ostyngiadau mewn costau eraill.

Er gwaethaf colli incwm budd-daliadau traddodiadol yr Adran Waith a Phensiynau, a oedd yn cynrychioli 40% o'i incwm hanesyddol, a chyfran o golledion cychwynnol y cynhyrchion gwasanaethau ariannol gwerth rhyw £18m, cyfyngodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig ei golledion i £110m, sy'n £7m (6.8%) yn waeth na'r llynedd. Cyflawnwyd hyn trwy ddenu refeniw newydd, yn bennaf o fwy o weithgareddau bancio a chyfnewid arian tramor, ynghyd â gwelliannau parhaus mewn effeithiolrwydd cost cyffredinol. Mae'r golled o £110m yn cynnwys cost cynnal y rhan aneconomaidd o'r rhwydwaith gwledig - petai'r gweithgaredd hwn wedi ei ariannu ar gontract masnachol hyd braich gyda'r Llywodraeth, yn hytrach na chael ei hariannu o gronfeydd ein mantolen, byddai Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi gwneud elw bach.

Bu cynnydd o £95m (11.6%) yn nhrosiant allanol GLS, gan gynnwys £8m o effaith ffafriol o ganlyniad i gryfhau'r ewro. Twf sylweddol yn nifer y parseli craidd, yn enwedig yng Nghanol Ewrop a'r cyfraniad o gaffaeliadau o £23m sydd i gyfrif am y £87m (10.6%) yn y twf sylfaenol. Bu cynnydd o £36m (144.0%) yn elw'r gweithrediadau, o £25m y llynedd, i £61m eleni, cyfuniad o gynnydd mewn trosiant, rheoli'r costau yn llym a gwell cynhyrchiant gweithredol gan roi maint elw o 6.7.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Cyfrannodd Parcelforce Worldwide £41m at welliant elw cyffredinol y Grŵp o'i weithrediadau o ganlyniad i ostyngiad mewn colledion o'i weithrediadau o £54m i £13m, perfformiad gwell o 75.9%. Yn bwysig, creodd y busnes hwn elw o'i weithrediadau yn ail hanner y flwyddyn. Mae'r perfformiad hwn yn deillio o dwf refeniw (5.7%) a maint elw gwell, oherwydd ei raglenni lleihau costau.

Mae'r busnesau eraill yn cynnwys cyfran y Grŵp o ganlyniadau o'n cyd-fentrau a chyfranogion fel Romec (rheoli cyfleusterau), Quadrant (arlwyo), National Design Consultancy (NDC) (gwasanaeth peirianneg adeiladu) a Camelot (loteri). Gyda'i gilydd, cofnododd busnesau eraill y Grŵp gynnydd yn eu helw, £8m o'i gymharu â £6m y llynedd.

Dengys y canlyniadau hyn ein bod wedi gwneud lawer yn well na tharged £400m Rhannu Mewn Llwyddiant ac mae'n cynrychioli tâl o £1,074 cyn treth i bob un o'n pobl a oedd gyda ni trwy gydol 2004-05. Mae hyn yn gyfwerth â buddsoddi £218m yn ein pobl – neu bron i fis o gyflog i'r rhan fwyaf o'n staff cymwys – i wobrwyo eu cyfraniad dros y tair blynedd diwethaf a'u hymroddiad i'n busnes. Mae'r gost wedi ei chydnabod fel eitem eithriadol weithredol oherwydd ei maint ac mai hwn oedd y taliad cyntaf o'i fath gan y busnes.

Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn cynnwys y costau iawndal sylweddol ar gyfer y targedau ansawdd gwasanaeth a fethom â'u cyrraedd trwy gydol y flwyddyn, cânt eu talu i'n cwsmeriaid y flwyddyn nesaf. Mae hyn ar ben y £58m mewn perthynas â pherfformiad gwael y llynedd. Fodd bynnag, bu gwelliant cyffredinol yn ansawdd y gwasanaeth trwy gydol eleni a'r tanberfformiad yn chwarter 1 sydd yn bennaf gyfrifol am gostau iawndal eleni - o ganlyniad yn bennaf i gyflwyno'r Arolwg Cludiant a'r Un Dosbarthiad Dyddiol.

Trosiant allanol

Trosiant allanol vn ôl uned busnes - %



Twf trosiant allanol yn ôl uned busnes - £m



Bu cynnydd o 3.7% (£323m) yn y trosiant allanol, o £8,633m i £8,956m, cynnydd yn swmp y post domestig oedd i gyfrif am £211m (1.4%) o hwn, a chynnydd (1.3%) ym mhris post domestig y Post Brenhinol. Mae refeniw post yn cyfrannu 75.5% at drosiant allanol y Grŵp. Adroddodd Swyddfa'r Post Cyf. 0.1% (£1m) o ostyngiad, o £977m i £976m (10.9% o drosiant allanol y Grŵp), yn bennaf o ganlyniad i'r erydiad yn swmp y budd-daliadau traddodiadol a wrthbwyswyd gan refeniw'r gwasanaethau ariannol newydd. Bu cynnydd o 11.6% (£95m) yn nhrosiant General Logistics Systems - 10.6% cyn effaith y gyfradd gyfnewid - o £818m i £913m (10.2% o drosiant allanol y Grŵp) twf yn y swmp yn yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal yn bennaf a pheth cynnydd mewn prisiau mewn rhai gwledydd penodol oedd i gyfrif am hyn yn bennaf, tra bu cynnydd o 5.7% (£16m) yn nhrosiant Parcelforce Worldwide, o £282m i £298m (3.3% o drosiant allanol y Grŵp), gan adlewyrchu swmp uwch o ran cynnydd mewn cynhyrchion cyfrif cenedlaethol a chymysgiad ffafriol.

Costau (ac eithrio eitemau eithriadol)

Rhwng popeth, bu cynnydd o £9m (0.1%) yn yr £8,591m o gostau, sy'n cadarnhau bod y codiad cyflog, chwyddiant a'r twf yn y swmp wedi eu hamsugno gan arbediadau effeithiolrwydd sy'n deillio o'r rhaglenni newid craidd a gostyngiad mewn costau gweithredu eraill megis gweinyddiaeth a chyfleusterau.

Mae'r £5,038m o gostau pobl yn cynrychioli 58.7% o sylfaen gostau'r Grŵp a bu cynnydd o £150m (3.1%) ynddynt yn ystod y flwyddyn, y codiad cyflog i'n dynion a'n gwragedd post oedd yn bennaf gyfrifol am hyn, a rhoddodd gynnydd pellach o 10% - gan roi cyflog wythnosol sylfaenol o £300 yr un i'r rhan fwyaf o'n pobl yn y rheng flaen ar ôl cwblhau rhaglenni effeithiolrwydd craidd yn llwyddiannus – gwrthbwyswyd hyn gan ostyngiad yn y nifer y bobl drwy ddiswyddiadau gwirfoddol.

Mae taliadau gweithredu eraill o £3,397m yn cynrychioli 39.5% o sylfaen gostau'r Grŵp a bu gostyngiad o £102m (2.9%) ynddynt o ganlyniad i welliannau effeithiolrwydd parhaus mewn nifer o feysydd, gan gynnwys swyddogaethau cefnogi canolog, tra bo dibrisiant/amorteiddiad yn cynrychioli £156m (1.8%) o'r sylfaen gostau ac mae wedi gostwng 20%.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Costau yn ôl math - %



Twf costau yn ôl math - £m



Elw o'r gweithrediadau

Crynodeb	2005 £m	2004 £m
Elw gweithredol y Grŵp cyn yr eitemau eithriadol	**365**	51
Ychwanegu cyfran o'r elw mewn cyd-fentrau a chyfranogion	**34**	37
Cyfanswm yr elw gweithredol cyn yr eitemau eithriadol	**399**	88
Ychwanegu'r tâl diffyg o dan SSAP 24	**138**	132
Elw'r Grŵp o weithrediadau	**537**	220

Mae'r Grŵp yn parhau i adrodd am elw o weithrediadau yn ystod y Cynllun Adnewyddu i fesur ei berfformiad proffidioldeb sylfaenol. Nid yw'r mesur hwn yn cynnwys y taliadau sy'n berthnasol i'r diffygion yn y gronfa bensiwn ond mae'n cynnwys ei gyfran o ganlyniadau o gyd-fentrau a chyfranogion. Gellir gweld y cysoniad i elw gweithredol y Grŵp cyn yr eitemau eithriadol yn y cyfrif elw a cholled yn y tabl cyfagos, sy'n dangos bod y Grŵp wedi cofnodi £399m (2004 £88m) o elw ar ôl y costau diffygion pensiwn, gwelliant o 353.4% ar y flwyddyn flaenorol.

Meintiau

Mae maint yr elw o weithrediadau - 4.1% (elw gweithredol y Grŵp cyn yr eitemau eithriadol a fynegir fel canran o'r trosiant allanol), yn well nag elw'r llynedd, sef 0.6%. Y cynnydd o £323m mewn trosiant yn llifo trwodd i'r elw o'r gweithrediadau sy'n pwysleisio'r ffaith bod y Grŵp yn amsugno costau'r swmp ychwanegol a'r codiad cyflog, ac felly'n cyflawni effeithiolrwydd gwirioneddol yn ei sylfaen gostau, sydd yn llwyr gyfrifol am hyn.

Er bod ein derbyniadau yn parhau i wella, nid ydynt yn cymharu'n ffafriol â gweithredwyr post Ewropeaidd eraill, fel a nodir isod. Digwyddodd hyn yn bennaf oherwydd bod prisiau llythyrau mewnol y Post Brenhinol yn is na gweddill Ewrop.

Elw cystadleuwyr y Grŵp



Elw cystadleuwyr Post



Costau Pensiwn

Crynodeb o gostau pensiwn	2005 £m	2004 £m
Costau pensiwn rheolaidd	**253**	243
Cost diffygion pensiwn	**138**	132
Costau diswyddo eithriadol	**21**	54
Cyfanswm taliadau a gynhwysir mewn elw cyn treth	**412**	429

Dyma'r flwyddyn olaf y bydd y Grŵp yn cyfrifo costau pensiwn dan Gostau Cyfrifo Pensiwn SSAP 24, gan y bydd yn adrodd dan Safonau Cyfrifo Rhyngwladol y flwyddyn nesaf. Mae'r taliadau diffygion pensiwn presennol yn seiliedig ar y prisiad teirflynyddol llawn diwethaf ym Mawrth 2003. Cadarnhaodd y prisiad hwn bod diffyg sylweddol, yn bennaf oherwydd y newidiadau ym mhrisiadau asedion, cyfraddau disgownt is, gostyngiad yn y derbyniadau buddsoddiad hirdymor disgwyliedig a gynyddodd ddyledion y Cynllun ac oes hirach ddisgwyliedig ein gweithwyr a phensiynwyr.

£253m (2003 £243m) yw'r costau pensiwn rheolaidd a gynhwysir yn yr elw o weithrediadau. Mae cost net y diffygion pensiwn o £138m yn cynnwys £198m mewn perthynas â chydnabod y diffyg cyfrifo dros 12 mlynedd - sef gweddill oes gwasanaethu cyfartalog y gweithwyr – a wrthbwysir gan log tybiannol ar y £60m o ragdaliad pensiwn. Ceir datgeliad llawn am bensiynau, gan gynnwys effaith arwyddocaol ddisgwyliedig buddion ymddeol FRS 17, yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Cyllido arian pensiwn

Crynodeb o lif arian pensiwn	2005 £m	2004 £m
Cyfraniadau pensiwn rheolaidd	**187**	16
Cyllido diffygion y gronfa bensiwn	**138**	45
Taliadau sy'n berthnasol i ddiswyddiadau	**5**	194
Rhagdaliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf	**-**	125
Taliadau arian net	**330**	380

Nid yw'r cyfrifiadau i benderfynu ar ddulliau cyllido'r cynlluniau pensiwn yn dibynnu ar yr un tybiaethau a ddefnyddir i gynhyrchu tâl SSAP 24 i'r cyfrif elw a cholled. Defnyddir tybiaethau actiwarial mwy gochelgar gan yr Ymddiriedolwyr ac actiwari'r Cynllun annibynnol, a chan ddefnyddio'r prisiad diweddaraf, mae hyn wedi cadarnhau diffyg ariannol o £2.5bn, rydym bellach wedi talu £271m o hwn, gan gynnwys £138m yn 2004-05. Nodir y llif arian mewn perthynas â phensiynau yn y tabl gyferbyn. At hyn, gwnaed taliad pellach o £220m mewn perthynas â chostau diswyddo yn ystod wythnos gyntaf 2005-06. Mae llif arian eleni yn cael ei effeithio'n bositif gan £128m oherwydd amseriad y rhagdaliadau pensiwn. Dros gyfnod y Cynllun Adnewyddu, rydym wedi talu £255m i mewn i'n cynllun pensiwn i gyllido costau'r elfen bensiwn o'r taliadau diswyddo.

Cyfran yr elw mewn cyfranogion a chydfentrau
Mae'r £34m (2004 £37m) o gyfran y Grŵp o elw mewn cyfranogion a chyd-fentrau yn cynnwys £1m (2004 £4m) oddi wrth Romec, £8m (2004 £4m) oddi wrth Camelot, £1m (2004 £1m) oddi wrth NDC, £38m (2004 £21m) o gyd-fenter Bureau de Change (First Rate Travel Services Limited), £5m (2004 £7m) o Quadrant, colled o £18m (2004 £2m) o Wasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post a cholled o £1m (2004 £2m elw) o gyd-fentrau bychain eraill. Roedd y colledion o Wasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post i'w disgwyl, ac maent yn ganlyniad i gostau cychwyn, yn bennaf mewn cysylltiad â gwariant ar werthiannau a marchnata. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed newidiadau i berchnogaeth a rheolaeth NDC a Romec, o ganlyniad roeddent yn cael eu cyfrif fel is-gwmnïau o'r 7 Hydref 2004 a'r 22 Rhagfyr 2004 yn ôl eu trefn.

Eitemau eithriadol - Rhannu Mewn Llwyddiant
Gwnaed tâl o £218m eleni (2004 £dim), sy'n cynrychioli costau talu tua £1,074 cyn treth i bob gweithiwr cymwysedig yn y DG, sef y rhai a fu gyda'r Grŵp trwy gydol blwyddyn olaf y Cynllun Adnewyddu, a hyd at y dyddiad pan gyhoeddom ein canlyniadau. Mae hyn yn golygu, o'r elw net o £560m ers cychwyn y Cynllun Adnewyddu, fod 39% wedi ei ad-dalu i'n pobl mewn cydnabyddiaeth o'r ymdrechion sylweddol a wnaed yn ystod y cyfnod anodd a ddeilliodd o'r Cynllun Adnewyddu a'r rhaglenni gweddnewid niferus, gan gynnwys ail-strwythuro Parcelforce Worldwide, Ail-ddyfeisio Rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf, Adolygu Cludiant, Un Dosbarthiad Dyddiol Sengl ac Adolygu Canolfannau Post yn y gweithrediadau llythyrau.

Eitemau eithriadol – arall
Mae eitemau eithriadol net arall o £8m (2004 £dim) yn cynnwys £59m o gostau eithriadol gweithredu (2004 £64m) wedi ei wrthbwyso gan £67m o elw anweithredol. Mae'r olaf yn berthnasol i werthu eiddo £70m (2004 £67m) yn cael ei wrthbwyso gan y golled ar werthu Citipost, £3m (2004 £3m colled yn ymwneud â gwerthiannau busnes - cael ffynhonnell allanol ar gyfer gweithrediadau TG a gwerthiant cysylltiedig CSC Business Systems Limited yn bennaf). Mae'r £59m o gostau eithriadol gweithredu yn ymwneud â chostau diswyddo pellach o £34m i'r Post Brenhinol, £23m ar gyfer amhariad asedion sefydlog a £2m ar gyfer costau gweithredu eraill (2004 £23m ailstrwythuro a £41m ar gyfer amhariad ar asedion sefydlog).

Llog net derbyniadwy
Cynyddodd y llog net derbyniadwy o £17m yn y flwyddyn flaenorol i £18m. Roedd hyn oherwydd cyfraddau llog uwch a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau ariannol ac asedion cyfredol y Grŵp, a wrthbwyswyd gan ostyngiad yn y gweddillion buddsoddi net cyfartalog yn deillio'n bennaf o'r £255m o daliadau diswyddo a wnaed i'n pobl a chostau eithriadol eraill.

Treth
Mae'r cyfrifon yn cynnwys credyd treth o £28m (2004 - £98m tâl) ar gyfer y cyfnod. Y canlynol sydd i gyfrif am hyn: defnyddio'r colledion treth yn Swyddfa'r Post Cyf, trosglwyddo'r elw o werthu eiddo i werth trethiannol eiddo newydd, cwblhau materion y flwyddyn flaenorol gyda'r Cyllid Gwladol a chydnabod ased treth ohiriedig mewn perthynas â'n busnes parseli Ewropeaidd, o ystyried y gwelliant parhaus yn ei berfformiad. Y dreth ar werthu CSC Business Systems Limited a cholledion heb eu lliniaru yn Swyddfa'r Post Cyf oedd i gyfrif yn bennaf am y tâl ar gyfer 2003-04.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Llif arian a gwariant cyfalaf

Crynodeb o'r llif arian	2005 £m	2004 £m
Echlif arian net o weithgareddau gweithredol	**(220)**	(241)
Difidendau a dderbyniwyd o CF a chyfranogion	**19**	21
Gwariant cyfalaf a gwerthiannau	**(124)**	(56)
Treth a llog	**23**	29
Pryniannau a gwerthiannau busnes	**(2)**	25
Echlif arian net	**(304)**	(222)
Cyllid cyfalaf gweithredol Swyddfa'r Post Cyf	**(444)**	(287)
Mewnlif arian cyn cyllid cyfalaf gweithredol Swyddfa'r Post Cyf	**140**	65

Gostyngodd yr echlif arian net o'r gweithgareddau gweithredol o £241m i £220m. Yr elw gweithredol cyn yr eitemau eithriadol o £365m (2004 £51m) a dibrisiad/amorteiddiad o £156m (2004 £195m) yn cael ei wrthbwyso'n llwyr gan y gwariant rhesymoli o £255m (2004 £412m) ac echlif arian cyfalaf gweithredol o £486m (2004 £75m) sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Mae'r symudiad cyfalaf gweithredol yn cael ei yrru'n bennaf gan ddilead disgwyliedig y cynariannu budd-daliadau di-log a weithredai fel ariannu ecwiti gweithredol i Swyddfa'r Post Cyfyngedig, £444m (2004 £287m), ac sy'n cael ei ddisodli gan fenthyciad â llog oddi wrth y Llywodraeth. Daeth y £19m (2004 £21m) o ddifidendau a dderbyniwyd o gyd-fentrau a chyfranogion yn bennaf oddi wrth Quadrant £2m (2004 £7m), Camelot £5m (2004 £7m) a'r busnes Bureau de Change £10m (2004 £5m).

£219m (2004 £158m) o wariant ar gyfer ein projectau effeithiolrwydd strategol, gan gynnwys £26m ar y ganolfan bost ryngwladol ger Heathrow, £21m o wariant pellach ar awtomateiddio'r post, £14m ar fframiau didoli ar gyfer Un Dosbarthiad Dyddiol, £22m ar ddepos newydd GLS a'r gweddill ar gyfer cerbydau modur a gwella eiddo, yn cael ei wrthbwyso gan fewnlif o £95m (2004 £100m), yn bennaf o werthu eiddo nad oedd ei angen mwyach. Mae'r £23m (2004 £29m) o fewnlif llogau a threthi'r flwyddyn, fwy neu lai yn unol â'r llynedd. Mae'r £2m o echlif caffaeliadau a gwerthiannau busnes (2004 £25m mewnlif) yn berthnasol i GLS Group yn prynu'r ddau fusnes Eidalaidd (DGE Firenze a DGE Vincenza). Y llynedd, derbyniodd y Grŵp £25m, mewn perthynas â gwerthu a chael ffynhonnell allanol i weithrediadau TG i gynghrair Prism yn bennaf.

Darpariaethau

Roedd y darpariaethau ar ddiwedd Mawrth 2005 yn £266m yn cynnwys £171m (2004 £479m) yn ymwneud â rhesymoli a £95m (2004 £96m) yn ymwneud â threthi gohiriedig. Defnyddiwyd darpariaethau rhesymoli o £355m yn ystod y flwyddyn (o'r hwn yr oedd £224m yn wariant ariannol) yn bennaf i ariannu diswyddiadau gwirfoddol, yn cael ei wrthbwyso gan gostau taliadau rhesymoli eithriadol newydd o £36m, yn bennaf yn ymwneud â chostau diswyddo pellach yn y gweithrediadau llythyrau, a darpariaethau newydd an-eithriadol o £11m yn ymwneud ag eiddo.

Pobl

Mae rheolaeth effeithiol o'n pobl a'u costau yn parhau'n gonglfaen allweddol o'r Cynllun Adnewyddu tair blynedd, a bydd llwyddiant neu fethiant yn y maes hwn yn penderfynu a all y Grŵp barhau'n fusnes proffidiol a chynaliadwy i'r dyfodol rhagweladwy. Mae'r siart isod yn nodi'r gostyngiad mewn niferoedd ers Ebrill 2002 gan y busnesau meddiant llwyr yn y DG.

Gostyngiad cyffredinol yn y Cynllun Adnewyddu o 33,000 o bobl



Yn y cyfnod cymerodd 8,617 o'n pobl y cyfle i gael diswyddiad wirfoddol wrth i ni gwblhau gweithredu'r rhaglenni canlynol:

- Llythyrau'r Post Brenhinol – Un Dosbarthiad Dyddiol ac Adolygu Canolfannau Post;
- Logisteg y Post Brenhinol a Llythyrau'r Post Brenhinol - Adolygu Cludiant;
- Parhad prosiect ail-strwythuro Parcelforce Worldwide; a
- Canolfan y Grŵp a meysydd argostau eraill ein busnes - rhaglen diswyddiad gwirfoddol y rheolwyr.

Gwrthbwyswyd hyn gan 2,725 net yn ymuno, a oedd yn deillio o leihau'r gymysgedd o staff asiantaeth o fewn gweithrediad llythyrau'r rheng flaen a chynyddu nifer y gweithwyr llawn-amser. Ceir cysoniad o gyfrif pennau'r Grŵp yn nodyn 2 i'r cyfrifon.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Rheoli'r trysorlys

Mae'r Grŵp yn rhedeg swyddogaeth Trysorlys canolog sy'n rheoli tua £1.1bn o fuddsoddiadau asedion cyfredol, £860m o fenthyciadau a £890m o arian yn Swyddfa'r Post® yn bennaf, yn unol â'r cyfyngiadau buddsoddi a bennwyd gan y Llywodraeth. Mae hefyd yn gweithredu fel bancwr mewnol ar gyfer unedau busnes y Grŵp. Trwy gyfrwng elw a benthyciadau a gedwir y mae'r Grŵp yn ariannu ei weithrediadau yn bennaf.

Mae Trysorlys y Grŵp yn cael ei awdurdod gan Fwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc, ac mae'n darparu adroddiadau monitro chwarterol ar gyfer eu harolwg. Awdurdod i ymgymryd â thrafodaethau ariannol sy'n ymwneud â rheoli risgiau busnes sylfaenol yn unig sydd gan swyddogaeth Trysorlys, nid yw'n ymgymryd â thrafodaethau hapfasnachol ac nid yw'n gweithredu fel canolfan elw. Mae'r holl strategaethau'n wrth-risg, ac mae polisi'r trysorlys wedi aros yn ddigyfnewid trwy gydol y flwyddyn. Y prif offerynnau ariannol ar gyfer rheoli hylifedd ariannol yw sbotio a chyfnewid arian treigl, ernesau, giltiau, benthyciadau hir a byr dymor, ac ar gyfer diogelu nwyddau ac arian treigl ceir sbot-bwrcasu, cyfnewidiadau a chontractau opsiwn.

Ariennir y Grŵp o'r cyfleusterau canlynol a ddarperir gan yr Adran Diwydiant a Masnach a Thrysorlys EM:

Benthyciwr	Diben	Dyddiad diweddu'r cyfleuster	Cyfleuster £m	Defnyddiwyd £m	Dyddiad cyfartalog aeddfedu'r benthyciad
Grwp y Post Brenhinol ccc	Ariannu pryniannau	2021-2025	500	500	2023
Grwp y Post Brenhinol ccc	Ail-strwythuro a chyfalaf gweithredol	2007-2009	844	Dim	-
Swyddfa'r Post Cyf.	Arian rhwydwaith ad-daladwy ar gais	2010	1,150	360	2005

Mae telerau cyfleusterau benthyca'r Llywodraeth a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig yn gosod cyfyngiadau llym ar wahanu'r cronfeydd ariannol o fewn Grŵp y Post Brenhinol ac i ba bwrpasau y gellir eu defnyddio. Mae'r cyfleusterau benthyca ymrwymedig sy'n berthnasol i Grŵp y Post Brenhinol ccc a Swyddfa'r Post Cyf, ynghyd â buddsoddiadau arian net a ddelir ar y fantolen, yn sicrhau y gall y Grŵp ariannu ei weithrediadau i'r dyfodol rhagweladwy.

Y prif risgiau trysorlys sy'n deillio o weithgareddau'r Grŵp yw arian treigl, gwrthbarti, nwyddau (tanwydd) a risg hylifedd. Rheolir y rhain fel a ganlyn:

- Mae'r Grŵp yn agored i risg arian tramor oherwydd ymrwymiad Post Brenhinol Rhyngwladol i dalu gweithredwyr post tramor am gludo post y DG dramor, a'r gweddillion a ddelir i weithredu gwasanaethau'r Bureau de Change o fewn Swyddfa'r Post Cyf. Caiff y risgiau hyn eu lliniaru gan raglen ddiogelu a reolir gan Drysorlys y Grŵp. Lle y bo modd, caiff y risgiau eu netio'n fewnol ac mae unrhyw risg bellach yn cael ei diogelu trwy ddefnyddio cyfuniad o gontractau sbot allanol ac at ymlaen. Caiff yr holl ymrwymiadau arwyddocaol eraill eu diogelu pan ddônt yn gytundebol;
- Mae ymrwymiad y Grŵp i dalu gweithredwyr post tramor yn cael ei enwi mewn Hawliau Tynnu Arbennig (SDRs) - basged arian yn cynnwys DUD, JPY, Sterling a'r Ewro. Mae gan y Grŵp bolisi o gyfateb derbynebion a thaliadau ar gyfer arian treigl unigol lle mae modd, ac yna diogelir unrhyw risg net berthnasol. Y polisi yw bod hyd at 80% o'r risg net a ragwelir yn cael ei diogelu gyda chytundeb yr uned fusnes fewnol. Mae Trysorlys y Grŵp yn rhedeg rhaglen dreigl 18 mis, a adolygir bob chwarter wedyn;
- Caiff gweddillion daliadau arian treigl ynghyd ag arian mân sy'n dangos symudiad cydberthnasol agos ar gyfer busnes y Bureau de Change eu diogelu, ynghyd â mân arian treigl sy'n dangos symudiad cydberthnasol agos;
- Nid yw'r Grŵp yn diogelu'r risg trosi a grëir gan asesiad net ei is-gwmnïau tramor;
- Mae'r Grŵp yn agored i risg tanwydd gan ei fod yn gweithredu un o'r fflydoedd cerbydau mwyaf yn Ewrop, sy'n defnyddio dros 150 miliwn litr o danwydd y flwyddyn a risg tanwydd awyrennau o brynu gwasanaethau cludo awyr. Amcan strategaeth rheoli risg tanwydd y Grŵp yw lleihau'r ansicrwydd a grëir gan y symudiadau yn y marchnadoedd olew ac arian tramor. Mae'r strategaeth yn gweithredu o fewn y paramedrau a bennwyd gan y Bwrdd sy'n caniatáu defnyddio cynhyrchion deilliadol dros y cownter i reoli'r risgiau hyn, a
- Rheolir risg gwrth-barti trwy gyfyngu risg gyfunol i unrhyw wrth-barti unigol, ar sail eu cryfder ariannol.

Caiff y risgiau hyn eu hadolygu'n rheolaidd, a'u haddasu fel y bo'n briodol.

Rheolaeth

Ers Ebrill 2004 mae'r Post Brenhinol wedi parhau i drafod gyda Postcomm ei symudiad arfaethedig o brisiau sy'n seiliedig ar bwysau i rai sy'n seiliedig ar faint. Cyhoeddodd Postcomm yn Ebrill 2005 ei fod yn ystyried derbyn cynigion y Post Brenhinol, yn amodol ar ymgynghoriad terfynol. Os cymeradwyir y rhain, caiff y prisiau newydd eu cyflwyno o Ebrill 2006.

Ym mis Mehefin 2004 cyhoeddodd Postcomm ei Ddogfen Benderfyniad ar y gwasanaethau, sydd i'w dosbarthu fel gwasanaethau post cyffredinol. Cynigia Postcomm y dylai gwasanaethau Dosbarth 1af ac 2il Ddosbarth hyd at 2 kg fod yn gyffredinol. Mae'r penderfyniad hwn yn gofyn am gynnydd yn ystod pwysau gwasanaethau 2il Ddosbarth a gynigir o 750 gram hyd at 2 kg. Mae'r cwestiwn o ba wasanaethau post swmpus, y dylid eu cyfrif fel rhai cyffredinol, yn parhau'n agored a disgwylir penderfyniad ar hyn yn ystod 2005-06.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Ym Medi 2004, cyhoeddodd Postcomm dair dogfen ymgynghorol arall:

- Cynigion ar gyfer amserlen ddiwygiedig ar gyfer agor y farchnad: Cynigiodd Postcomm ddod â dyddiad ar gyfer rhyddfrydoli'n llawn ymlaen o Ebrill 2007 i Ionawr 2006 heb unrhyw gamau canolraddol pellach. Cadarnhawyd y penderfyniad yn Chwefror 2005 a bydd marchnad bost y DG yn gwbl gystadleuol o Ionawr 2006
- Arolwg Marchnad Gystadleuol: Gan nad oes cymaint o gystadleuaeth ag a ddisgwyliwyd, mae Postcomm yn cynnig mesurau i annog cystadleuaeth bellach gan gynnwys dod â threfniadau mynediad o fewn y rheolaeth brisio nesaf, gan lobio i'r Post Brenhinol fod yn atebol i dalu TAW, cynyddu adnoddau Postcomm ar gyfer delio ag ymddygiad gwrth-gystadleuol posibl gan y Post Brenhinol, a chynyddu ymwybyddiaeth cwsmeriaid am ryddfrydoli. Ym Mawrth 2005, cyhoeddodd Postcomm Ddogfen Benderfyniad a oedd yn cynnwys argymhelliad bod angen datrys mater TAW ac mae'n ystyried y dylid gosod TAW o 5% ar wasanaethau post fel ateb posibl. Argymhellir hefyd y dylid dileu nifer o freintiau a roddir i'r Post Brenhinol fel darparydd cyffredinol ac na ddylid ymestyn y breintiau hyn bellach i Parcelforce Worldwide
- Arolwg Prisiau ac Ansawdd Gwasanaeth 2006: Mae Postcomm bellach yn ymgynghori ar y rheolaeth brisiau nesaf i weithredu o Ebrill 2006, gyda 'Chynigion Cychwynnol' i ddod ym Mai 2005 a Chynigion Terfynol yn ystod hydref 2005.

Mynediad gwaeredol
Mae'r Grŵp wedi gweld cynnydd arwyddocaol mewn swmp mynediad gwaeredol, ac arwyddwyd y cytundebau cyntaf yn Chwefror ac Ebrill 2004 a thriniwyd dros 100 miliwn o eitemau gan ein Huned Mynediad yn 2004-05. Yn ychwanegol at fynediad trwy gyfrwng gweithredwyr post eraill megis UK Mail Ltd, TPG Post UK Ltd a Deutsche Post Global Mail (UK) Limited, mae'r Grŵp hefyd yn derbyn post mynediad gan Regional Mail Services Ltd ac yn uniongyrchol gan un o'i brif gwsmeriaid. Disgwylir i brif gwsmeriaid eraill gyrchu cyfleusterau post y Post Brenhinol yn uniongyrchol y flwyddyn nesaf.

Cronfeydd arbennig
Yn ystod y cyfnod, defnyddiwyd £151m o Gronfa'r Rhwydwaith Gwledig gan Swyddfa'r Post Cyf, yn cynrychioli'r arian a oedd ei angen yn y cyfnod i gynnal rhwydwaith canghennau gwledig Swyddfa'r Post ®.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)
Mae'r Post Brenhinol yn paratoi ei ddatganiadau ariannol dan Egwyddorion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DG (UK GAAP). O'r cyfnod yn cychwyn 28ain Mawrth, 2005 bydd Grŵp y Post Brenhinol yn paratoi ei ddatganiadau ariannol cyfun yn unol â'r Safnau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (UE). Ffigyrau interim ar gyfer yr hanner blwyddyn i Fedi 2005 fydd canlyniadau IFRS cyntaf y Post Brenhinol.

Mae tîm prosiect sefydledig y Cwmni yn parhau i reoli'r newid i IFRS ac mae'r tîm hwn yn gweithio'n agos gyda'n harchwilwyr allanol. Mae'r Grŵp yn parhau i wneud cynnydd da tuag at newid i IFRS a bydd yn ailddatgan datganiadau ariannol Mawrth 2005 dan IFRS ar sail yr IFRS y rhagwelir y byddant yn eu lle ar gyfer y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2006. Bydd datganiadau'r cyfrif elw a cholled, mantolen a llif arian o'r datganiadau ariannol diwygiedig hyn yna'n destun archwiliad allanol a rhagwelir y caiff hyn ei gwblhau erbyn Medi 2005.

Mae'r IFRS hyn yn destun arolwg parhaus, cymeradwyaeth gan UE a dehongliadau gan yr International Financial Reporting Interpretations Committee (IFRIC). Ers pan gwblhawyd y safonau craidd ym Mawrth 2004, bu nifer o newidiadau pellach:

- Mae'r IASB wedi cyhoeddi newid i IAS 19 ar Fudd-daliadau Gweithwyr yn caniatáu cyfrif am enillion a cholledion actiwarial trwy gyfrwng Datganiad o Incwm a Gwariant Cydnabyddedig (SORIE). Mae hyn yn dilyn yn agos yr agwedd yn safon FRS 17 y DG ar fudd-daliadau Ymddeol.
- Mae'r UE wedi cymeradwyo fersiwn diwygiedig o IAS 39 ar Offerynnau Ariannol a elwir y fersiwn 'carve out'.
- Nifer o ddehongliadau a newidiadau eraill nad ydynt mor berthnasol i'r Post Brenhinol.

Mae'n bosibl y bydd newidiadau pellach i IFRS cyn i'r Post Brenhinol gyhoeddi ei ddatganiadau ariannol cyntaf ym Mawrth 2006 a bydd y Cwmni yn trin y rhain wrth iddynt godi a'u gweithredu pan fydd hynny'n briodol.

Mae mabwysiad cynaf yr IFRS yn unol ag IFRS 1. Mae IFRS i'w fabwysiadu ar sail ôl-weithredol ond mae nifer o eithriadau dan IFRS 1, y mae'r Post Brenhinol yn debygol o'u mabwysiadu. Caiff y rhain eu trafod yn y datganiadau ariannol IFRS cyntaf i'w cyhoeddi.

Y canlynol yw'r safonau rhyngwladol sy'n fwyaf tebygol o gael effaith ar y Post Brenhinol:

IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol. Mae'r safon hon yn rhoi cyfarwyddyd ar yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y datganiadau ariannol er nad oes fformat penodol ar gyfer y datganiad incwm a'r fantolen dan IFRS. Bydd y Post Brenhinol yn dilyn arweiniad y safon wrth gadw'r fformat y mae wedi ei ddatblygu dros y blynyddoedd, i'r graddau y mae'n briodol. Bydd y datganiad llif arian yn unol â safon ryngwladol IAS 7.

IAS 19 Buddion gweithwyr. Dan y safon hon caiff diffygion pensiwn y Post Brenhinol eu cydnabod yn y fantolen ac ni fydd y rhagdaliad pensiwn presennol yn cael ei gydnabod mwyach. Mae cydnabod a mesur dan IAS19 yn debyg i safon y DG (FRS 17) a oedd i'w gyflwyno fan hwyraf ar gyfer blynyddoedd cyfrifo yn cychwyn ar ôl 1 Ionawr 2005. Bydd enillion a cholledion actiwarial yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn SORIE.

IAS 12 Trethi Incwm. Rhagwelir mai sut mae trethi gohiriedig yn cael eu mesur a'u cydnabod ar gyfer diffygion pensiwn a gydnabyddir dan IAS 19 fydd prif effaith y safon hon.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Dadansoddiad adrannol – trosiant a phroffidioldeb

Mae i'r dadansoddiad adrannol yn nodyn 1 i'r cyfrifon ddwy brif adran: Post a Pharseli sydd yn cynnwys y Post Brenhinol, Parcelforce Worldwide a General Logistics Systems a (ii) Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Mae'r dadansoddiad isod yn nodi'r canlyniadau masnachu, sy'n canolbwyntio ar:

- unedau busnes gweithredol yn hytrach na'r adrannau statudol, a
- throsiant ac elw allanol o weithrediadau (yr olaf yn gadael allan y taliadau mewn perthynas â diffygion pensiwn ac eitemau eithriadol ond yn cynnwys cyfran elw o gyd-fentrau/ cyfranogion a chodi llogau mewnol am adnoddau ariannu a reolir yn ganolog).

At hyn, mae cymariaethau isod wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu'r newidiadau yn y modd y codir llog am adnoddau a reolir yn ganolog a mân newidiadau mewn strwythurau trefniadol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn.

Mae trosiant allanol y Grŵp o £8,956m (2004 £8,633m) ac elw o weithrediadau o £537m (2004 £220m) yn cynnwys y canlynol:

	Trosiant allanol		Elw/(colled) o'r gweithrediadau	
Perfformiad unedau busnes	**2005 £m**	2004 £m	**2005 £m**	2004 £m
Y Post Brenhinol	**6,763**	6,552	**591**	346
Swyddfa'r Post Cyf.	**976**	977	**(110)**	(103)
General Logistics Systems	**913**	818	**61**	25
Parcelforce Worldwide	**298**	282	**(13)**	(54)
Busnesau eraill	**6**	4	**8**	6
Grŵp	**8,956**	8,633	**537**	220

Dangosir dadansoddiad pellach, ar sail uned-wrth-uned, isod:

Y Post Brenhinol	**2005 £m**	2004 £m
Trosiant allanol	**6,763**	6,552
Elw o'r gweithrediadau	**591**	346

Bu cynnydd o £211m (3.2%) i £6,763m yn y trosiant allanol o ganlyniad i gynnydd o 1.3% mewn prisiau yn Ebrill 2004, cynnydd sylfaenol o tua 1.4% mewn swmp, gyda gweddill y twf yn deillio o effeithiau cymysg ffafriol. Mae'r cynnydd mewn prisiau ar draws y rhan fwyaf o'r cynhyrchion fel a ganiateir gan y rheolaeth brisio bresennol, sy'n caniatáu i'r Post Brenhinol gynyddu eu prisiau yn ôl RPI-1%. Mae'r twf mewn swmp, ac eithrio cynhyrchion Rhyngwladol a Drws i Ddrws o 1.4%, o 19.9 biliwn i dros 20.2 biliwn o eitemau yn bennaf yn cael ei yrru gan gynhyrchion Mailsort, Special Delivery a Walksort.

Mae'r cynnydd mewn elw o weithrediadau o £245m (70.8%) yn cael ei yrru'n bennaf gan y twf mewn trosiant a nodwyd uchod a'r gostyngiad yn yr argostau oherwydd bod y costau sy'n berthnasol i'r codiad cyflog wedi'u gwrthbwyso'n llwyr gan effeithiolrwydd yn ymwneud â'r rhaglenni newid craidd a gostyngiad yn y costau gweinyddiaeth a chyfleusterau.

Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**2005 £m**	2004 £m
Trosiant allanol	**976**	977
Colled o'r gweithrediadau	**(110)**	(103)

Mae Swyddfa'r Post Cyf yn rhedeg rhwydwaith o 14,609 allanfa adwerthu.

Bu gostyngiad o £1m (0.1%) yn y trosiant gan na dderbyniwyd cymaint o refeniw taliadau budd-dal oherwydd y newid i dalu budd-daliadau'n uniongyrchol, ond gwrthbwyswyd hynny gan dwf pellach mewn refeniw bancio a chynhyrchion eraill megis E-lenwi ffonau symudol. Mae cynhyrchion newydd megis stamp cynilo Swyddfa'r Post® wedi eu cyflwyno, ac yn ystod y flwyddyn, cafodd benthyciadau personol, yswiriant car, yswiriant cartref a Homephone eu lansio'n llwyddiannus hefyd.

Bu cynnydd o £7m (6.8%) yn y colledion o weithrediadau, yn bennaf oherwydd taliadau budd-dal is a chyfran o golledion o lansio cynhyrchion gwasanaethau ariannol newydd o £18m. Gwrthbwyswyd hynny gan yr enillion mewn refeniw newydd ynghyd â ffocws rheoli parhaus ar leihau costau. Mae'r Rhaglen Ail-Ddyfeisio'r Rhwydwaith wedi cynhyrchu arbediadau effeithiolrwydd o £39m, tra bo gostyngiad o £6m yn y cyflogau staff o ganlyniad i'r ymgyrch barhaus i leihau'r costau canolog. Mae'r gostyngiadau cost hyn wedi eu gwrthbwyso gan gostau uwch swyddfa gefn y cynnyrch Cyfrif Cerdyn.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

General Logistics Systems	2005 £m	2004 £m
Trosiant allanol	**913**	818
Elw o'r gweithrediadau	**61**	25

Bu cynnydd o £95m (11.6%) yn y trosiant allanol, gan gynnwys £8m o effaith bositif o ganlyniad i gryfhau'r ewro. Mae'r twf sylfaenol o £87m (10.6%) yn deillio o dwf cryf yn swmp parsel craidd, yn enwedig yng Nghanol Ewrop, caffaeliadau franchisee Eidalaidd newydd a chyfnerthiad GLS Poland. Bu cynnydd o £36m (144.0%) yn elw'r gweithrediadau, o £25m y llynedd i £61m eleni, yn cael ei yrru gan gyfuniad o drosiant uwch, rheoli'r costau'n llym a gwell cynhyrchedd gweithredol yn gyffredinol, y cyfan yn cael ei adlewyrchu mewn maint elw uwch.

Parcelforce Worldwide	2005 £m	2004 £m
Trosiant allanol	**298**	282
Colled o'r gweithrediadau	**(13)**	(54)

Bu cynnydd o £16m (5.7%) wrth i Parcelforce Worldwide ddechrau gweld manteision ei gyfeiriad masnachol newydd.

Mae'r ail-strwythuro gweithredol yn parhau i ganolbwyntio ar wella effeithiolrwydd a lleihau costau yn y rhwydwaith. Er bo'r costau gweithredol wedi gwella, roedd y cynnydd o ran y newidiadau a gynlluniwyd yn arafach nag a ragwelwyd, yn adlewyrchu trafodaethau maith - ond llwyddiannus yn y pen draw - gyda CWU ynglŷn â chyfnod olaf ail-strwythuro depos. Mae'r gwelliannau cryf mewn costau pobl, cerbydau a logisteg wedi eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn taliadau trawsgludiad allforio. Er i'r gweithrediadau wneud £13m o golled mae hynny yn £41m (75.9%) yn well na'r llynedd. Mae'r ffaith bod Parcelforce Worlwide wedi gwneud elw o £3m o'i weithrediadau yn ail hanner y flwyddyn yn bwysig.

Busnesau eraill	2005 £m	2004 £m
Trosiant allanol	**6**	4
Elw o'r gweithrediadau	**8**	6

Llog mewnol a chyfran y Grŵp o elw cyfranogion a ddelir yn ganolog yw prif fusnesau eraill y Grŵp. Yn ystod y flwyddyn, mae dau - Romec ac NDC – wedi dod yn is-gwmnïau, sef y prif reswm am y cynnydd mewn proffidioldeb. Mae canlyniadau'r cyfranogion a'r cyd-fentrau eraill na ddelir yn ganolog (Bureau de Change a gwasanaethau ariannol) wedi'u cynnwys gyda chanlyniadau Swyddfa'r Post Cyf.

Y Ffordd Ymlaen

Cwblhawyd y Cynllun Adnewyddu ac mae ein hamcan ariannol o droi'r busnes o un a oedd yn colli £318m yn 2001-02 i un sy'n gwneud elw o £537m yn 2004-05, sef cylchdro o £855m, wedi ei gyflawni – llawer gwell na'r elw targed, sef £400m. At hyn, mae'r Grŵp wedi cynhyrchu £140m o arian – ac eithrio gofynion cyfalaf gweithredol Swyddfa'r Post sy'n dwyn llog, sy'n cymryd lle'r rhag-gyllid di-log y budd-daliadau, ond yn cynnwys £255m (2003-4 £412m) mewn perthynas â chostau rhesymoli, yn bennaf o ganlyniad i raglenni diswyddiadau gwirfoddol y Cynllun Adnewyddu.

Mae ein rhaglenni strategol craidd a rhaglenni eraill ar gyfer torri costau wedi cyflawni dros £1.5bn o arbedion gros, sef 7% yn fwy na'r targed effeithlonrwydd gwreiddiol a osodwyd ar ddechrau'r Cynllun Adnewyddu o £1.4bn, a ailfuddsoddwyd yn ein cwsmeriaid, gan gynnwys gwella ansawdd gwasanateh, ac yn ein pobl. Mae hyn yn rhoi llwyfan proffidioldeb ariannol cadarn er mwyn gwella'r elw i'n Cyfranddaliwr ac i gystadlu'n llwyddiannus gyda dyfodiad cystadleuaeth bellach yn ein marchnad llythyrau domestig.

Yn ystod y Cynllun Adnewyddu, mae'r Grŵp wedi mynd i dros £900m o gostau ariannu rhesymoli, £270m o gostau ariannu diffygion pensiwn, tua £660m ar gyfer ariannu rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf a thua £450m i gefnogi'r Rhwydwaith Gwledig. Mae'r rhain wedi eu hariannu'n bennaf gan arian a gynhyrchwyd yn fewnol gyda £360m yn unig o'r £1,150m o gyfleusterau ymrwymedig Swyddfa'r Post Cyf oddi wrth y Llywodraeth yn cael ei ddefnyddio yn lle'r rhag-gyllid ar gyfer y rhwydwaith - nid yw cyfleuster benthyg Cynllun Adnewyddu Grŵp y Post Brenhinol ccc wedi ei ddefnyddio o gwbl. Fodd bynnag, o hyn ymlaen ni ellir disgwyl i Swyddfa'r Post Cyf amsugno'r £150m o gostau sy'n berthnasol i gefnogi rhan aneconomaidd ei Rwydwaith Gwledig ac ni ellir disgwyl i'r Grŵp gario'r £2.5bn o ddiffygion pensiwn a'r effaith gyfrifyddu gysylltiedig o £3.95bn ar ei fantolen yn sgîl sefydlu safonau cyfrifyddu newydd heb gefnogaeth pob un o'n cyfranogwyr.

Nid yw cwblhau'r Cynllun Adnewyddu ond y cam cyntaf tuag at ein trawsffurfio ein hunain yn Grŵp lle y mae pob un o'n busnesau'n wirioneddol fasnachol ac yn canolbwyntio ar y farchnad, gan gynhyrchu elw ac arian i hwyluso buddsoddiad pellach yn ein pobl a'u cronfeydd pensiwn, mewn technoleg a chynigion gwasanaeth i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid ac sydd yn cynhyrchu'r elw a fynnir gan ein Cyfranddalwr. Mae parhau i wella ein heffeithiolrwydd a chael rheolaeth brisiau foddhaol sy'n caniatáu i'r Post Brenhinol newid ei brisiau i adlewyrchu ei gostau'n well ac sydd hefyd yn rhoi ateb tymor canolig i'r diffyg yn y gronfa bensiwn, yn allweddol i gyflawni hyn.

Marisa Cassoni

Cyfarwyddwr Ariannol y Grŵp

16 Mai 2005

Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyfarwyddwyr Anweithredol

ALLAN LEIGHTON (CADEIRYDD)
Ymunodd Allan (52) â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2001 fel Cyfarwyddwr Anweithredol gan ddod yn Gadeirydd ym mis Mawrth 2002. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Swyddfa'r Post Cyf., ac yn aelod o'r Pwyllgor Enwebu a Bwrdd Goruchwylio GLS. Dechreuodd ei yrfa gyda Mars Confectionery a symudodd i Pedigree Petfoods fel Cyfarwyddwr Gwerthiannau. Ym 1992 daeth yn Gyfarwyddwr Marchnata Grŵp Archfarchnadoedd Asda Cyf, ac yn Brif Weithredwr ym 1996, gan ddod yn Llywydd ac yn PSG Wal-Mart Ewrop pan brynwyd Asda gan Wal-Mart ym 1999. Gadawodd yn 2000 ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd BHS Cyfyngedig, yn Gyfarwyddwr Anweithredol BSkyB, Daliadau Selfridges Cyfyngedig a Busnes yn y Gymuned. Bu'n Gadeirydd Anweithredol Clwb Iechyd Cannons tan 30 Medi 2004. Roedd yn Gadeirydd Lastminute.com tan 1 Ionawr 2005, ac roedd yn Gyfarwyddwr Anweithredol Dyson Cyf tan 20 Rhagfyr 2004.

DAVID FISH
Ymunodd David (56) â'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003. Mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac yn aelod o'r Pwyllgor Enwebu. Roedd yn aelod o Fwrdd Gweithredu Mars Inc o 1994 i 2001, ac yn Gyd-Lywydd Masterfoods Ewrop. Mae wedi bod yn Llywydd Snackfoods Ewrop hefyd, ac wedi bod mewn swyddi marchnata a phersonél fel Is-Lywydd Ewropeaidd. Ef yw Cadeirydd Grŵp United Biscuits (Buddsoddiadau) Cyfyngedig a Chadeirydd Christian Salvesen.

RICHARD HANDOVER
Penodwyd Richard (59) i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Enwebu, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau. Mae'n Gadeirydd yr Arolygaeth Addysg i Oedolion ac Arweinyddiaeth Addysg Busnes yn y Gymuned ac mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu Nationwide. Roedd yn Gadeirydd WH Smith ccc tan 31 Ionawr 2005.

SYR MICHAEL HODGKINSON

Penodwyd Mike (61) i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003. Ef yw'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau. Ym Mai 2003, cafodd ei benodi'n Gadeirydd Swyddfa'r Post Cyf. ac mae hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheolaeth Corfforaethol a Chyfrifoldebau Cymdeithasol. Roedd yn Brif Weithredwr BAA ccc tan ei ymddeoliad ym mis Mehefin 2003. Mae'n Aelod o'r Bwrdd ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cyllid London Transport a Chyfarwyddwr Anweithredol FKI ccc a'r Bank of Ireland cyfyngedig, a Chadeirydd anweithredol cwmni gwyliau First Choice ccc.

JOHN NEILL CBE
Penodwyd John (57) i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae wedi bod yn Brif Weithredwr y Grŵp ac yn Ddirprwy Gadeirydd Grŵp Unipart o gwmnïau ers 1987. Mae'n Gyn-Gyfarwyddwr Llys Banc Lloegr ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol Charter ccc. Mae hefyd yn Is-Lywydd Cymdeithas Cynhyrchwyr a Masnachwyr Moduron ac yn Gyfarwyddwr Fforwm Diwydiant SMMT, Busnes yn y Gymuned a Vestcave Cyfyngedig.

Y FARWNES MARGARET PROSSER
Ymunodd Margaret (67) â'r Bwrdd ar 1 Tachwedd 2004, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'n aelod o Dai'r Arglwyddi ers 2004. Mae'n Gyfarwyddwraig Anweithredol Rheolwyr Cronfeydd Undebau Llafur ac mae wedi bod yn Gadeirydd Comisiwn Gwragedd a Gwaith ers Gorffennaf 2004. Mae hefyd yn aelod o'r comisiwn Tâl Isel ac yn Gadeirydd Comisiwn Cenedlaethol i Wragedd.

BOB WIGLEY
Ymunodd Bob (44) â'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2003, ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'n Gadeirydd busnes Merrill Lynch yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac yn Affrica ac yn Ymddiriedolwr yr elusen symudedd i blant, Whizz-Kidz ac yn un o gyfarwyddwyr Busnes yn y Gymuned.

Cyfarwyddwyr Gweithredol

ADAM CROZIER (PRIF WEITHREDWR)
Ymunodd Adam (41) â'r Cwmni ar 1 Chwefror 2003. Ef yw Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, Bwrdd Goruchwylio Parcelforce a'r Bwrdd Llythyrau. Cyn hynny roedd yn Brif Weithredwr y Gymdeithas Bêl-droed ers 2000. Cyn hynny roedd wedi gweithredu mewn nifer o uwch swyddogaethau Hysbysebu Saatchi a Saatchi, yn ogystal â bod yn Brif Weithredwr ar y Cyd o 1995.

DAVID MILLS (PRIF WEITHREDWR, SWYDDFA'R POST CYFYNGEDIG)
Ymunodd David (61) â'r Cwmni fel Cyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyf. ar 15 Ebrill 2002. Mae hefyd yn aelod o'r Bwrdd Rheoli. Dechreuodd ei yrfa gyda Banc Midland (Banc HSBC ccc bellach) yn 1962, lle lluniodd a sefydlodd First Direct. Ym mis Rhagfyr 1999, penodwyd ef yn Rheolwr Cyffredinol Bancio Personol. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post a Fforwm y Cyflogwyr ar Anabledd, yn Gyfarwyddwr Camelot ccc, ac yn Ymddiriedolwr y Gymdeithas Frenhinol dros Anabledd ac Adsefydlu (*RADAR*).

MARISA CASSONI (CYFARWYDDWR Y GRŴP CYLLID)
Ymunodd Marisa (53) â'r Cwmni ar 1 Chwefror 2001 ac mae'n aelod o'r Bwrdd Rheoli, ac yn Gadeirydd y pwyllgor Pensiynau, yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Risg, yn Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol, ac yn aelod o'r Bwrdd Goruchwylio GLS a Bwrdd Goruchwylio Parcelforce. Cyn hynny roedd hi gyda Britannic Assurance ccc, lle y bu'n Gyfarwyddwr Ariannol y Grŵp o 1998. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Cyllid Adran y DG o Prudential ers 1994. Daeth yn Gyfarwyddwr Anweithredol Severn Trent ccc ym mis Medi 2001.

TONY McCARTHY (CYFARWYDDWR DATBLYGIAD POBL A THREFNIADAETH YGRŴP)
Ymunodd Tony (49) â'r Cwmni ar 6 Ionawr 2003 ac mae'n aelod o'r Bwrdd Rheoli, y Pwyllgor Pensiynau a'r Pwyllgor Rheolaeth Corfforaethol a Chyfrifoldebau Cymdeithasol. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Grŵp Adnoddau Dynol Systemau BAE, lle bu'n gweithio mewn amrywiaeth o swyddi AD ers 1978.

DAVID BURDEN (PRIF SWYDDOG GWYBODAETH Y GRŴP)
Ymunodd David (58) â'r Cwmni ar 1 Tachwedd 2002 ac fe gafodd ei benodi i'r Bwrdd ar 1 Gorffennaf 2004. Mae'n aelod o'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Rheoli Risg. Cyn hynny roedd yn Rheolwr Gweithredol Cyffredinol, Technoleg a Gwasanaethau yn Qantas Airways Cyf. Ef oedd yn arwain ar ddatblygu portffolio isadeiledd TG a chymwysiadau integredig ac roedd yn aelod o'r pwyllgor Gweithredol yn ystod y newid i ddod yn gwmni cyhoeddus llwyddiannus.

Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc (parhad)

JONATHAN EVANS (YSGRIFENNYDD Y CWMNI)
Ymunodd Jonathan (53) â'r Cwmni yn syth o brifysgol ym 1974. Mae'n aelod o'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Pensiynau, yn Ysgrifennydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Taliadau ac Enwebu, ac yn Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol. Cyn iddo gael ei benodi fel Ysgrifennydd y Cwmni ym 1999, roedd ganddo amrediad eang o swyddi rheoli ar draws y Grŵp.

Cyn-Gyfarwyddwr a ymddiswyddodd yn ystod y flwyddyn

ELMAR TOIME (DIRPRWY GADEIRYDD GWEITHREDOL) - ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 16 Tachwedd 2004.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno Cyfrifon y Grŵp ar gyfer Daliadau'r Post Brenhinol ccc. Mae'r cyfrifon hyn yn berthnasol i'r 52 wythnos a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 (2004 52 wythnos a ddaeth i ben 28 Mawrth 2004).

Prif weithgareddau
Mae'r Grŵp yn darparu gwasanaeth dosbarthu rhyngwladol a chenedlaethol, ar gyfer llythyrau a pharseli yn bennaf. Mae'r Grŵp hefyd yn rhoi mynediad i amrediad helaeth o wasanaethau ariannol ac adwerthu drwy ei rwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post® ar draws y Deyrnas Unedig.

Adolygiad o'r busnes a datblygiadau pellach
Cyflwynir adolygiad o fusnes a datblygiadau'r Grŵp yn y dyfodol yn Natganiad y Cadeirydd, Datganiad y Prif Weithredwr, yr Adolygiad Blynyddol a'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol.

Canlyniadau a difidendau
£207m (2004 £105m) oedd cyfanswm elw'r gweithgareddau arferol cyn treth. £235m (2004 £7m) oedd yr elw ar ôl treth. Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymell difidend (2004 dim difidend).

Cyfraniadau gwleidyddol ac elusennol
Yn ystod y flwyddyn cyfrannodd y Grŵp £2m at elusennau (2004 £0.6m). Ni wnaethpwyd unrhyw gyfraniad gwleidyddol (2004 £dim).

Ymchwil a datblygiad
Gwariwyd £1m (2004 £3m) ar ymchwil a datblygiad yn ystod y flwyddyn.

Polisi ar dalu cyflenwyr
Defnyddio eu pŵer prynu yn deg yw polisi'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredol. Cytunir ar y telerau talu o flaen llaw ar gyfer pob cytundeb mawr. Gweithredir telerau talu safonol y cyflenwr ar gyfer unrhyw drafodion busnes sy'n llai o werth. Cydymffurfio â'r telerau cytunedig yw polisi'r Cwmni. Mae'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredol yn y DG wedi ceisio cydymffurfio â Chod Ymarfer Gwell Taliadau'r DTI. Gellir cael copïau ohono oddi wrth y DTI. Gan mai Cwmni anweithredol yw'r Cwmni, sero yw'r dyddiau credydwyr. Gellir gweld dyddiau credydwyr yr is-gwmnïau gweithredol yn eu cyfrifon.

Tir ac adeiladau
Ym marn y Cyfarwyddwyr, yn seiliedig ar bolisi hanesyddol cyfrifyddu cost, mae gwerth marchnad gyfunol tir ac adeiladau'r Grŵp £466m (2004 £369m) yn fwy na'u gwerth net ar bapur, £1,157m (2004 £1,162m).

Y Cyfarwyddwyr a'u buddiannau
Ar dudalen 32 ceir y manylion am y Cyfarwyddwyr a'r newidiadau a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penodi'r Cadeirydd, penodir pob Cyfarwyddwr arall gan y Cwmni gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol.

Llywodraeth EM yw unig gyfranddaliwr y Cwmni ac felly nid oes gan y Cyfarwyddwyr unrhyw ddiddordeb yng nghyfranddaliadau'r Cwmni. Ceir manylion bywgraffiadol y Cyfarwyddwyr ar dudalennau 21 a 22.

Pobl
Cyfloga Grŵp y Post Brenhinol dros 196,000 o bobl (2004 dros 202,000) yn ein hisymrwymiadau perchnogaeth lwyr yn y DG. Ceir cysoniad o gyfrif pennau'r Grŵp yn nodyn 2 i'r cyfrifon. Ein pobl yw ein cryfder strategol a'n mantais gystadleuol.

Annog cyfathrebiad effeithiol ac ymgynghoriad rhwng ein pobl yw polisi'r Grŵp, yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â strategaeth, ffactorau ariannol ac economaidd a allai ddylanwadu ar berfformiad y Grŵp. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio amrediad eang o sianeli cyfathrebu, gan gynnwys cylchgronau, cyfarfodydd briffio, fforymau agored a gwefan rhyngrwyd mewnol. Mae ein pobl yn cael gwahanol gynlluniau bonws, mae elfennau sylweddol ohonynt yn seiliedig ar dargedau sy'n ymwneud â busnes.

Rydym yn brysur yn hybu hyfforddiant a datblygu sgiliau parhaol ar gyfer ein pobl i gyd er mwyn sicrhau bod amcanion unigol a rhai corfforaethol yn cael eu cyflawni. Mae ein rhaglenni datblygu rheolwyr a hyfforddi wedi'u llunio i ddenu ac i gadw'r gorau. Mae'r Grŵp wedi cydweithio â'r undebau i gyflwyno nifer o wahanol ddulliau gweithio dyfeisgar i wella ein heffeithiolrwydd.

Mae gennym bolisi Cyfleoedd Cyfartal ar gyfer pob agwedd, gan cynnwys anabledd, oedran, crefydd, lliw, rhyw, cenedl, tarddiad ethnig, tueddiadau rhywiol, hil, credo a statws priodasol.

Yn 2002, creodd y Cadeirydd raglen i wneud Grŵp y Post Brenhinol yn 'Lle Gwych i Weithio' a gwnaeth hi'n flaenoriaeth i bawb ar draws y busnes. Annog pobl i gyfrannu i wella eu hamgylchfyd gwaith, i roi'r sgiliau angenrheidiol i'n pobl, i ddatblygu balchder mewn deall y busnes a hyrwyddo parch tuag at gydweithwyr – yn gryno, sicrhau bod ystyriaethau pobl wrth galon pob penderfyniad pwysig yw diben y rhaglen. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi a bydd yn parhau'n ran gyfannol o'n strategaeth bobl.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

Bydd ein strategaeth pobl yn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein potensial fel sefydliad drwy gryfder ein pobl drwy ddatblygu dulliau gwaith perfformiad uchel, cynaliadwy lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cyfranogi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n canolbwyntio ar saith maes allweddol:

- creu swyddi diddorol ac ystyrlon gyda phatrymau gwaith mwy hyblyg;
- nodi a datblygu set o ymddygiadau craidd yn ein pobl sy'n penderfynu sut yr ydym yn trin ein gilydd, ein cwsmeriaid a'n Cyfranddalwr;
- adeiladu sefydliad hylifol, dyfeisgar ac addasol i wella ein hymateb i newidiadau amgylcheddol ac yn y farchnad;
- datblygu dulliau gwaith perfformiad-uchel lle y mae pawb yn deall eu cyfraniad a'u bod yn cael eu hysgogi i gyrraedd eu potensial llawn;
- diffinio, recriwtio a datblygu'r galluoedd craidd yr ydym eu hangen i ffynnu mewn marchnad gystadleuol, dadreoledig;
- recriwtio, denu a datblygu'r gallu yr ydym ei angen i arwain a rheoli, er mwyn cyrraedd ein targedau; a
- gwella ein gallu i ddenu a chadw'r dalent angenrheidiol i gystadlu'n llwyddiannus.

Ein nod yw parhau i danseilio ein strategaeth pobl gyda system fesur a fydd yn dangos gwerth ein pobl a'u cyfraniad i lwyddiant ein busnes yn wrthrychol.

Ar hyn o bryd, rydym yn mesur ein cynnydd tuag at ddod yn 'Lle Gwych i Weithio' drwy ddefnyddio ein harolwg barn y gweithlu -'Dweud eich Dweud' a lansiwyd ym mis Ionawr 2003. Caiff hwn ei weinyddu'n flynyddol, ar sail dreiglol, ar draws ein holl weithwyr ac mae'r canlyniadau yn cael eu monitro'n fisol drwy'r busnes – o lefel leol hyd at lefel y Bwrdd.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
Mae'r Post Brenhinol yn ymrwymedig i gyflawni ei weithgareddau mewn modd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol o ran yr amgylchfyd, gweithwyr, cwsmeriaid a chymunedau lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol (CSR) yn adrodd i'r Bwrdd, sy'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau. Bydd manylion pellach am strwythur a gweithgareddau rheoli'r CSR ar gael yn ein Hadroddiad CSR 2005 a gyhoeddir ym mis Medi 2005.

Gweithwyr ag anableddau
Rhoi ystyriaeth lawn i geisiadau am swyddi gan unigolion ag anableddau yw polisi'r Grŵp. Mae'r gweithwyr sy'n datblygu anableddau tra eu bod yn gweithio i ni yn cael ein cefnogaeth lawn ar ffurf hyfforddiant ac offer arbennig i'w cynorthwyo i barhau i weithio pan fydd hynny'n ymarferol. Mae'r Grŵp yn cynnig hyfforddiant, datblygiad gyrfaol a dyrchafiad i weithwyr ag anableddau mewn achosion priodol.

Cwmni gweithredol
Wedi dadansoddi'r adnoddau ariannol sydd ar gael a rhagamcanion llif arian y Grŵp, mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod paratoi datganiad ariannol ar sail cwmni gweithredol yn briodol.

Archwilwyr
Bydd penderfyniad i ailbenodi Ernst & Young LLP fel archwilwyr yn cael ei roi gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Trwy Orchymyn y Bwrdd

Jonathan Evans
Ysgrifennydd y Cwmni
16 Mai 2005

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rheolaeth Gorfforaethol

Datganiad gan y Cyfarwyddwyr ar gydymffurfio â'r Cod Cyfunol
Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i Reolaeth Gorfforaethol o safon uchel ac mae'n cefnogi'r Cod Cyfunol ar Reolaeth Gorfforaethol (y Cod) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003, a ddaeth yn weithredol i'r Post Brenhinol ar 29 Mawrth 2004. Nod y datganiad canlynol yw egluro ein polisïau a'n harferion rheoli o ystyried egwyddorion y Cod a'r ddarpariaeth i'r graddau y maent yn berthnasol i Gwmni cyhoeddus sydd ag un cyfranddaliwr, ac i roi cip olwg ar sut y mae'r Bwrdd a'r rheolwyr yn rhedeg y busnes er budd y Cyfranddaliwr. Mae'r Cwmni wedi cydymffurfio'n llawn â darpariaethau'r Cod ac eithrio'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg. Pan ddaeth cyfnod swydd Rosemary Thorne i ben ar 25 Mawrth 2004, disgynnodd cyfansoddiad y Pwyllgor hwn yn is na'r lefel argymelledig o dri aelod anweithredol. Penodwyd y Farwnes Margaret Prosser i'r Pwyllgor ar 8 Chwefror 2005, gan ddod â nifer yr aelodau yn ôl i'r lefel argymelledig. Mae'r Cwmni yn parhau i chwilio am Gyfarwyddwr Anweithredol ychwanegol gydag arbenigedd ariannol diweddar a pherthnasol.

Y Bwrdd
Y Bwrdd sy'n gyfrifol am osod amcanion a strategaeth y Grŵp ac am fonitro'i berfformiad. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd Anweithredol, pum Cyfarwyddwr Gweithredol a chwech Cyfarwyddwr Anweithredol. Mae bywgraffiadau bob un o'r Cyfarwyddwyr, sy'n nodi eu swyddogaethau cyfredol, eu hymrwymiadau a'u profiad blaenorol ar dudalennau 21 a 22. Fel rheol, mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis, ac mae wedi diffinio'r materion hynny sydd wedi'u neilltuo'n arbennig iddo eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys cymeradwyo datganiadau ariannol, caffaeliadau a gwarediadau, cytundebau pwysig, prosiectau nas ailadroddir, gwariant cyfalaf mawr a chynlluniau strategol. Mae hefyd yn dirprwyo cyfrifoldeb i Bwyllgorau'r Bwrdd a nodir isod. Ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd a drefnir, mae Ysgrifennydd y Cwmni yn coladu ac yn dosbarthu'r papurau ar ran y Cadeirydd gyda'r nod o roi digon o amser i'r Cyfarwyddwyr i adolygu'r wybodaeth a roddir. Mae'r Bwrdd yn hyderus bod gan ei holl aelodau wybodaeth, talent a phrofiad angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau sy'n angenrheidiol i swyddogaeth Cyfarwyddwyr y busnes. Mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gytundebau 12 mis treiglol ac fel rheol penodir y Cyfarwyddwyr Anweithredol am dair blynedd

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod pob un o'r chwe Cyfarwyddwr Anweithredol yn annibynnol. Felly, ym marn y Bwrdd nid oes ganddynt unrhyw gysylltiadau â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol na'r rheolwyr eraill, nac unrhyw fusnes na chydberthynas arall â'r Cwmni a allai amharu ar eu barn. Syr Michael Hodgkinson yw'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Mae rhaniad amlwg hefyd rhwng cyfrifoldebau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwyr, Caiff perfformiad y Bwrdd, ei Bwyllgorau a Chyfarwyddwyr unigol ei asesu bob blwyddyn. Yn 2004 ysgogodd y Bwrdd ddull systematig o asesu effeithiolrwydd y Bwrdd, ei Bwyllgorau a Chyfarwyddwyr unigol. Y Cadeirydd wnaeth hyn ac fe'i weithredwyd ar y cyd â Chadeiryddion y pwyllgorau a chyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Cwmni. Defnyddiwyd holiadur ffurfiol i gyfleu safbwyntiau'r Cyfarwyddwyr ar effeithiolrwydd y bwrdd a'r Pwyllgorau i'r Cadeirydd a'r Bwrdd llawn. Aseswyd perfformiad Pwyllgorau'r Bwrdd ar ran y Cadeirydd gan Gadeiryddion perthnasol Pwyllgorau'r Bwrdd. Adolygodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol, o dan arweinyddiaeth yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, berfformiad y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Gall Cyfarwyddwyr gymryd cyngor proffesiynol annibynnol ar gost y Grŵp er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Gall pob Cyfarwyddwr gael cyngor a gwasanaeth gan Ysgrifennydd y Cwmni, a mater i'r Bwrdd cyfan yw penodi a diswyddo'r Ysgrifennydd.

Mae Erthyglau Cysylltiad y Cwmni yn mynnu bod pob Cyfarwyddwr a benodir gan y Bwrdd yn cael ei ethol gan y Cyfranddaliwr yn y CCB cyntaf sy'n dilyn ei benodiad. Wedi iddynt gael eu penodi bydd y Cyfarwyddwyr yn cyfranogi mewn rhaglen sefydlu lle y byddant yn cael gwybodaeth am Grŵp y Post Brenhinol, swyddogaeth y Bwrdd a materion a neilltuir iddo benderfynu arnynt, cylchoedd gorchwyl ac aelodaeth prif Bwyllgorau'r Bwrdd, trefniadau Rheoli Corfforaethol y Cwmni a'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf am y Grŵp. Ategir hyn ag ymweliadau i leoliadau busnes allweddol. Mae'r Cwmni yn cyfranogi mewn cyfathrebiadau ddwy ffordd gyda'r Cyfranddaliwr er mwyn trafod gwybodaeth ar ei strategaeth, perfformiad a pholisïau. Caiff y Bwrdd atborth ar y cyfarfodydd hyn gan y Cyfarwyddwyr sy'n mynychu'r cyfarfod.

Yn ystod y flwyddyn mynychodd y Cyfarwyddwyr y nifer a ganlyn o gyfarfodydd y Bwrdd a'i brif Bwyllgorau:

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rheolaeth Gorfforaethol (parhad)

Nifer y cyfarfodydd	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Taliadau	Pwyllgor Enwebu
Nifer y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn	**11**	**7**	**6**	**3**
Anweithredol				
Allan Leighton	11			1
David Fish	9		6	3
Richard Handover	9		5	3
Syr Michael Hodgkinson	10		5	
John Neill	10	7		
Y Farwnes Margaret Prosser[1]	4	1		
Bob Wigley	9	7		
Gweithredol				
Adam Crozier	11			
David Mills	9			
Marisa Cassoni	11			
Tony McCarthy	11			
David Burden[2]	8			
Cyn-Gyfarwyddwr				
Elmar Toime[3]	4			

1. Mynychodd pedwar o'r pum cyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd ers iddi ddod yn Gyfarwyddwr a'r unig gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhlaiywd ers iddi ddod yn aelod Pwyllgor.
2. Mynychod y cyfan o'r wyth cyfarfod a gynhaliwyd ers iddo ddod yn Gyfarwyddwr.
3. Ymddiswyddod 16 Tachwedd 2004.

Penodiadau allanol
Mae'r Bwrdd o'r farn ei fod o fudd sylweddol i'r Cwmni ac i Gyfarwyddwyr Gweithredol unigol dderbyn swyddi fel Cyfarwyddwyr Anweithredol cwmnïau y tu allan i'r Grŵp a'i fod yn iawn i'r Cyfarwyddwr gadw'r ffioedd (gweler Adroddiad ar Daliadau Cyfarwyddwyr ar dudalen 35). Polisi'r Bwrdd fel rheol yw cyfyngu'r Cyfarwyddwyr Gweithredol i ddim mwy nag un swydd Cyfarwyddwyr Anweithredol.

Mae'r Pwyllgorau a ganlyn yn ymdrin ag agweddau penodol o Reolaeth y Grŵp. Mae cylchoedd gorchwyl y prif Bwyllgorau ar gael ar wefan y Cwmni (www.royalmail.com) neu oddi wrth Ysgrifennydd y Cwmni drwy wneud cais ysgrifenedig:

Bwrdd Rheoli	
Cadeirydd	Adam Crozier, Prif Weithredwr, Grŵp y Post Brenhinol ccc
Aelodaeth	David Mills, Prif Weithredwr, Swyddfa'r Post Cyf. Marisa Cassoni, Cyfarwyddwr Ariannol y Grŵp David Burden, Prif Swyddog Gwybodaeth y Grŵp Tony McCarthy, Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Threfniadaeth y Grŵp Jonathan Evans, Ysgrifennydd y Cwmni Mary Fagan, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol a Llywodraethol y Grŵp
Swyddogaeth	Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr Gweithredol Daliadau'r Post Brenhinol ccc a Grŵp y Post Brenhinol ccc a rhai uwch weithredwyr eraill y Grŵp. Mae'r canlynol ymhlith ei gyfrifoldebau: ▪ datblygu a monitro'r defnydd o strategaeth y Grŵp, cynlluniau gweithredu a chyllidebau blynyddol i'r Bwrdd eu cymeradwyo; ▪ adolygu gweithgareddau gweithredol, a gosod polisïau pan na fydd y rhain wedi'u neilltuo ar gyfer y Bwrdd; a ▪ dyrannu adnoddau – pobl ac ariannol ar draws y Grŵp. Mae'r Bwrdd Daliadau wedi dirprwyo awdurdod i Bwyllgorau Buddsoddi'r Bwrdd Rheoli a Swyddfa'r Post Cyf. i wneud penderfyniadau buddsoddi hyd at £10m.

Rheolaeth Gorfforaethol (parhad)

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd	Bob Wigley, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	John Neill, Cyfarwyddwr Anweithredol Y Farwnes Margaret Prosser, Cyfarwyddwr Anweithredol Mae'r Bwrdd yn hyderus bod profiad cyfunol aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn eu galluogi hwy, fel grŵp, i weithredu fel Pwyllgor Archwilio a Risg effeithiol. Gall y Pwyllgor alw ar arbenigedd ariannol y Grŵp a'i archwiliwr hefyd, a gallant ofyn am gyngor proffesiynol pellach ar gost y Cwmni petaent ei angen.
Swyddogaeth	Mae'r Pwyllgor, a gynorthwyir gan y Pwyllgor Rheoli Risg, yn fforwm i'r archwilwyr mewnol ac allanol adrodd, ac mae'n gyfrifol am amrediad eang o faterion gan gynnwys y canlynol: ▪ monitro dilysrwydd datganiadau ariannol y Cwmni; ▪ adolygu system reolaeth ariannol fewnol y Cwmni ac, oni bai ei fod yn cael ei drin gan y Pwyllgor Rheoli Risg neu'r Bwrdd ei hun ar wahân, systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg; ▪ monitro ac adolygu effeithiolrwydd swyddogaeth Archwiliad Mewnol y Cwmni; ▪ gwneud argymhellion i'r Bwrdd am gymeradwyaeth y Cyfranddaliwr mewn cyfarfod cyhoeddus, mewn perthynas â phenodiad yr archwilwyr allanol ac i gymeradwyo tâl a thelerau cyflogi archwilwyr allanol; ▪ monitro ac adolygu annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilwyr allanol ac effeithiolrwydd y broses archwilio; ▪ datblygu a gweithredu polisi ar gyflogi archwilwyr allanol i gyflenwi gwasanaethau gwahanol i archwilio; a ▪ lle y bo gweithgareddau monitro ac adolygu'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn dangos achos i bryderu neu le i wella, gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i roi sylw i'r mater, neu i wneud gwelliannau.

Pwyllgor Taliadau

Cadeirydd	David Fish, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	Sir Michael Hodgkinson, Cyfarwyddwr Anweithredol Richard Handover, Cyfarwyddwr Anweithredol
Swyddogaeth	Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys y canlynol: ▪ penderfynu ac argymell fframwaith talu uwch weithredwyr y Cwmni er mwyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo; ▪ penderfynu ar y pecynnau talu unigol ar gyfer y Cadeirydd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Ysgrifennydd y Cwmni, yn atebol i ganiatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol lle bo angen; a ▪ chytuno ar y targedau ar gyfer unrhyw gynlluniau cymhelliad sy'n berthnasol â pherfformiad, sy'n gymwys i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch weithredwyr.

Pwyllgor Enwebu

Cadeirydd	Richard Handover, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	Allan Leighton, Cadeirydd David Fish, Cyfarwyddwr Anweithredol
Swyddogaeth	Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys y canlynol: ▪ arwain proses ffurfiol, drwyadl ac eglur ar gyfer penodi i Fwrdd y Cwmni ac ar gyfer penodi i is- fyrddau. Bydd rhai penodiadau yn atebol i ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol fel a nodir yn yr Erthyglau. ▪ cynghori'r Bwrdd ynghylch cynllunio olynwyr i swydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a phob swydd arall ar y Bwrdd, ac uwch swyddi eraill; a ▪ chadw golwg ar gydbwysedd aelodaeth y Bwrdd, a sicrhau bod y gymysgedd angenrheidiol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ganddo.

Rheolaeth Gorfforaethol (parhad)

Yn ogystal â'r prif Bwyllgorau uchod, ceir y Pwyllgorau a ganlyn:

Pwyllgor Rheolaeth Corfforaethol a Chyfrifoldebau Cymdeithasol	
Cadeirydd	Sir Michael Hodgkinson, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	Tony McCarthy, Cyfarwyddwr Datblygiad Pobl a Threfniadaeth y Grŵp Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfrifoldebau Cymdeithasol Pennaeth Amgylchedd Pennaeth Iechyd a Diogelwch Uwch weithredwyr eraill ar draws y Grŵp
Swyddogaeth	Mae'r Pwyllgor Rheolaeth Corfforaethol a Chyfrifoldebau Cymdeithasol yn adrodd i'r Bwrdd ac mae ganddo gyfrifoldebau sy'n cynnwys y canlynol: ▪ gweithredu ar ran y Bwrdd Rheoli i roi gorolwg o effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol a moesol o weithgareddau'r Grŵp; a ▪ gwneud argymhellion ar safonau a pholisïau Corfforaethol a Chyfrifoldebau Cymdeithasol angenrheidiol.

Pwyllgor Pensiynau	
Cadeirydd	Marisa Cassoni, Cyfarwyddwr Ariannol y Grŵp
Aelodaeth	Tony McCarthy, Cyfarwyddwr Datblygiad Pobl a Threfniadaeth y Grŵp Jonathan Evans, Ysgrifennydd y Cwmni
Swyddogaeth	Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys y canlynol: ▪ adolygu cyllid, buddion, strwythur cynllun a datblygiadau strategol sy'n effeithio ar bensiwn galwedigaethol y Grŵp; a ▪ chynrychioli'r Grŵp mewn trafodaethau gydag Ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn galwedigaethol y Grŵp.

Gwasanaethau gwahanol i archwilio a ddarparir gan yr archwilwyr allanol

Mewn rhai achosion mae natur y cyngor sydd ei angen yn golygu y byddai'n fwy amserol ac yn fwy cost effeithiol i ddewis yr archwilwyr allanol sydd â dealltwriaeth dda o'r Grŵp eisoes. Er mwyn cynnal annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilwyr allanol, mae'r Bwrdd wedi penderfynu pa waith y gall archwilwyr allanol ei ddarparu a'r prosesau cymeradwyo sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro lefel y ffioedd am wasanaethau gwahanol i archwilio a delir i archwilwyr allanol.

Darpariaethau indemniad trydydd parti cymwys i Gyfarwyddwyr

Pan gymeradwywyd Adroddiad y Cyfarwyddwyr dan Adran 234A Deddf Cwmnïau 1985, roedd ac mae darpariaeth indemniad trydydd parti cymwys rannol yn weithredol er budd holl Gyarwyddwyr y Cwmni ac roedd ac mae mewn grym er budd un neu fwy o bersonau a oedd yn Gyfarwyddwyr y Cwmni ar y pryd. Rhoddir indemniad dan erthygl 129 Erthyglau Cysylltiadau'r Cwmni. Mae'n indemniad yn rhannol yn yr ystyr nad yw'n caniatáu i'r Cwmni adennill costau amddiffyniad aflwyddiannus yn achos hawliad gan drydydd parti.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rheolaeth Fewnol

Arolwg
Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am system reolaeth fewnol a rheoli risg y Grŵp, yn ogystal â gwneud adolygiad amserol o'i heffeithiolrwydd. Lluniwyd y system i reoli, yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, a sicrwydd rhesymol yn erbyn camfynegiant neu golled, nid sicrwydd absoliwt, a all roi.

Mae ymagwedd y Grŵp tuag at reolaeth fewnol yn seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol mai rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am reolaeth a rheoli risg. Mae proses yn weithredol ar gyfer enwi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae'r Grŵp yn eu hwynebu, yn unol â manylion cyfarwyddyd Pwyllgor Turnbull fel rhan o'r Cod, gan gynnwys y risgiau ariannol a gweithredol a'r risgiau i enw da. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r broses hon yn rheolaidd. Bu'r broses yn weithredol trwy gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn. Cyfrifoldebau uwch reolwyr y cyd-fentrau a'r cyfranogion, yn gyffredinol, yw'r gweithrediadau hynny. Mae'r Cwmni yn monitro ei fuddsoddiadau ac yn dylanwadu trwy gynnig sylwadau i'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi adolygu effeithiolrwydd y system o reoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys adolygu'r Adroddiadau Archwilio Mewnol, cadarnhad rheolaidd oddi wrth y rheolwyr lleol a chyfathrebiadau oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ganlyniad Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Pwyllgor Archwilio a Risg
Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ac yn cyfarfod o leiaf bob chwarter i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd yr amgylchfyd rheoli. Mae'r Pwyllgor yn adolygu cwmpas y gwaith, awdurdod ac adnoddau'r gweithrediadau Archwilio Mewnol a Rheoli Risg.

Pwyllgor Rheoli Risg
Is-gwmni i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yw hwn. Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn y Grŵp, ac yn sicrhau ei fod yn cael ei integreiddio â'r cynllunio strategol. Mae hefyd yn hwyluso'r gwaith o adrodd am risgiau allweddol yn rheolaidd, a'r camau a gymerir i reoli'r risgiau i lefel ddymunol. Mae aelodau'r Pwyllgor hwn yn cynnwys Marisa Cassoni (Cadeirydd), David Burden, Cyfarwyddwr Trysorlys y Grŵp, y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Rheolaeth Gymdeithasol ac uwch weithredwyr eraill o blith y Grŵp.

Prosesau rheoli allweddol
Defnyddir prosesau allweddol cyfredol i asesu effeithiolrwydd y systemau ac maent yn cynnwys y canlynol:

- mae gan yr unedau busnes awdurdod i reoli o fewn y cyfyngiadau a osodir gan y Bwrdd ac o fewn cwmpas y pwerau neilltuedig. Cod Safonau Busnes y Grŵp sy'n pennu'r egwyddorion proffesiynoldeb a didwylledd ar gyfer ein pobl;
- y Bwrdd yn trafod ac yn cymeradwyo cyfeiriad strategol, cynlluniau ac amcanion y Grŵp a phob Cwmni gweithredol a'r risgiau o ran eu cyflawni hwy;
- y Bwrdd yn adolygu a chymeradwyo cyllidebau a rhagfynegiadau;
- adolygu'r perfformiad yn fisol trwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad allweddol, rhagfynegiadau diweddaredig a gwybodaeth am y meysydd risg allweddol;
- y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gwneud adolygiadau chwarterol o leiaf o gwmpas a chanlyniad y gwaith archwilio mewnol ar draws y Grŵp. Mae cwmpas y gwaith yn cynnwys holl weithgareddau allweddol y Grŵp ac yn canolbwyntio ar feysydd risg uwch;
- y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu cwmpas gwaith yr archwilwyr allanol ac unrhyw faterion sylweddol sy'n codi;
- y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r polisïau cyfrifyddu a'r lefelau awdurdod dirprwyedig; a'r
- Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried y risgiau mawr sy'n wynebu'r Grŵp a'r gweithdrefnau i'w rheoli.

Y broses Rheoli Risg
Mae proses gyfredol yn weithredol ar gyfer enwi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae'r Grŵp yn eu hwynebu. Bu'r broses hon yn weithredol trwy gydol y flwyddyn a adolygir, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol, yn unol â chyfarwyddyd Turnbull. Caiff effeithiolrwydd y broses ei hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, sydd wedyn yn adrodd i'r Bwrdd.

Mae'r broses yn cynnwys y canlynol:

- adnabyddiaeth ffurfiol - rheolwyr pob lefel o'r Grŵp yn defnyddio proses hunan asesu risgiau allweddol i gyflawni eu hamcanion busnes a'r rheolaethau sy'n weithredol i'w rheoli. Caiff tebygoliaeth ac effaith bosibl pob risg eu gwerthuso;
- rheolwyr yn ardystio eu bod yn gyfrifol am reoli'r risgiau i'w hamcanion busnes a bod y rheolaethau mewnol yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt, bod y risgiau yn cael eu henwi, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol;
- bob chwarter, rheolwyr pob uned fusnes yn adrodd ac adolygu'r gweithgareddau rheoli risg a'r camau a gymerwyd i dalu sylw i ddiffyg cydymffurfio â rheolaethau, neu i wella eu heffeithiolrwydd; a'r
- Archwilwyr Mewnol yn rhoi sicrwydd annibynnol am fodolaeth ac effeithiolrwydd y gweithgareddau rheoli risg a ddisgrifir gan y rheolwyr.

Mae'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg yn rhan annatod o weithrediadau'r Grŵp, ac mae'r camau a gymerir i liniaru unrhyw wendidau yn cael eu monitro'n ofalus.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr

Gwybodaeth nad yw'n atebol i archwiliad
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth a fynnir gan Reoliadau Adroddiad o Daliadau'r Cyfarwyddwyr 2002 (y Rheoliadau). Mae'r Cwmni yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio ag egwyddorion Adran 1 o'r Cod Cyfunol ar Reolaeth Gorfforaethol (y Cod) drwy'r flwyddyn.

Mae Grŵp y Post Brenhinol yn ymrwymedig i gyflawni gwelliannau heriol yn ei berfformiad, ac mae'n gwneud newidiadau helaeth i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel, ac sy'n gost effeithiol, yn cael eu cynnig i'r cyhoedd. Ym marn y Bwrdd mae strategaeth daliadau effeithiol yn hanfodol i gefnogi eu hamcanion, drwy sicrhau bod gan y Grŵp bobl o galibr sy'n meddu ar y sgiliau iawn. Mae cymhelliannau, sydd o fudd cyffredin i'r gweithwyr a'r cyfranddaliwr, yn rhan hanfodol o hyn.

Y Pwyllgor Taliadau
Mae'r Bwrdd yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am y fframwaith a chostau taliadau gweithredol a thelerau pwysig y cytundebau gwasanaeth a gynigir i'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, sy'n mynnu caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd yn cymeradwyo taliadau'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd. Swyddogaeth y Pwyllgor Taliadau yw datblygu polisi taliadau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'u hadroddiadau uniongyrchol ac yn benodol i wneud argymhellion ar eu cyflogau, buddion, bonysau, pensiynau ac amodau a thelerau eraill eu cyflogaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell iawndal priodol ar derfyn cyflogaeth, gan roi ystyriaeth ofalus i ba iawndal y dylid ei dalu o ystyried amgylchiadau neilltuol yr achos a gallu'r unigolyn i liniaru.

Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yw pob un o'r Pwyllgor Taliadau. Dangosir rhestr o aelodau'r Pwyllgor ar dudalen 27. Gall Prif Weithredwr Grŵp y Post Brenhinol ccc, Adam Crozier, a Chyfarwyddwr Datblygiad Pobl a Threfniadaeth, Tony McCarthy, fynychu'r cyfarfodydd hyn drwy wahoddiad, ond nid ydynt yn bresennol pan drafodir eu taliadau hwy eu hunain.

Cyngor i'r Pwyllgor Taliadau

Gall y Pwyllgor ofyn am wybodaeth o du fewn a thu allan i'r Grŵp. Mae'n cymryd cyngor gan y sefydliadau annibynnol, proffesiynol hynny sydd yn y sefyllfa orau i gynorthwyo ei ystyriaethau ar y pynciau penodol a drafodir.

Yn ystod 2004-05 cafwyd cyngor gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar berfformiad gweithredwyr allweddol. Cafwyd cyngor proffesiynol allanol gan Mercer Human Resource Consulting LLC, yr Hay Group a Watson Wyatt Worldwide. Y Cyfarwyddwr Datblygiad Pobl a Threfniadaeth, Tony McCarthy, a gynghorir gan Ernst & Young LLP, ac Ysgrifennydd y Cwmni, Jonathan Evans sy'n rhoi'r gefnogaeth fewnol yn bennaf. Cafwyd cyngor arall gan arbenigwyr o'r Adran Datblygiad Pobl a Threfniadaeth a Chyllid.

Yn ystod y flwyddyn cafodd y Cwmni gyngor ar faterion pensiwn a materion actiwaraidd gan Watson Wyatt Worldwide a chan Ernst & Young LLP, archwilwyr allanol y Grŵp, ar faterion trethi a rheoliadau.

Y Polisi Taliadau
Y canlynol yw polisi'r Cwmni ar daliadau'r Cyfarwyddwyr:

- dylai'r pecyn taliadau cyffredinol fod yn ddigon cystadleuol i ddenu a chadw gweithredwyr o'r ansawdd angenrheidiol mewn busnes cymhleth a marchnad gystadleuol ac a fydd yn sicrhau llwyddiant i'r Cyfranddaliwr a lefelau uchel o wasanaeth cwsmer, diogelwch a pherfformiad amgylcheddol;
- dylai cyfran sylweddol o'r pecyn taliadau ddibynnu ar berfformiad yn y tymor byr a'r tymor hir; a
- dylai'r system daliadau sefydlu buddiant cyffredinol rhwng yr uwch weithredwyr a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r polisi ar gyfer uwch weithredwyr yn cymryd telerau tâl a chyflogaeth mewn man arall yn y Grŵp i ystyriaeth.

Mae'r Pwyllgor yn gwneud adolygiad rheolaidd o strwythur y pecyn a'i gystadleugarwch o'u cymharu â'r marchnadoedd priodol. Nod y Pwyllgor yw sicrhau bod y pecyn yn gyfatebol ac yn effeithiol, a'i fod yn cael ei ddatblygu yn unol â'r arfer gorau safonol. Yn ystod 2004-05, fel rhan o'i adolygiad rheolaidd, mae'r Pwyllgor wedi adolygu'r tâl sylfaenol cyfredol a'r trefniadau cymhelliant blynyddol a hir dymor.

Prif gydrannau'r taliadau
Y canlynol yw'r prif gydrannau ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol: tâl sylfaenol, bonws blynyddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad, Cynllun Cymhelliant Hir Dymor, pensiwn a buddion eraill. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid rhoi pwyslais parhaol ar yr elfennau tâl hynny sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Cyflogau sylfaenol
Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid gosod cyflogau sylfaenol ar lefelau sy'n ddigonol i recriwtio a chadw gweithredwyr o galibr uchel. Wrth lunio ei farn, mae'r Pwyllgor yn defnyddio amrywiaeth o ddata gyda'r nod o wneud cymhariaeth deg â chwmnïau o faint a chymhlethdod tebyg i'r Post Brenhinol. Ymgyngoriaethau annibynnol sy'n darparu'r data hwn. Mae codiadau yn cael eu hargymell mewn achosion pan fydd y Pwyllgor o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i adlewyrchu perfformiad, cynnydd yng nghyfrifoldebau unigolion a lefelau'r farchnad. Cymeradwyir pob codiad gan yr Ysgrifennydd dros Fasnach a Diwydiant.

Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Bonws personol blynyddol yn gysylltiedig â pherfformiad 2004-05
Gall y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ennill bonws sy'n gysylltiedig â'u perfformiad am gyflawni targedau ariannol a thargedau cwsmer. Seilir y bonysau hyn ar dargedau a bennwyd bob blwyddyn yn unol â'r Cynllun Adnewyddu ac a gytunir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, a'r canlynol yw rhai 2004-05:

	Uchafswm y bonws blynyddol
Cadeirydd Anweithredol	£180,000
Prif Weithredwr, Grŵp y Post Brenhinol ccc	75% o'r tâl sylfaenol
Cyfarwyddwyr Gweithredol Eraill	40% o'r tâl sylfaenol

Mae 75% o'r enillion bonws posibl yn berthnasol i berfformiad ariannol, tra bo 25% yn berthnasol i dargedau ansawdd gwasanaeth. Mae 80% o enillion bonws posibl Prif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyf. yn seiliedig ar gyrraedd targedau Swyddfa'r Post Cyf., tra bo 20% yn seiliedig ar dargedau'r Grŵp.

Bob blwyddyn gall y Cyfarwyddwyr ohirio hyd at 50% o'u bonws personol blynyddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad i Ddyfarniadau Bonws o fewn y Cynllun Cymhelliant Hir Dymor (gweler isod).

Mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol hawl hefyd i daliad Rhannu mewn Llwyddiant.

Bonws personol blynyddol yn gysylltiedig â pherfformiad 2003-04
Y llynedd gwnaeth y Cadeirydd Anweithredol a'r Dirprwy Gadeirydd Gweithredol (a ymddiswyddodd wedyn ar 16 Tachwedd 2004) benderfyniad gwirfoddol i ohirio 100% (£144,000) a 50% (£150,000) yn ôl eu trefn o'u bonysau personol blynyddol yn gysylltiedig â pherfformiad 2003-04 ar y sail y byddai'n cael ei dalu eleni ar yr amod bod y pedwar targed ansawdd gwasanaeth allweddol (Dosbarth 1af, 2il Ddosbarth, Mailsort 2 a Mailsort 3) yn cael eu cyrraedd yn chwarter olaf 2004-05.

Cynllun Cymhelliant Hir Dymor 2002-03 i 2004-05
Mae'r Cwmni yn gweithredu Cynllun Cymhelliant Hir Dymor (CCHD) ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol a rhai uwch weithwyr neilltuol, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant. Amcanion y CCHD yw ysgogi cyflawni targedau busnes hir dymor y Grŵp a gwobrwyo'r llwyddiant o gyrraedd, neu wneud yn well na'r targedau hyn, dros gyfnod o dair blynedd.

Mae'r CCHD yn cynnwys Dyfarniadau Perfformiad Blynyddol y Cwmni a Dyfarniadau Bonws, dyfernir y ddau yn ôl doethineb y Pwyllgor Taliadau. Bydd Dyfarniadau Perfformiad Blynyddol y Cwmni yn cronni ar raddfa symudol sy'n uwch na lefel trothwy perfformiad ariannol y Grŵp, yn unol â thargedau'r Cynllun Adnewyddu ar gyfer elw o'r gweithrediadau, ac yn atebol i berfformiad personol boddhaol. Mae targedau gweithredu'r Cynllun Adnewyddu yn seiliedig ar symud y Grŵp o lefel o golled o'r gweithrediadau yn 2001-02 i elw targedig yn 2004-05. Gall y Cyfarwyddwyr Gweithredol ohirio hyd at 50% hefyd o'u bonws blynyddol personol yn gysylltiedig â pherfformiad i'r Dyfarniadau Bonws. Felly, mae'r Dyfarniadau yn cronni fel a ganlyn:

	Perfformiad targed blynyddol		
	O dan 87.5%	Ar darged	120% neu'n fwy
Dyfarniad Perfformiad Blynyddol y Cwmni (ar gyflog sylfaenol)	dim	25%	37.5%
Bonws	Hyd at 50% o'r bonws personol blynyddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad		

Ar derfyn y cyfnod o dair blynedd gellir cynyddu gwerth y dyfarniadau cronedig uchod ar raddfa symudol, ar sail perfformiad o'i gymharu â tharged cronnol tair blynedd, fel a ganlyn:

	Perfformiad targed cronnol		
	Yn is na'r targed	Ar darged	Uchafswm
Ychwanegu dyfarniad CCHD	Dim ychwanegiad	33%	100%

Mae'r holl ddyfarniadau o dan y CCHD yn atebol i daliadau yn cael eu gwneud o dan y cynllun Rhannu Mewn Llwyddiant i'n pobl. Os na wneir unrhyw daliadau i'n pobl o dan y cynllun hwn, ni fydd unrhyw Ddyfarniadau Perfformiad Blynyddol yn cael eu talu ac ni fydd unrhyw godiadau i'r Dyfarniadau Bonws. Lluniwyd y cynllun Rhannu Mewn Llwyddiant i dalu £800 i bob un o'n pobl gymwysedig am gyflawni elw ar-darged ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben Mawrth 2005 a mwy os rhagorir ar y targedau. Mae'r taliad uchaf yn weithredol pan gyrhaeddir £124m na'r targed neu fwy.

Buddion
Mae'r buddion yn cynnwys cael modur gan y Cwmni, yswiriant iechyd, treuliau adleoli, yn ogystal ag arian parod yn cyfateb ag unrhyw fuddion nas cymerwyd.

Pensiynau
Mae cyfrifoldeb ar y Grŵp i dalu pensiynau mewn cysylltiad â gwasanaeth y Cyfarwyddwyr ac mae'n talu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn ar ran rhai Cyfarwyddwyr Gweithredol i'r diben hwn. Mae'r Cwmni wedi llunio cytundeb pensiwn ymddeol a fydd yn rhoi buddion i Gyfarwyddwyr y mae eu cyfraniadau i gynllun y Cwmni yn cael eu cyfyngu gan uchafswm enillion Cyllid Gwladol.

Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Elfennau sefydlog a rhai yn gysylltiedig â thaliadau perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol (ac eithrio pensiynau)
Dengys y canlynol bod cyfran sylweddol o daliad 2004-05 y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael ei yrru gan berfformiad, ac felly'n atebol i risg oni bai fod y perfformiad yn ddigonol. Yn 2004-05 roedd 23% o gyfanswm eu taliadau yn gysylltiedig ag elfennau sefydlog tra bo 77% yn gysylltiedig ag elfennau perfformiad:

Sefydlog = 23%	Yn gysylltiedig â pherfformiad = 77%		Cyfanswm
Cyflog sylfaenol	Bonws blynyddol	CCHD	
23%	5%	72%	100%

Wrth i'r Cynllun Cymhelliant Hir Dymor cyfredol aeddfedu ym mis Mehefin 2005, ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Taliadau yn adolygu'r trefniadau cymhelliant ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Nod yr adolygiad hwn, sy'n cynnwys cymhellion hir dymor a rhai blynyddol yw sicrhau bod rhan sylweddol o'r pecyn taliadau yn atebol i berfformiad a bod mesurau priodol yn cael eu defnyddio i adlewyrchu amcanion masnachol a gwasanaeth cyhoeddus y cwmni.

Cytundebau gwasanaeth
Polisi'r Pwyllgor yw cynnig blwyddyn o rybudd ymadael i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a benodir i'r Bwrdd. Mae gan y Pwyllgor bolisi diffiniedig ar yr iawndal a'r lliniariad sydd i'w defnyddio petai cytundeb Cyfarwyddwr yn y DG yn cael ei derfynu'n fuan. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai camau yn cael eu cymryd i sicrhau nad yw perfformiad gwael yn cael ei wobrwyo.

Mae'r cytundebau gwasanaeth treiglol a llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr yn cynnwys y telerau a ganlyn:

	Dyddiad y cytundeb	Dyddiad olaf y cytundeb gwasanaeth cyfredol [1]	Cyfnod sy'n weddill (misoedd)
Cadeirydd Anweithredol			
Allan Leighton [2]	25 Mawrth 2005	25 Mawrth 2008	36
Cyfarwyddwyr Gweithredol			
Adam Crozier	1 Chwefror 2003		12
David Mills	15 Ebrill 2002		12
Marisa Cassoni	1 Chwefror 2001		12
Tony McCarthy	6 Ionawr 2003		12
David Burden	1 Gorffennaf 2004		12

Nid oes gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol gytundebau gwasanaeth. Y canlynol yw dyddiadau swyddi'r Cyfarwyddwr Anweithredol presennol:

Cyfarwyddwyr Anweithredol			
Syr Mike Hodgkinson	1 Ionawr 2003	31 Rhagfyr 2005	9
David Fish	1 Ionawr 2003	31 Rhagfyr 2005	9
Richard Handover	1 Ionawr 2003	31 Rhagfyr 2005	9
John Neill	1 Ionawr 2003	31 Rhagfyr 2005	9
Y Farwnes Margaret Prosser	1 Tachwedd 2004	31 Hydref 2007	31
Bob Wigley	1 Ebrill 2003	31 Mawrth 2006	12

[1] Mae contractau'r Cwmni yn rhoi 12 mis o rybudd ymadael i'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol; mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr roi chwe mis o rybudd ymadael. Uchafswm o 12 mis o gyflog sylfaenol yw'r iawndal safonol a delir am golli swydd. Mae'r Cwmni yn ymrwymedig i'r tair blynedd llawn ar gyfer y Cyfarwyddwyr Anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd.

[2] Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno, yn unol ag Erthyglau'r Gymdeithas, i ailbenodi Allan Leighton fel Cadeirydd am dymor pellach o dair blynedd i ddiweddu ar 25 Mawrth 2008.

Cyfarwyddwyr Anweithredol
Y Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n penderfynu ar y ffioedd a delir i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a chânt eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gwneir archwiliadau marchnad annibynnol er mwyn penderfynu arnynt. Gall y ffioedd gynnwys ffi sylfaenol ar gyfer aelodaeth o'r Bwrdd ac, fel y bo'n briodol, ffioedd ychwanegol ar gyfer Cadeiryddiaeth y Pwyllgorau Archwilio a Risg, Taliadau ac Enwebu. Ceir manylion y ffioedd ar dudalen 34.

Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Gwybodaeth archwiliedig

Roedd taliadau'r Cyfarwyddwyr, ar wahân i bensiynau a Chynllun Cymhelliant Hir Dymor, fal a ganlyn:

	Ffioedd /cyflog blynyddol cyfredol	Cyflog/ ffioedd	Bonws perfformiad blynyddol		Cyfanswm bonws perfformiad blynyddol	Bonws gohiriedig o flynyddoedd cynt	Buddion	Iawndal colli swydd	Cyfanswm heb bensiynau a CCHD	
			Bonws yn gysylltiedig â pherfformiad	Gohiriwyd i CCHD					2005	2004
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cadeirydd Anweithredol										
Allan Leighton	23	22	164	-	164	144	-	-	**330**	20
Gweithredol										
Adam Crozier	515	511	353	(176)	177	-	16	-	**704**	664
David Mills	310	301	123	(61)	62	-	18	-	**381**	343
Marisa Cassoni	347	342	127	(63)	64	-	22	-	**428**	395
Tony McCarthy	320	315	117	(58)	59	-	32	-	**406**	384
David Burden[1]	263	197	97	(48)	49	-	9	-	**255**	-
Anweithredol										
Syr Michael Hodgkinson	75	72	-	-	-	-	-	-	**72**	66
David Fish	38	36	-	-	-	-	-	-	**36**	34
Richard Handover	38	36	-	-	-	-	-	-	**36**	34
John Neill	33	32	-	-	-	-	-	-	**32**	32
Y Farwnes Margaret Prosser[1]	33	13	-	-	-	-	-	-	**13**	-
Bob Wigley	38	35	-	-	-	-	-	-	**35**	32
Cyn-Gyfarwyddwyr										
Jerry Cope	-	-	-	-	-	-	-	-	**-**	518
Elmar Toime[1]	-	315	-	-	-	314	28	720	**1,377**	536
Rosemary Thorne	-	-	-	-	-	-	-	-	**-**	34
Cyfanswm 2005	2,033	2,227	981	(406)	575	458	125	720	**4,105**	-
Cyfanswm 2004		2,291	812	(454)	358		165	277	-	3,092

1. Gadawodd Elmar Toime y Cwmni ar 16 Tachwedd 2004, ac ymunodd David Burden a'r Farwnes Margaret Prosser â'r Bwrdd ar 1 Gorffennaf 2004 a'r 1 Tachwedd 2004 yn ôl eu trefn.

Mae'r ffigyrau yn y tabl yn cynrychioli'r tâl a enillwyd ac a dderbyniwyd fel Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn ariannol, pan gawsant eu talu. Fel rheol caiff taliadau o'r fath eu talu yn yr un flwyddyn ariannol, ac eithrio'r bonws blynyddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a delir yn y flwyddyn ddilynol.

Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Bonysau blynyddol personol yn gysylltiedig â pherfformiad 2004-05

Yn unol â chytundeb gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, swyddogaeth y Pwyllgor Taliadau yw awdurdodi'r bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Ceir manylion y cynllun ar dudalen 31. Ar gyfer 2004-05, daeth y Pwyllgor Taliadau i'r casgliad fod yr holl dargedau ariannol a'r rhan fwyaf o'r targedau ansawdd gwasanaeth a bennwyd i'r Grŵp wedi eu cyrraedd gan ysgogi taliad o 91% o'r uchafswm bonws posibl i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac eithrio Prif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd fod Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi cyrraedd yr holl dargedau a osodwyd, gan ysgogi taliad o 80% o'r uchafswm bonws posibl i Brif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Ysgogodd cyrraedd 91% o'r uchafswm bonws posibl o darged y Grŵp 18% arall, gan roi cyfanswm iddo o 98% o'r uchafswm bonws posibl.

Mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol hawl hefyd i daliad Rhannu mewn Llwyddiant gwerth £1,074.

Bonysau blynyddol personol yn gysylltiedig â pherfformiad 2003-04

Gyda golwg ar r bobws gohiriedig a ddisgrifir ar dudalen 31, dyfarnwyd y cyfan o'i fonws blynyddol personol 2003-04 sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef £144,000, i'r Cadeirydd Anweithredol, gan fod pob un o'r targedau ansawdd gwasanaeth wedi'u cyrraedd yn chwarter olaf 2004-05.

Perfformiad Blynyddol a Dyfarniadau Bonws o dan y Cynllun Cymhelliant Hir Dymor ar 27 Mawrth 2005

	Dyfarniadau ar 29 Mawrth 2004 £000	Dyfarniadau a gollwyd yn ystod 2004-05 £000	Dyfarniadau CCHD 2004-05 ar gyfer 2003-04 £000	Dyfarniadau i'w rhoi yn 2005-06 ar gyfer 2004-05 £000	Ychwanegiad dyfarniadau CCHD £000	Cyfanswm £000
Gweithredol						
Adam Crozier	216	-	338	369	922	1,845
David Mills	141	-	156	177	474	948
Marisa Cassoni	165	-	177	193	534	1,069
Tony McCarthy	126	-	161	178	464	929
David Burden	92	-	137	146	375	750
Cyn-Gyfarwyddwyr						
Elmar Toime	202	(202)	-	-	-	-

Mae'r cyfansymiau a ddyfarnwyd i'r Cynllun Cymhelliant Hir Dymor yn 2004-05 yn cynnwys Dyfarniad Perfformiad Blynyddol y Cwmni a'r Dyfarniad Bonws. O'r cyfanswm o £5,541,000, a delir ym Mehefin 2005, mae £912,000 yn ymwneud â bonws gohiriedig ac mae £4,629,000 yn ymwneud â dyfarniad CCHD.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Mae ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu pennu gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, ac ar hyn o bryd maent yn £20,000 a £30,000 y flwyddyn yn ôl eu trefn.

Ers 2001, £1,500 yw ffioedd aelodaeth Pwyllgor, ac mae Cadeiryddion Pwyllgor yn derbyn £2,500. Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol arolwg o'r ffioedd a dalwyd mewn sefydliadau mawr eraill er mwyn asesu'r symudiadau yn y farchnad ers yr adolygiad diwethaf, gan gynnwys effaith swyddogaeth gynyddol Pwyllgorau'r Bwrdd o ganlyniad i'r adolygiadau diweddar a wnaed o'r Cod Cyfunol ar Reolaeth Gorfforaethol. O ganlyniad, cytunodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol y buasai £5,000 ar gyfer aelodaeth, £10,000 ar gyfer Cadeiryddiaeth, £12,500 ar gyfer Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg a £10,000 ar gyfer yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol bellach yn strwythur ffioedd mwy priodol. Er hynny, ar awgrym y Cyfarwyddwyr Anweithredol, cafodd gweithredu'r strwythur ffioedd newydd hwn ar gyfer y Pwyllgor ei ohirio, ac fel mesur dros dro, cafodd y newidiadau a ganlyn eu cyflwyno o'r 1 Hydref 2004 - £2,500 ar gyfer aelodaeth Pwyllgor, £5,000 ar gyfer cadeiryddiaeth Pwyllgor, £7,500 ar gyfer cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg, a £5,000 ar gyfer yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Mae Sir Michael Hodgkinson yn derbyn ffioedd ychwanegol o £37,500 (2004 £37,500) ar gyfer ei swydd fel Cadeirydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig ac mae hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Bank of Ireland, ac mae wedi cytuno i ildio'r hawl i'r ffi am hynny.

Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr
Ar yr 16 Tachwedd 2004, gadawodd Elmar Toime y Cwmni ar delerau cytunedig. Nodir ei daliadau a'i fuddion hyd hynny yn nhabl enillion y Cyfarwyddwyr ar dudalen 33.

Collodd ei hawl i holl Ddyfarniadau'r Cwmni a gadwyd o dan y Cynllun Cymhelliant Hir Dymor (CCHD), yn ogystal ag unrhyw hawl i fonws blynyddol neu ddyfarniad CCHD ar gyfer 2004-05.

Cafodd £500,000 o iawndal ar gyfer blwyddyn o gyflog sylfaenol a £159,200, i gynrychioli cost 12 mis o gyfraniadau i'w Gynllun Buddion Ymddeol Cyllidol nas Cymeradwywyd (FURBS). Terfynwyd ei ddefnydd o'i gar ac o'i yswiriant meddygol preifat ar 27 Mawrth 2005, gan roi budd o £4,065, a thalodd y gost o yswirio ei gar rhwng 16 Tachwedd 2004 a'r dyddiad hwnnw. Anrhydeddwyd hawliadau cytundebol i Mr Toime a'i deulu a thalwyd £56,388 iddo yn erbyn derbynebau am daith i Seland Newydd a'r dyledion treth cysylltiedig. Roedd ei gytundeb yn rhoi hawl iddo ef a'i deulu agosaf i daith flynyddol ddwy ffordd i Seland Newydd a thalwyd £16,963 iddo ar gyfer y derbynebau am hynny a'r ymrwymiadau treth a oedd yn codi o hynny. Yn unol â'i gytundeb, mae ganddo hawl i ofyn i'r Cwmni dalu am ei symud yn ôl i Seland Newydd. Mae ei gytundeb yn cyfyngu'r cyfnod y gall hawlio'r costau hynny i'r 3 blynedd wedi iddo ymadael.

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 31, penderfynodd y Dirprwy Gadeirydd Gweithredol o'i wirfodd ohirio 50% (£150,000) o'i fonws blynyddol personol cysylltiedig â pherfformiad ar y saily bâi ei dalu eleni ar yr amod bod y pedwar targed ansawdd gwasanaeth allweddol (Dosbarth 1af, 2il Ddosbarth, Mailsort 2 a Mailsort 3) yn cael eu cyflawni yn ystod chwarter olaf 2004-05. Gan fod y targedau hyn wedi eu cyflawni, telir iddo £150,000.

Ad-dalwyd cyfraniadau personol Mr Toime i Gynllun Pensiwn Uwch Weithredwyr y Post Brenhinol a'r cronfeydd cronedig yn ei FURBS iddo. Roedd y cyfansymiau hyn yn £11,064 a £285,283 gros yn ôl eu trefn. Ad-dalwyd £164,360 iddo hefyd, sef Dyfarniadau Bonws, a oedd wedi'u rhoi yn y CCHD i gydnabod bonysau blynyddol 2002-03 a 2003-04 a ostyngwyd gan swm cyfartal.

Penodiadau allanol Cyfarwyddwyr Gweithredol
Gall Cyfarwyddwyr Gweithredol gadw ffioedd o'u Cyfarwyddiaethau. Dangosir y ffioedd a gedwir gan Gyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer Cyfarwyddiaethau Anweithredol yn y tabl isod:

		2005	2004
	Cyfarwyddiaeth	£	£
Marisa Cassoni [1]	Severn Trent ccc	42,378	42,300
David Mills [2]	Camelot Group ccc	dim	dim

[1] Telir £3,900 (2004 £2,800) o'r ffi agregol ar ffurf cyfranddaliadau Severn Trent ccc.

[2] Mewn cysylltiad â'i waith fel Cyfarwyddwr Camelot Group ccc a enwebwyd gan y Post Brenhinol

Pensiynau
Fel rheol, mae'r Grŵp yn cynnig aelodaeth o Gynllun Pensiwn Uwch Weithredwyr y Post Brenhinol (RMSEPP) i'w brif swyddogion. Ceir manylion am y RMSEPP yn nodyn 19 i'r cyfrifon. Cynllun buddsoddion pensiwn galwedigaethol cyflog terfynol a gymeradwyir gan y Cyllid Gwladol yw'r Cynllun. Mae'r cynllun yn rhoi dwy ran o dair o gyflog pensiynadwy ar yr oedran ymddeol arferol, yn atebol i'r gwasanaeth pensiynadwy angenrheidiol a chap enillion y Cyllid Gwladol. Mae'r taliadau pensiwn yn cynyddu'n flynyddol yn unol â Mynegrif Prisiau Adwerthol (MPA), yn atebol i'w gapio mewn rhai achosion. Mae'r pensiynau hefyd yn daladwy i ddibynyddion ar farwolaeth yr aelod ac mae swm un taliad yn daladwy petai'r unigolyn yn marw tra'n gwasanaethu.

I'r uwch weithredwyr y mae eu haelodaeth o'r RMSEPP yn cael ei gyfyngu gan y cap enillion, gwneir darpariaethau pensiwn drwy gyfuniad o gynllun y Cwmni a'r *FURBS* neu gyfwerth. Mae cyfraddau cyfraniad gros y cyflogwr yn amrywio rhwng 25% a 55% o'r tâl sylfaenol yn uwch na'r cap enillion. Mae'r Cwmni wedi darparu ar gyfer trefniadau pensiwn ymddeol ar gyfradd o 40% ar gyfer Adam Crozier; 55% ar gyfer Marisa Cassoni a 40% ar gyfer David Burden o'r 1 Gorffennaf 2004. Sefydlwyd cronfa bensiwn wrth gefn ar gyfer Tony McCarthy i ddarparu'r pensiwn ymddeol llawn, gan gynnwys y pensiwn oddi wrth gynllun pensiwn ei gyn-gyflogwr, sef dwy ran o dair o'r cyflog sylfaenol ar yr oedran ymddeol arferol. £1,209,573 (2004 £734,191) yw cyfanswm y ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer Adam Crozier, Marisa Cassoni, Tony McCarthy a David Burden. At hyn, mae David Mills yn derbyn ychwanegiadau ariannol o 24.2% o'i gyflog sylfaenol yn is na'r cap pensiwn a 55% o'i gyflog sylfaenol yn uwch, gan roi cyfanswm o £134,272 (2004 £84,358).

Mae'n rhaid datgelu gwerth trosglwyddo pensiynau'r Cyfarwyddwyr o dan ddau ofyniad gwahanol:

- Rheolau Rhestru'r Gyfnewidfa Stoc: mae'r gofynion yr un peth â'r hyn a ddatgelwyd yng nghyfrifon y llynedd a bwriedir iddynt ddangos y cynnydd yng ngwerth buddion cronedig y Cyfarwyddwyr yn ystod y cyfnod. Mae'r gwerth trosiannol yn cael ei gyfrifyddu ar sail cyngor actiwaraidd yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Actiwaraidd GN11 ac mae'n eithrio cyfraniadau'r Cyfarwyddwyr; a
- Rheoliadau Adrodd ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr 2002: diben hwn yw asesu'r newid mewn gwerthoedd trosiannol yn ystod y flwyddyn, gan gymryd y symudiad yn amgylchiadau'r farchnad fuddsoddi i ystyriaeth. Gallai gostyngiad yn y gwerthoedd marchnadol beri symudiad negyddol yn y gwerthoedd trosglwyddo.

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo a ddatgelir yn cynrychioli dyled bosibl y cynllun pensiwn yn hytrach nag unrhyw daliad sy'n ddyledus i'r unigolyn ac ni ellir ei agregeiddio'n ystyrlon â thaliad blynyddol gan nad yw'n arian y mae gan yr unigolyn hawl i'w dderbyn.

Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Y canlynol oedd hawliadau pensiwn y Cyfarwyddwyr (o dan Reolau Rhestru'r Gyfnewidfa Stoc) ar ddiwedd y flwyddyn:

	Oed	Budd-dâl cronedig cynyddol ar 27 Mawrth 2005 £000	Cynnydd mewn buddion cronedig yn ystod cyfnod * £000	Cynnydd mewn buddion cronedig yn ystod y cyfnod (net chwyddiant)* £000	Gwerth trosiannol* y cynnydd heb gyfraniadau'r Cyfarwyddwyr £000
Cyfarwyddwyr Gweithredol					
Adam Crozier	41	53	5	3	15
David Mills	61	5	2	2	24
Marisa Cassoni	53	116	5	2	19
Tony McCarthy	49	17	8	8	61
David Burden[1]	58	8	3	3	36

* Ar wahân i unrhyw godiadau a oedd yn codi o fewn-drosglwyddo hawliadau pensiwn a gronnwyd gyda chyflogwyr blaenorol.

[1] Buddion a gronnwyd ers ei benodiad ar 1 Gorffennaf 2004.

Ymddiswyddodd Elmar Toime ar 16 Tachwedd a chymrodd ad-daliad o'i gyfraniadau gweithiwr.

	Oed	Gwerth trosiannol ar 29 Mawrth 2004 neu ar ddyddiad penodi i'r Bwrdd petai'n ddiweddarach £000	Â'r mewn-drosglwyddiadau a dderbyniwyd £000	Is-gyfanswm £000	Gwerth trosiannol ar 27 Mawrth 2005 £000	Symudiad yn y cyfnod heb gyfraniadau'r Cyfarwyddwyr £000
Cyfarwyddwyr Gweithredol						
Adam Crozier	41	286	-	286	333	41
David Mills	61	58	-	58	90	26
Marisa Cassoni	53	1,225	-	1,225	1,394	169
Tony McCarthy	49	76	-	76	159	70
David Burden[1]	58	89	-	89	132	38

[1] Buddion a gronnwyd ers ei benodiad ar 1 Gorffennaf 2004.

Mae Marisa Cassoni, Tony McCarthy a David Mills hefyd ar sail 1/60ain o ganlyniad i fudd-daliadau cyflogwyr blaenorol a gadwyd. Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill yn aelodau o RMSEPP ar sail 1/30ain.

Trwy Orchymyn y Bwrdd

Jonathan Evans
Ysgrifennydd y Cwmni
16 Mai 2005

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae cyfraith y Cwmni yn mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan roi darlun teg a chywir o fusnes y Cwmni a'r Grŵp ac o elw a cholled y Grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio'n gyson;
- wneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth; a
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifeg sy'n berthnasol, yn atebol i unrhyw wahaniaethau pwysig a ddatgelir ac a eglurir yn y cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu iawn yn cael eu cadw sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cwmni a'r Grŵp, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod asedion y Grŵp yn cael eu diogelu ac am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i aelodau Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 27 Mawrth 2005, gan gynnwys cyfrif elw a cholled y Grŵp, mantolenni'r Grŵp a'r Cwmni, datganiad llif arian y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, datganiad y Grŵp o'r holl enillion a'r colledion cydnabyddedig a chysoniad o'r symudiadau yng nghronfeydd cyfranddalwyr y Grŵp, y polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau 1 i 23 perthnasol. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi ar sail y polisïau cyfrifyddu a amlinellir yng nghyswllt hynny. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr a ddisgrifir fel adroddiad archwiliedig.

Adroddiad i aelodau penodol y Cwmni, fel corff, yw hwn, yn unol ag adran 235 o Ddeddf Cwmnïau 1985. Rydym wedi gwneud ein harchwiliad er mwyn hysbysu aelodau'r Cwmni am y materion y mae'n ofynnol i ni ddatgan iddynt mewn Adroddiad Archwilio ac i ddim diben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn honni, ein bod yn gyfrifol i unrhyw un ar wahân i'r Cwmni, ac i aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau yr ydym wedi'u ffurfio.

Cyfrifoldebau priodol y Cyfarwyddwyr a'r archwilwyr
Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y datganiadau ariannol y mae angen eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig a'r safonau cyfrifeg a amlinellir yn y Datganiad am gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r datganiadau ariannol. Y Cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr hefyd.

Archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr sydd i'w archwilio, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig, yw ein cyfrifoldeb ni.

Rydym yn adrodd a yw'r datganiadau ariannol, yn ein barn ni, yn rhoi darlun teg a chywir ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr sydd i'w archwilio, wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 1985. Rydym hefyd yn dweud wrthych os yw Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yn ein barn ni, yn anghyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelwyd y wybodaeth a nodir gan y gyfraith am daliadau'r Cyfarwyddwyr a thrafodion gyda'r Grŵp.

Rydym yn archwilio a yw'r Datganiad Rheolaeth Gorfforaethol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Cwmni â naw darpariaeth Cod Cyfunol FRC 2003 a enwir ar gyfer ein hadolygiad gan Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ac rydym yn adrodd os nad ydyw. Nid oes angen i ni ystyried a yw datganiadau'r Bwrdd ar reolaeth fewnol yn cynnwys yr holl risgiau a'r rheolaethau, na llunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau Llywodraethu Corfforaethol y Grŵp na'i weithdrefnau risg a rheolaeth.

Rydym yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y rhan nas archwiliwyd o'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr, Datganiad y Cadeirydd, Adolygiad Gweithredol ac Ariannol a Datganiad Rheolaeth Gorfforaethol. Rydym yn ystyried yr effaith i'n hadroddiad petaem yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiannau amlwg neu anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail y farn archwilio
Gwnaethom ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr sydd i'w archwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r barnau a wneir gan y Cyfarwyddwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp, yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn cael eu datgelu'n ddigonol.

Roeddem wedi cynllunio ac wedi gwneud ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddem yn eu hystyried yn angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth i ni i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr i'w harchwilio heb unrhyw gamfynegiannau pwysig, naill ai trwy dwyll neu unrhyw afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr i'w harchwilio.

Barn
Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cwmni a'r Grŵp ar 27 Mawrth 2005 ac o elw'r Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau'r Cyfarwyddwyr i'w harchwilio wedi'u paratoi yn gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985.

Ernst & Young LLP
Archwilydd Cofrestredig
Llundain
16 Mai 2005

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r polisïau cyfrifyddu a ganlyn yn berthnasol drwy'r Grŵp:

Blwyddyn ariannol
Mae'r flwyddyn ariannol yn diweddu ar y Sul diwethaf ym Mawrth, ac yn unol â hynny, mae'r cyfrifon hyn ar gyfer y 52 wythnos a ddaeth i ben ar 27 Mawrth 2005
(52 wythnos a ddaeth i ben ar 28 Mawrth 2004).

Sail y paratoi
Paratowyd y cyfrifon ar dudalennau 39 i 67 yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol o dan y confensiwn costau cyfrifyddu hanesyddol a gofynion Deddf Cwmnïau 1985, ar wahân i'r buddsoddiadau mewn gwarannau eurymylog y Llywodraeth fel a ddisgrifir yn y polisi cyfrifyddu buddsoddiadau asedion cyfredol.

Nid yw Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Cwmni) wedi cyflwyno ei gyfrif elw a cholled ef ei hun, fel a ganiateir gan Ddeddf Cwmniau1985 a230(3). Er hynny, datgelir canlyniadau'r Cwmni ar gyfer y flwyddyn yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

Nid yw'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu wedi cyhoeddi unrhyw Safonau Adrodd Ariannol newydd sy'n effeithio ar baratoi'r cyfrifon hyn.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r safon gyfrifeg gyfredol, SSAP 24 cyfrifo ar gyfer costau pensiwn. Mae'r Grŵp hefyd wedi mabwysiadu trefniadau trosglwyddo'r safon gyfrifyddu pensiynau ddiweddaraf, Buddion Ymddeol FRS 17, a ddatgelir yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

Mae Grŵp y Post Brenhinol yn agored i'r risg o gael ei ddirwyo gan ei Reolydd diwydiannol ac o orfod talu iawndal i gwsmeriaid penodol, o ganlyniad i fethu â chyrraedd y targedau gweithredol a osodir gan y Rheolydd yn nhrwydded y Cwmni. Y Rheolydd fydd yn penderfynu ar swm y dirwyon a'r iawndaliadau hynny wedi iddo dderbyn sylwadau pellach y Cwmni, ac nid oes unrhyw wybodaeth bellach yn cael ei datgelu gan y gallai hynny niweidio canlyniad y broses.

Roedd gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig asedion net o £48m ar 27 Mawrth 2005 ac mae'n parhau i golli arian. I fod yn ddichonadwy yn y tymor hir, datblygir meysydd busnes proffidiol newydd yn lle cyfraniad coll yr incwm o fudd-daliadau. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig, felly, yn dibynnu ar gefnogaeth ariannol barhaol gan y rhian gwmni, Daliadau'r Post Brenhinol ccc ar hyn o bryd.

Cytunwyd ar hyd at £300m ar gyfre y rhwydwaith gwledig hyd at Fawrth 2008, yn amodol ar broses Cliriad y Wladwriaeth sydd heb ei chwblhau.

Cwblhaodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig drafodaethau gyda'i riant, ei riant yn y pen draw a'r Llywodraeth i ddarparu cyfraniadau cyfalaf ychwanegol ar gyfer anghenion tymor byr gwerth £145m hyd at Fawrth 2007. Wedi hynny, bydd angen arian ychwanegol i ailariannu gweithrediadau'r cwmni, gan gynnwys y cyfleusterau cyfalaf gweithredol presennol o £1.15 biliwn, a fydd yn aeddfedu ym Mawrth 2010.

Fel rhan o'r trafodaethau hyn mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi cychwyn ar broses gyda'i riant, ei riant yn y pen draw a'r Llywodraeth i adolygu goblygiadau ariannu dychwelyd y busnes i broffidioldeb ac anghenion cyfalaf y cwmni. Er mai newydd gychwyn mae'r trafodaethau hyn, ar ôl ystyried yn ofalus mae Cyfarwyddwyr Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn hyderus y bydd y busnes yn medru cyflawni ei rwymedigaethau yn y dyfodol pan ddaw'r amser i wneud hynny.

Mae Cyfarwyddwyr Swyddfa'r Post Cyfyngedig o'r farn ei bod yn briodol i'w gyfrifon gael eu paratoi fel petai'n gwmni gweithredol o gymryd:

- bod y £300m o ariannu gwledig yn derbyn cliriad Cymorth Gwladol priodol;
- y bydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn cyrraedd ei dargedau refeniw a gwariant; a
- bod ateb boddhaol ar gyfer anghenion ariannu tymor hir Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn cael ei gyflawni gyda'i riant, ei riant yn y pen draw a'r Llywodraeth o fewn amserlen gytunedig.

Ar sail y trefniadau uchod, mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn ei bod yn briodol cynnwys Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn y cyfrifon cyfunol fel cwmni gweithredol.

Sail y cydgyfnerthiad
Mae'r cyfrifon yn cydgyfnerthu Daliadau'r Post Brenhinol ccc a'i is-gwmnïau.

Mae'r endidau, ar wahân i'r is-gwmnïau, y mae gan y Grŵp fuddiant cyfranogol ynddynt, ac y mae'r Grŵp yn dylanwadu'n sylweddol ar eu polisïau gweithredu ac ariannol, yn cael eu trin fel cyfranogion, neu fel cyd-fentrau pan fydd y Grŵp yn gweithredu cyd-reolaeth.

Mae'r Grŵp yn gweithredu drwy unedau busnes sy'n defnyddio gwasanaethau ei gilydd er mwyn cymryd mantais o synergedd y Grŵp, gan dalu sylw i'r dibyniaethau cilyddol sydd rhyngddynt. Mae'r costau rhyng-fusnes yn cydnabod y dibyniaethau hyn. Cadw rheolaethau i sicrhau cydlyniad ag egwyddorion prisio priodol yw polisi'r Bwrdd.

Trosiant
Mae'r trosiant yn cynnwys y refeniw a dderbynnir yn uniongyrchol gan gwsmeriaid fel y caiff ei addasu ar gyfer asesiad o'r stampiau rhagdaledig a gwerthiannau mesuryddion sydd yn parhau yn nwylo'r cyhoedd. Nid yw'r trosiant yn cynnwys TAW.

Ni ystyrir bod gwahaniaeth mawr rhwng trosiant yn ôl tarddiad a chyrchfan.

Ewyllys Da
Ewyllys Da sy'n deillio o gaffaeliadau, sef gormodedd gwerth teg yr ystyriaeth dros werth teg yr asedion net penodol ar wahân a gaffaelwyd, yn cael ei gyfalafu a'i amorteiddio ar sail llinell syth dros ei fywyd economaidd tybiedig o 20 mlynedd neu, lle y bo trefniadau cytundebol yn berthnasol, dros hyd y cytundeb. Caiff ei adolygu o ran amhariad ar derfyn y flwyddyn ariannol lawn gyntaf wedi'i gaffael ac fel y bo'n briodol wedi hynny. Gellir cael manylion pellach ar ewyllys da yn nodyn 7 i'r cyfrifon.

Asedion diriaethol sefydlog
Caiff asedion diriaethol sefydlog eu cydnabod ar gost, gan gynnwys costau y gellir eu priodoli'n uniongrychol i ddod â'r ased i gyflwr gweithio sy'n briodol ar gyfer ei ddefnydd.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Darparir ar gyfer dibrisiant asedion diriaethol sefydlog ar sail llinell syth trwy gyfeirio at y gost wreiddiol ac at fywyd economaidd defnyddiol gweddilliol yr asedion ac amcangyfrif o'u gwerth gweddilliol. Y canlynol yw'r bywyd a'r bywyd gweddilliol a roddir i brif gategorïau'r asedion diriaethol sefydlog:

	Oes gyfartalog sy'n weddill	Amrediad bywyd yr asedion
Tir ac adeiladau:		
tir rhydd-ddaliadol	heb ddibrisio	heb ddibrisio
adeiladau rhydd-ddaliadol	14 blynedd	hyd at 50 mlynedd
tir ac adeiladau prydlesol	9 mlynedd	Cyfnod byrraf y brydles, 50 mlynedd neu'r oes ddefnyddiol a amcanir sy'n weddill
Offer a pheiriannau	5 mlynedd	3 – 15 mlynedd
Cerbydau modur a threlars Motor	3 blynedd	1 – 12 mlynedd
Gosodion ac offer	2 flynedd	2 – 15 mlynedd

Gwneir adolygiadau amhariad o asedion sefydlog pan ddangosir bod amhariad yn unol â diffiniad FRS 11 Amhariad asedion sefydlog ac ewyllys da. Gellir gweld manylion pellach ar asedion diriaethol sefydlog yn nodyn 8 i'r cyfrifon.

Prydlesu a hurbwrcasu
Mae asedion a brynir o dan brydlesi ariannol, neu gytundebau hurbwrcasu, yn cael eu cyfalafu a'u trin fel asedion diriaethol sefydlog. Mae dibrisiant yn cael ei gynnwys yn unol â hynny ac mae elfen gyfalaf rhentu yn y dyfodol yn cael ei gynnwys oddi fewn y credydwyr. Mae'r llog ar y fath gytundebau yn cael ei godi ar y cyfrif elw a cholled dros gyfnod y cytundeb ac mae'n cynrychioli tâl sy'n berthnasol i gyfran yr ad-daliadau cyfalafol sydd heb eu clirio. Mae'r prydlesi eraill i gyd yn cael eu hystyried fel prydlesi gweithredol a chodir rhent ar y cyfrifon elw a cholled am gyfnod y brydles.

Buddsoddiadau asedion sefydlog
Nodir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau, cyd-fentrau a chyfranogion o fewn cyfrifon y Cwmni fel cost ar ôl tynnu darpariaeth ar gyfer amhariad, ac fel gwerth ased net ar gyfer cwmnïau a ffurfiwyd yn fewnol.

Mae buddsoddiadau mewn cydfentrau a chyfranogion yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y Grŵp gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros a dull cyfrifyddu ecwiti yn ôl eu trefn, er mwyn cynnwys cyfran y Grŵp o'u helw neu eu colled yng nghyfrif elw a cholled y Grŵp, a chofnodi cyfran y Grŵp o asedion net pob cyfranogwr a chydfentrau, ar fantolen y Grŵp. Nodir y buddsoddiadau net eraill ar gost ar ôl tynnu'r ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Gellir gweld manylion pellach ar fuddsoddiadau asedion sefydlog yn nodyn 9 i'r cyfrifon.

Stociau
Mae stociau yn cynnwys lifrai, beiciau a deunydd ysgrifennu, a stociau adwerthu yn achos Gwasanaethau Cownteri. Cedwir yr holl stoc ar y gost isaf a'u gwerth net sylweddoladwy.

Buddsoddiadau asedion cyfredol
Mae gwarannau eurymylog y Llywodraeth, a ddelir fel asedion cyfredol, yn cael eu nodi ar y gwerth marchnadol ar ddyddiad y fantolen ac mae'r gwahaniaeth rhwng y gost a'r gwerth marchnadol yn cael ei drosglwyddo i'r cyfrif elw a cholled. Mae'r dull hwn yn wahanol i reolau cyfrifyddu'r DG, sy'n nodi bod yn rhaid credydu'r elw nas gwireddwyd i gronfa ailbrisio. Ym marn y Cyfarwyddwyr, roedd yn rhaid gwneud yr hyn a wnaethpwyd er mwyn dangos darlun teg a chywir. Mae'r dulliau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn rhoi adlewyrchiad tecach o elw'r buddsoddiad. Mae'r cyfan o'r buddsoddiadau asedion cyfredol eraill yn cael eu trin yn unol â rheolau cyfrifyddu safonol y DG. Adneuon tymor byr yn bennaf gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu Awdurdodau Lleol yw'r holl fuddsoddiadau'r asedion cyfredol eraill, cedwir y cyfan ohonynt ar gost hanesyddol.

Gellir cael manylion pellach ar fuddsoddiadau asedion cyfredol yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

Treth ohiriedig
Yn gyffredinol rhoddir y dreth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau amseru ar ddyddiad y fantolen, ar y cyfraddau perthnasol disgwyliedig pan fydd y dyledion treth (neu'r ased) yn crisialu, ar sail cyfraddau treth a chyfraith wedi'u gweithredu'n sylweddol. Mae gwahaniaethau yn codi o ran yr amseru gan fod eitemau o incwm a gwariant wedi'u cynnwys yn y cyfrifiannau treth o gyfnodau gwahanol i'r rhai y maent yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon.

Ni chaiff treth ohiriedig ei chydnabod yn yr achosion a ganlyn:

- ar enillion o werthu asedion sefydlog pan, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, y bydd yn fwy tebygol na pheidio y bydd yr enillion trethadwy yn cael eu trosglwyddo i asedion adleoledig ac ond yn cael eu rhoi ar y cyfrif treth pan fydd ymrwymiad i gael gwared ar yr asedion adleoledig hynny;
- ar enillion annychweledig is-gwmnïau a chyfranogion pan nad oes ymrwymiad i ddychwelyd yr enillion hynny; a
- chaiff asedion treth gohiriedig eu cydnabod ond i'r graddau y bo'r Cyfarwyddwyr yn ystyried ei fod yn fwy tebygol na pheidio y ceir elw trethadwy addas y gellir tynnu'r gwahaniaeth amseru sylfaenol ohono yn y dyfodol.

Nid yw asedion treth gohiriedig a dyledion yn cael eu diystyru. Gellir cael manylion pellach ar dreth ohiriedig yn nodiadau 6 a 15 i'r cyfrifon.

Pensiynau a buddion ôl-ymddeol eraill
Mae aelodaeth y cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn agored i'r rhan fwyaf o weithwyr parhaol y Grŵp yn y DG. Mae holl aelodau'r cynlluniau mantais diffiniedig yn cael eu cytundebu allan o'r rhan sy'n ymwneud ag enillion y cynllun pensiwn Gwladol. Mae is-gwmnïau tramor yn gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer darparu pensiynau a buddion ôl-ymddeol eraill.

Ariannir y cynllun buddion diffiniedig ar y sail bod y cyfraniadau gwasanaeth cyfredol cyfunol sy'n daladwy gan y gweithwyr a'r cyflogwyr yn ddigon i dalu cost y buddion a ddisgwylir i gronni yn y dyfodol ar gyfer yr aelodau. Cyfrifir y gost i'r cyfrif elw a cholled er mwyn taenu'r gwahaniaethau o'r gost arferol ac i amorteiddio'r gweddill neu'r diffyg dros fywydau gwasanaethu gweddilliol y gweithwyr. Cedwir asedion y cynlluniau mewn cronfeydd a weinyddir gan ymddiriedolwyr gwahanol.

Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Gwerthusir y cynlluniau buddion diffiniedig gan actiwariaid proffesiynol cymwysedig annibynnol ar gyfnodau heb fod yn hwy na thair blynedd fel rheol, fel a bennir gan yr Ymddiriedolwyr. Mae'r costau cyfrifyddu pensiwn yn adlewyrchu'r tybiaethau rhagfynegi gorau yn unol â SSAP 24, ond mae'r trefniadau ariannu yn defnyddio tybiaeth fwy gofalus ar gyfer yr enillion ar fuddsoddiadau i asesu sefyllfa ariannol Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol (RMPP). O ganlyniad mae'r taliadau arian parod yn uwch na'r cyfrifon a godwyd ar gyfer y RMPP. Mae'r gwahaniaeth yn cael ei drin drwy ragdaliad pensiynau hir dymor yn y fantolen. Mae manylion pellach ar bensiynau a buddion ymddeol eraill yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

Ymchwil a datblygiad
Mae'r gwariant ar ymchwil a datblygiad yn cael ei ddileu yn y flwyddyn gyntaf y mae'n digwydd. Gellir gweld manylion pellach yn nodyn 3 i'r cyfrifon.

Arian tramor
Cofnodir y gweithrediadau arian tramor yn ôl y gyfradd sy'n rheoli ar ddyddiad y gweithrediadau (neu ar gyfradd gytunedig os yw'r gweithrediad yn dod o dan gytundeb arian tramor at ymlaen). Mae asedion a dyledion ariannol a enwir mewn arian tramor yn cael eu haildrosi ar y gyfradd gyfnewid sy'n rheoli ar ddyddiad y fantolen (neu ar gyfradd briodol y cytundeb at ymlaen). Trosglwyddir yr holl wahaniaethau i'r cyfrif elw a cholled ac eithrio'r gwahaniaethau ar fenthyciadau arian tramor, a ddefnyddir i ariannu neu i ymddiogelu yn erbyn buddsoddiadau ecwiti tramor. Trosglwyddir y rhain yn syth i gronfeydd wrth gefn ynghyd â'r gwahaniaethau cyfnewid ar werth daliadol y buddsoddiadau perthnasol. Caiff y taliadau a'r credydau a briodolir i'r gwahaniaethau cyfnewid ar y benthyciadau hynny eu trin yn y cronfeydd wrth gefn hefyd. Mae cyfrifon yr is-gwmnïau tramor yn cael eu trosi ar y gyfradd gyfnewid gyfartalog ar gyfer cyfnod y symiau elw a cholled, ac yn ôl y gyfradd gyfnewid sy'n rheoli ar ddyddiad y fantolen ar gyfer yr asedion net. Trosglwyddir y gwahaniaethau o ganlyniad i'r trosiad i'r cronfeydd wrth gefn.

Offerynnau ariannol
Mae'r Grŵp yn defnyddio cytundebau arian tramor at ymlaen i leihau fod yn agored i gyfraddau cyfnewid arian tramor. Bod ei offerynnau deilliadol yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ymddiogelu pan fodlonir y meini prawf a ganlyn, yw polisi'r Grŵp:

- mae'n rhaid bod yr offeryn yn berthnasol i asedion neu ddyledion arian tramor sy'n debygol, a bod eu nodweddion wedi'u nodi;
- mae'n rhaid iddo ymwneud â'r un arian â'r eitem a ymddiogelir; ac
- mae'n rhaid iddo leihau risg symudiadau arian tramor ar weithrediadau'r Grŵp.

Defnyddir y cyfraddau ymrwymedig i gofnodi'r eitem a ymddiogelir. O ganlyniad, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn enillion neu golledion cyfnewid tramor ar yr asedion a'r dyledion ariannol perthnasol. Lle defnyddir yr offeryn i ymddiogelu trafodion neilltuedig neu debygol yn y dyfodol, nid yw'r enillion na'r colledion yn cael eu cydnabod hyd nes y bydd y trafodion yn digwydd.

At hyn, defnyddir cynhyrchion deilliadol tros y cownter i reoli'r nwyddau a'r risgiau cyfnewid arian tramor sy'n gysylltiedig a'r polisi prynu tanwydd. Gellir cael manylion pellach ar yr offerynnau ariannol yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

Cyfrif elw a cholled y Grŵp

am y blynyddoedd a ddiweddodd 27 Mawrth 2005 a 28 Mawrth 2004

		2005			2004		
	Nodyn	**Cyn Eitemau eithriadol £m**	**Eitemau eithriadol (nodyn 4) £m**	**Cyfanswm £m**	Cyn Eitemau eithriadol £m	Eitemau eithriadol (nodyn 4) £m	Cyfanswm £m
Trosiant: trosiant Grŵp a chyfran o gydfentrau		**9,080**	**-**	**9,080**	8,768	-	8,768
Llai: cyfran o drosiant cydfentrau		**(124)**	**-**	**(124)**	(135)	-	(135)
Trosiant	1	**8,956**	**-**	**8,956**	8,633	-	8,633
Costau:		**(8,591)**	**(277)**	**(8,868)**	(8,582)	(64)	(8,646)
Costau Staff	2/4	**(5,038)**	**(252)**	**(5,290)**	(4,888)	(68)	(4,956)
Dibrisiant ac amorteiddiad	3	**(156)**	**-**	**(156)**	(195)	-	(195)
Amhariad	3/4	**-**	**(23)**	**(23)**	-	(41)	(41)
Costau gweithredu eraill	3/4	**(3,397)**	**(2)**	**(3,399)**	(3,499)	45	(3,454)
Elw/(colled) gweithredu'r Grŵp	1/3	**365**	**(277)**	**88**	51	(64)	(13)
Cyfran o elw gweithredu mewn cydfentrau		**34**	**-**	**34**	23	-	23
Cyfran o elw gweithredu gyda chyfranogion		**-**	**-**	**-**	14	-	14
Cyfanswm elw gweithredu: Grŵp a chyfran o gydfentrau a chyfranogion		**399**	**(277)**	**122**	88	(64)	24
Elw net arasedion sefydlog diriaethol	4	**-**	**70**	**70**	-	67	67
Colled o waredu isymgymeriadau	4	**-**	**(3)**	**(3)**	-	(3)	(3)
Elw ar weithrediadau cyffredin cyn llog		**399**	**(210)**	**189**	88	-	88
Llog net derbyniadwy	5	**18**	**-**	**18**	17	-	17
Elw ar weithrediadau cyffredin cyn treth		**417**	**(210)**	**207**	105	-	105
Treth	6			**28**			(98)
Elw a gadwyd am y flwyddyn ariannol				**235**			7

Datganiad y Grŵp o enillion a cholledion cydnabyddedig

am y blynyddoedd a ddiweddodd 27 Mawrth 2005 a 28 Mawrth 2004

	2005 £m	2004 £m
Elw/(colled) am y flwyddyn ariannol ac eithrio cyfran o'r elw mewn cydfentrau a chyfranogion	**201**	(30)
Cyfran o elw cydfentrau'r flwyddyn	**34**	23
Cyfran o elw cyfranogion y flwyddyn	**-**	14
Elw am y flwyddyn ariannol	**235**	7
Gwahaniaethau cyfnewid ar aildrosi asedion net	**8**	(3)
Enillion ar weithrediadau cydfentrau nas wireddwyd	**-**	46
Cyfanswm enillion anghydnabyddedig am y flwyddyn ariannol	**243**	50

Nid oes datganiad o enillion a cholledion hanesyddol gan fod y cyfrifon yn cael eu cynhyrchu dan y confensiwn cyfrifyddu costau hanesyddol.

Cysoni symudiadau yng nghronfeydd cyfranddalwyr y Grŵp

	Nodyn	**2005 £m**	2004 £m
Cronfeydd agoriadol y cyfranddalwyr	16	**2,138**	2,088
Cyfanswm enillion cydnabyddedig am y flwyddyn ariannol (gweler uchod)		**243**	50
Cronfeydd cyfranddalwyr wrth gau	16	**2,381**	2,138

Mantolenni

ar 27 Mawrth 2005 a 28 Mawrth 2004

		Grŵp		Cwmni	
	Nodyn	**2005 £m**	2004 £m	**2005 £m**	2004 £m
Asedion sefydlog					
Asedion anniriaethol	7	**144**	123	**-**	-
Asedion diriaethol	8	**1,591**	1,550	**-**	-
Buddsoddiadau:	9	**135**	138	**2,330**	2,146
Cyfran o asedion gros cydfentrau		**80**	139	**-**	-
Cyfran o ddyledion gros cydfentrau		**(39)**	(64)	**-**	-
Cyfran o asedion net cydfentrau		**41**	75	**-**	-
Buddsoddi mewn cyfranogion		**87**	56	**-**	-
Buddsoddiadau eraill		**7**	7	**2,330**	2,146
Cyfanswm asedion sefydlog		**1,870**	1,811	**2,330**	2,146
Asedion cyfredol					
Stociau		**27**	32	**-**	-
Dyledwyr – derbyniadwy o fewn blwyddyn	10	**1,090**	1,171	**-**	-
Dyledwyr – derbyniadwy ar ôl blwyddyn	10	**865**	784	**-**	-
Buddsoddiadau	11	**1,141**	999	**-**	-
Arian yn y banc ac mewn llaw		**890**	1,049	**-**	-
		4,013	4,035	**-**	-
Credydwyr – symiau dyledus o fewn blwyddyn	12	**(2,684)**	(2,590)	**-**	-
Asedion cyfredol net		**1,329**	1,445	**-**	-
Cyfanswm asedion llai dyledion cyfredol		**3,199**	3,256	**2,330**	2,146
Credydwyr – symiau dyledus ymhen dros flwyddyn	13	**(548)**	(543)	**-**	-
Darpariaethau ar gyfer dyledion a thaliadau	15	**(266)**	(575)	**-**	-
Cyfanswm asedion net		**2,385**	2,138	**2,330**	2,146
Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn					
Cyfalaf cyfranddaliadau a alwyd	17	**-**	-	**-**	-
Cyfrif elw a cholled	16	**1,346**	999	**2,330**	2,146
Cronfeydd Post	16	**801**	765	**-**	-
Cronfa'r Rhwydwaith Gwledig	16	**171**	311	**-**	-
Cronfeydd eraill	16	**63**	63	**-**	-
Cronfeydd cyfranddalwyr Ecwiti		**2,381**	2,138	**2,330**	2,146
Elw lleiafrifol ecwiti		**4**	-	**-**	-
Cyfanswm y cyfalaf a ddefnyddiwyd		**2,385**	2,138	**2,330**	2,146

Cymeradwywyd y cyfrifon ar dudalennau 39 i 67 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 16 Mai 2005 ac arwyddwyd ar eu rhan gan:

Allan Leighton
Cadeirydd

Marisa Cassoni
Cyfarwyddwr Ariannol y Grŵp Director

Datganiad llif arian y Grŵp

am y blynyddoedd a ddiweddodd 27 Mawrth 2005 a 28 Mawrth 2004

Cysoni elw gweithredol i'r echlif arian net o weithgareddau gweithredu	Nodyn	**2005 £m**	2004 £m
Elw gweithredol y Grŵp cyn eitemau eithriadol	(c)	**365**	51
Dibrisiant ac amorteiddiad		**156**	195
Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol ac eitemau di-arian eraill		**(486)**	(75)
Gostyngiad mewn stoc		**5**	1
Gostyngiad mewn dyledwyr		**60**	42
Gostyngiad mewn credydwyr		**19**	340
Gostyngiad yng ngweddillion credydwyr		**(444)**	(287)
Gostyngiad mewn darpariaethau		**(126)**	(171)
Taliadau arian ar gyfer gweithredu eitemau eithriadol	(b)	**(255)**	(412)
Echlif arian net o weithrediadau gweithredu		**(220)**	(241)
Datganiad llif arian y Grŵp			
Echlif arian net o weithrediadau gweithredu		**(220)**	(241)
Difidendau a dderbyniwyd gan gydfentrau a chyfranogion		**19**	21
Difidendau a dderbyniwyd gan gydfentrau		10	6
Difidendau a dderbyniwyd gan gyfranogion		9	15
Enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid		**10**	17
Llog a dderbyniwyd		52	52
Llog a dalwyd		(42)	(35)
Treth			
Treth Gorfforaethol a adenillwyd		**13**	12
Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol		**(124)**	(56)
Prynu asedion sefydlog anniriaethol		-	(2)
Prynu asedion sefydlog diriaethol		(219)	(158)
Prynu buddsoddiadau asedion sefydlog		-	(5)
Gwerthu asedion sefydlog diriaethol		95	100
Gwerthu buddsoddiadau asedion sefydlog		-	9
Caffaeliadau a Gwarediadau		**(2)**	25
Prynu isymgymeriadau		(4)	-
Arian net a gaffaelwyd gydag isymgymeriadau	9	6	-
Prynu cyfran gyda chydfentrau a chyfranogion		-	(4)
Talu ystyriaethau gohiriedig yn achos caffaeliadau blynyddoedd blaenorol		(2)	-
Gwaredu isymgymeriadau		-	29
Arian net a waredwyd gydag isymgymeriadau		(2)	-
Echlif arian cyn defnyddio arian ac adnoddau hylifol		**(304)**	(222)
Rheoli adnoddau hylifol			
Symudiad net mewn buddsoddiadau asedion cyfredol	(a)	**(142)**	251
(Echlif)/mewnlif arian net cyn cyllido		**(446)**	29
Cyllido		**287**	(40)
Ad-dalu prydlesi cyllido a chytundebau hur bwrcas	(a)	(34)	(32)
Benthyciadau newydd		325	-
Ad-dalu Benthyciadau		(4)	(8)
Gostyngaid mewn arian yn ystod y cyfnod		**(159)**	(11)

Datganiad llif arian y Grŵp (parhad)

am y blynyddoedd a ddiweddodd 27 Mawrth 2005 a 28 Mawrth 2004

Cysoni llif arian net i'r symudiadau mewn cronfeydd net (gweler nodyn (a))

	2005 £m	2004 £m
Gostyngiad mewn arian yn ystod y cyfnod	**(159)**	(11)
Ad-dalu prydlesi cyllido a chytundebau hur bwrcas	**34**	32
Benthyciadau newydd (y mae £310m yn ymwneud â Swyddfa'r Post Cyfyngedig)	**(325)**	-
Ad-dalu Benthyciadau	**4**	8
Llif arian o reoli adnoddau hylifol (symudiad net mewn buddsoddiadau asedion cyfredol)	**142**	(251)
Newid mewn cronfeydd net oherwydd llif arian	**(304)**	(222)
Symudiadau mewn cronfeydd net yn ystod y cyfnod	**(304)**	(222)
Cronfeydd net agoriadol	**1,451**	1,673
Cronfeydd net wrth gau	**1,147**	1,451

Nodyn i'r datganiad llif arian

(a) Dadansoddiad o'r cronfeydd net

	Ar 29 Mawrth 2004 £m	Llif arian £m	**Ar 27 Mawrth 2005 £m**
Arian yn y banc ac mewn llaw	1,049	(159)	**890**
Benthyciadau dyledus ymhen dros flwyddyn	(507)	1	**(506)**
Benthyciadau dyledus o fewn y flwyddyn	(53)	(322)	**(375)**
Prydlesau ariannol a chytundebau hurbwrcas dyledus ymhen dros flwyddyn	(2)	-	**(2)**
Prydlesau ariannol a chytundebau hurbwrcas dyledus o fewn y flwyddyn	(35)	34	**(1)**
Buddsoddiadau asedion cyfredol	999	142	**1,141**
Cyfanswm	1,451	(304)	**1,147**

(b) Llif arian yn ymwneud â gweithredu eitemau eithriadol a godwyd yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd blaenorol

Echlifau arian net yn ymwneud â'r uchod:

Echlif arian net yn ymwneud â'r canlynol:	**2005 £m**	2004 £m
Eitemau eithriadol y flwyddyn gyfredol	**12**	3
Eitemau eithriadol y flwyddyn flaenorol	**243**	409
Cyfanswm	**255**	412

Mae'r echlif arian o £255m yn cynnwys y £218m ar gyfer darpariaethau eithriadol (a welir yn nodyn 15) a £37m ychwanegol ar gyfer talu dyledion diswyddiad di-arian y flwyddyn flaenorol, a gofnodwyd o fewn credydwyr.

(c) Mae elw gweithrdol y Grŵpo £88m (2004 £13m colled) yn cynnwys £277m o gostau gweithredu eithriadol (costau 2004 £64m) a ychwanegwyd yn ôl i gael elw gweithredu i'r Grŵp cyn eitemau eithriadol o £365m (2004 £51m).

Nodyn i'r cyfrifon

1 Gwybodaeth Gylchrannol

Mae'r Grŵp yn datgan ei ganlyniadau cylchrannol fel a fynnir gan SSAP 25 i ddau ddosbarth o fusnes: Post a Pharseli, a Gwasanaethau Cownter. Yn y dadansoddiadau canlynol, dyrannwyd costau gweithrediadau corfforaethol y Grŵp, sydd yn golygu y gall y canlyniadau a ddangosir isod fod yn wahanol i'r canlyniadau y rhoddir gwybod amdanynt ym mhob cylchran o fewn eu cyfrifon statudol eu hunain.

Dadansoddiad o'r trosiant fesul dosbarth o fusnes	**2005**			2004		
	£m			£m		
	Cyfanswm trosiant	**Trosiant rhwng cylchrannau**	**Trosiant allanol**	Cyfanswm trosiant	Trosiant rhwng cylchrannau	Trosiant allanol
Post a Pharseli	**8,001**	**(21)**	**7,980**	7,678	(22)	7,656
Gwasanaethau Cownter	**1,287**	**(311)**	**976**	1,278	(301)	977
Cyfanswm	**9,288**	**(332)**	**8,956**	8,956	(323)	8,633

Fel a ddangosir uchod, mae nifer o wasanaethau rhyngfusnes – a'r pennaf ohonynt yw Gwasanaethau Cownter a ddarperir gan Swyddfa'r Post ar gyfer y Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide – ar sail taliadau a gyrhaeddir mewn trafodaethau rhwng y busnesau perthnasol.

Dadansoddiad o'r Elw/(colled) weithredol fesul dosbarth o fusnes	**2005**					2004				
	£m					£m				
	Gweithgarwch gweithredol	**Diffygion pensiwn**	**Cyn eitemau eithriadol**	**Eitemau eithriadol**	**Cyfanswm**	Gweithgarwch gweithredol	Diffygion pensiwn	Cyn eitemau eithriadol	Eitemau eithriadol	Cyfanswm
Post a Pharseli	**629**	**(127)**	**502**	**(242)**	**260**	305	(121)	184	(40)	144
Gwasanaethau Cownter	**(126)**	**(11)**	**(137)**	**(35)**	**(172)**	(122)	(11)	(133)	(24)	(157)
Cyfaddasiadau Penwsiwn	**(138)**	**138**	**-**	**-**	**-**	(132)	132	-	-	-
Elw/(colled) weithredol y Grŵp	**365**	**-**	**365**	**(277)**	**88**	51	-	51	(64)	(13)

Dadansoddiad o'r trosiant a'r Elw/(colled) weithredol fesul ardal ddaearyddol	**2005**			2004		
		Elw gweithredol			Elw/(colled) weithredol	
	Trosiant allanol £m	**Cyn eitemau eithriadol £m**	**Ar ôl eitemau eithriadol £m**	Trosiant allanol £m	Cyn eitemau eithriadol £m	Ar ôl eitemau eithriadol £m
Y Deyrnas Gyfunol	**8,040**	**300**	**23**	7,795	20	(18)
Gweddill y Byd (Ewrop yn bennaf)	**916**	**65**	**65**	838	31	5
Cyfanswm	**8,956**	**365**	**88**	8,633	51	(13)

Dadansoddiad o'r asedion net fesul dosbarth o fusnes	**2005**	2004
	£m	£m
Post a Pharseli	**1,930**	1,847
Gwasanaethau Cownter	**327**	160
	2,257	2,007
Cyfran o asedion net cydfentrau	**41**	75
Cyfran o asedion net cyfranogion	**87**	56
Cyfanswm	**2,385**	2,138

Lleolwyd yr holl asedion net ar wahân i £371m (2004 £381m) yn y Deyrnas Gyfunol, a'r gweddill yn Ewrop gan mwyaf.

2 Costau a niferoedd staff

	2005			2004		
	Cyn eitemau eithriadol £m	**eitemau eithriadol £m**	**Cyfanswm £m**	Cyn eitemau eithriadol £m	eitemau eithriadol £m	Cyfanswm £m
Cyflogau	**4,328**	**208**	**4,536**	4,212	14	4,226
Costau budd-daliadau cymdeithasol	**319**	**23**	**342**	301	-	301
Costau Pensiwn (nodyn 19)	**391**	**21**	**412**	375	54	429
Cyfanswm	**5,038**	**252**	**5,290**	4,888	68	4,956

Roedd benthyciad i un swyddog sef £413 (2004 – un swyddog £2,113) yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Ceir manylion am hawliau pensiwn a thaliadau Cyfarwyddwyr yn yr Adroddiad ar Daliadau i Gyfarwyddwyr.

Dyma'r niferoedd o staff, a gyfrifiwyd drwy gyfrif pennau:

	Gweithwyr ar ddiwedd y cyfnod		**Cyfartaledd y gweithwyr**	
	2005	2004	**2005**	2004
Post a pharseli yn y DG	**184,299**	189,221	**183,442**	194,606
Gwasanaethau Cownter yn y DG	**12,145**	13,115	**12,510**	13,590
Isgwmnïau yn y DG sy'n eiddo llwyr	**196,444**	202,336	**195,952**	208,196
Romec Limited	**4,873**	-	**4,892**	-
NDC 2000 Limited	**71**	-	**71**	-
Tramor gan gynnwys GLS	**10,768**	9,974	**10,408**	10,442
Cyfanswm y Grŵp	**212,156**	212,310	**211,323**	218,638

Daeth Romec Limited, NDC 2000 Limited a Szybka Paczka Spolka z.o.o. (a gynhwysir dan Dramor) yn isgwmnïau perchnogaeth rannol yn ystod y flwyddyn (gweler nodyn 9).

	2005	2004
Isbostfeistri ar ddiwedd y flwyddyn	**12,020**	13,575

3 Elw/(colled) weithredol

	2005 £m	2004 £m
Nodir Elw/(colled) weithredol y Grŵp ar ôl codi:		
Dibrisiant ac amorteiddiad:	**156**	195
Dibrisiant ar asedion sefydlog diriaethol sydd yn eiddo	**126**	161
Dibrisiant ar asedion sefydlog diriaethol a ddelir dan brydlesi cyllid a chytundebau hurbwrcas	**21**	24
Amorteiddio asedion sefydlog anniriaethol	**9**	10
Dibrisiant amhariad eithriadol:	**23**	41
Asedion sefydlog diriaethol	**23**	17
Asedion sefydlog anniriaethol	**-**	24
Costau Isbostfeistri	**544**	557
Gwariant ar ymchwil a datblygu	**1**	3
Taliadau prydlesu gweithredu:	**224**	207
Tir ac adeiladau	**131**	119
Cerbydau ac offer	**93**	88
Costau cyrff rheoleiddio:	**20**	17
Postcomm	**10**	7
Postwatch	**10**	10

3 Elw/(colled) weithredol (parhad)

Taliadau archwilwyr	**2005 £000**	2004 £000
Archwilio cyfrifon statudol	**1,686**	1,488
Archwilio cyfrifon rheoleiddiol	**287**	502
Gwasanaethau sicrwydd eraill	**570**	438
Gwasanaethau treth:	**602**	715
Gwasanaethau cydymffurfio	**351**	493
Gwasanaethau ymgynghorol	**251**	222
Cyfanswm taliadau i archwilwyr	**3,145**	3,143

4 Eitemau eithriadol

Mae eitemau eithriadol yn cynnwys eitemau eithriadol gweithredol, a gofnodir o fewn elw/(colled) weithredol y Grŵp, ac eitemau eithriadol di-weithredol, a gofnodir dan elw/(colled) weithredol y Grŵp yn y cyfrif elw a cholled. Amlygir y naill a'r llall ymhellach isod:

	2005 £m	2004 £m
Eitemau eithriadol gweithredol:		
Rhannu Llwyddiant	**(218)**	-
Amhariad ar asedion sefydlog diriaethol	**(23)**	(17)
Amhariad ar ewyllys da'n ymwneud ag isgwmnïau	**-**	(24)
Darparu ar gyfer cytundebau rhwymedigaethus yn ymwneud ag eiddo dros ben	**-**	(17)
Darparu ar gyfer ailstrwythuro'r Cynllun Adnewyddu	**(36)**	(6)
Is gyfanswm yr eitemau eithriadol gweithredol	**(277)**	(64)
Eitemau eithriadol di-weithredol:		
Elw net ar waredu asedion sefydlog diriaethol	**70**	67
Colled ar waredu isymgymeriadau	**(3)**	(3)
Is gyfanswm yr eitemau eithriadol di-weithredol	**67**	64
Cyfanswm	**(210)**	-

Mae £277m y costau gweithredu eithriadol yn cynnwys costau'r cynllun anogaeth Rhannu Llwyddiant sef £218m (2004 £dim), amhariad ar asedion sefydlog diriaethol sef £23m (2004 asedion sefydlog diriaethol oedd £17m ac asedion sefydlog anniriaethol oedd £24m), costau o £dim yn ymwneud â chytundebau rhwymedigaethus yn achos eiddo ar brydles dros ben (2004 £17m) a thaliadau o £36m yn ymwneud â'r Cynllun Adnewyddu Iedled y Grŵp (2004 £6m). Mae'r taliadau o £36m yn cynnwys £34m ar gyfer costau'n ymwneud â gweithwyr a £2m ar gyfer costau gweithredu eraill.

Mae £67m yr elw eithriadol di-weithredol (2004 £64m) yn cynnwys elw o £70m a gyfyd o werthu nifer o eiddo (2004 £67m) a cholled o £3m yn ymwneud â gwarediadau busnes (2004 £3m), sef yn yr achos hwn gwerthu Citipost (Holdings) Limited a'r isgwmnïau a berthyn yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol iddo.

Y (credyd)/taliad treth ar eitemau eithriadol di-weithredol oedd:

	2005 £m	2004 £m
Gwaredu isymgymeriadau	**-**	39
Gwaredu asedion sefydlog diriaethol	**(1)**	(6)
Cyfanswm y (credyd)/taliad treth ar eitemau eithriadol di-weithredol	**(1)**	33

5 Llog net derbyniadwy

	2005 £m	2004 £m
Llog taladwy ar fenthyciadau eraill	**(42)**	(35)
Llog derbyniadwy ar fuddsoddiadau	**60**	52
Cyfanswm y llog derbyniadwy	**18**	17

6 Treth

(a) Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin
Mae'r (credyd)/taliad treth yn cynnwys y canlynol:

	2005 £m	2004 £m
Treth gorfforaethol y DG ar incwm yn ystod y cyfnod	**1**	-
Swm derbyniadwy am ildio colledion i gyfranogion a chydfentrau mewn cysylltiad â gostyngiadau i'r consortiwm	**(14)**	(10)
(Gorddarparu)/ tanddarparu treht yn ystod blynyddodd blaenorol	**(20)**	4
Treth gyfredol y DG	**(33)**	(6)
Treth dramor gyfredol	**12**	6
Treth gyfredol y Grŵp	**(21)**	-
Swm taladwy gan y cydfentrau mewn cysylltiad â gostyngiadau i'r consortiwm	**9**	6
Swm taladwy gan y cyfranogion mewn cysylltiad â gostyngiadau i'r consortiwm	**5**	4
Cyfran o dreth gyfredol y cydfentrau sy'n daladwy	**-**	1
Cyfran o dreth gyfredol y cyfranogion sy'n daladwy	**(2)**	1
Cyfanswm y dreth gyfredol (gweler y tabl isod)	**(9)**	12
Treth ohiriedig y Grŵp	(17)	-
Cyfran o dreth ohiriedig cyfranogion	**(2)**	86
Cyfanswm treth	**(28)**	98

(b) Ffactorau'n effeithio ar y (credyd)/taliad treth gyfredol
Mae'r dreth a asesir ar gyfer y flwyddyn yn wahanol i gyfradd safonol treth gorfforaethol yn y DG sef 30% (2004 30%). Esbonir y gwahaniaethau isod:

	2005 £m	2004 £m
Elw ar weithgareddau cyffredin cyn treth	**207**	105
Elw ar weithgareddau cyffredin wedi'i luosi gan gyfradd safonol treth gorfforaethol y DG sef 30% (2004 30%)	**62**	32
Gostyngiadau gohiriedig ar gyfer amhariad a dibrisiad asedion	**30**	55
Enillion ar waredu eiddo a drosglwyddwyd ymlaen	**(24)**	(23)
Gostyngiadau gohiriedig ar gyfer cyfraniadau pensiwn	**56**	59
Darpariaethau nas tynnir hyd nes codant	**(86)**	(98)
Amhariad ac amorteiddiad ewyllys da	**(5)**	7
Colledion a gostyngiadau eraill nas defnyddiwyd	**7**	9
Defnyddio colledion y flwyddyn flaenorol	**(41)**	(41)
Treth a (orddarparwyd)/danddarparwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol	**(20)**	4
Arall	**12**	8
Cyfanswm treth gyfredol (gweler y tabl uchod)	**(9)**	12

Mae cyfraniadau pensiwn yn gymwys ar gyfer gostyngiadau treth yn ystod y flwyddyn y telir hey. Roedd yr arian a godwyd ar y cyfrif elw a cholled ar gyfer cyfraniadau pensiwn yn uwch na'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

(c) Ffactorau a allai effeithio ar dreth yn y dyfodol

Mae gan y Grŵp asedion treth gohiriedig anghydnabyddedig gwerth £108m (2004 £144m) yn ymwneud â cholledion treth mewn isgwmnïau sydd ar gael i'w gosod yn erbyn elw trethadwy yr isgwmnïau hynny yn y dyfodol. Mae gan y Grŵp asedion treth gohiriedig anghydnabyddedig gwerth £160m (2004 £178m) yn ymwneud yn bennaf â gwahaniaethau amser asedion sefydlog.

Ni chydnabuwyd asedion treth gohiriedig ar gyfer yr eitemau hyn, oherwydd eu bod wedi codi mewn cwmnïau sydd yn gwneud colled neu lle bo amheuaeth ar hyn o bryd ynghylch medru adennill y symiau a lle na ellir defnyddio'r colledion, yn benodol, i'w gosod yn erbyn elw trethadwy yn y dyfodol mewn rhannau eraill o'r Grŵp. Caiff yr asedion treth gohiriedig anghydnabyddedig eu cydnabod yn y dyfodol i'r graddau y disgwylir i elw trethadwy addas fod ar gael.

Mae gan y Grŵp golledion cyfalaf i'w dwyn ymlaen, ac effaith hyn ar dreth fydd tua tua £11m (2004 £12m). Gellir eu gosod yn erbyn enillion cyfalaf yn ystod blynyddoedd i ddod. Mae'r Grŵp wedi dwyn ymlaen enillion cyfalaf, ac effaith hyn fydd cyfanswm o £78m (2004 £88m). Gellir dwyn ymlaen enillion ar asedion cymwys yn ystod y flwyddyn, i'r gwariant a gafwyd ar asedion cymwys newydd yn ystod cyfnod o bedair blynedd yn cychwyn blwyddyn cyn y dyddiad y gwaredir hwy; dengys cynlluniau y ceir gwariant cyfalaf cymwys digonol i fedru dwyn y symiau hyn ymlaen.

7 Asedion sefydlog anniriaethol

Grŵp

COST	Ewyllys da £m	Arall £m	Cyfanswm £m
Ar 29 Mawrth 2004	479	19	498
Symudiad cyfnewid	7	-	7
Caffael busnesau (nodyn 9)	28	-	28
Gwaredu busnes	(33)	-	(33)
Ar 27 Mawrth 2005	**481**	**19**	**500**
AMORTEIDDIAD			
Ar 29 Mawrth 2004	372	3	375
Symudiad cyfnewid	5	-	5
Taliad am y flwyddyn	8	1	9
Gwaredu busnes	(33)	-	(33)
Ar 27 Mawrth **2005**	**352**	**4**	**356**
SWM LLYFR NET			
Ar 27 Mawrth 2005	**129**	**15**	**144**
Ar 29 Mawrth 2004	107	16	123

Mae asedion sefydlog anniriaethol yn cynnwys gwerth prif drwyddedau masnachfraint yn ymwneud â dosbarthu parseli yn yr Eidal.

8 Asedion sefydlog diriaethol

Grŵp

	Tir ac adeiladau						
COST	Rhyddfraint £m	Prydlesi hir £m	Prydlesi byr £m	Peiriannau amrywiol £m	Cerbydau modur £m	Gosodiadau ac offer £m	Cyfanswm £m
Ar 29 Mawrth 2004	1,488	244	457	693	190	779	3,851
Symudiadau cyfnewid	3	-	-	2	-	1	6
Ailddosbarthu	(48)	5	43	-	-	-	-
Ychwanegiadau	84	11	-	47	60	22	224
Ar gaffael isgwmnïau	7	-	-	3	-	1	11
Gwarediadau	(42)	(8)	(24)	(2)	(51)	(5)	(132)
Ar 27 Mawrth 2005	**1,492**	**252**	**476**	**743**	**199**	**798**	**3,960**
DIBRISIANT							
Ar 29 Mawrth 2004	685	139	203	375	136	763	2,301
Symudiadau cyfnewid	1	-	-	1	-	1	3
Ailddosbarthu	(11)	2	9	-	-	-	-
Taliad am y flwyddyn	41	6	26	48	18	8	147
Amhariad	6	2	7	-	4	4	23
Ar gaffael isgwmnïau	-	-	-	-	-	1	1
Gwarediadau	(24)	(4)	(25)	(1)	(47)	(4)	(105)
Ar 27 Mawrth 2005	**698**	**145**	**220**	**423**	**111**	**772**	**2,369**
SWM LLYFR NET							
Ar 27 Mawrth 2005	**794**	**107**	**256**	**320**	**88**	**26**	**1,591**
Ar 29 Mawrth 2004	803	105	254	318	54	16	1,550

Datgelir cyfraddau dibrisiant o fewn polisïau cyfrifyddu. Ni ddarperir dibrisiant ar dir rhyddfraint, sydd yn cynrychioli £144m (2004 £156m) o gyfanswm cost yr eiddo rhyddfraint. Gwerth llyfr net asedion sefydlog diriaethol y Grŵp a ddelir dan gytundebau hurbwrcas a phrydlesi cyllid yw £72m (2004 £86m).

9 Buddsoddiadau asedion sefydlog

Grŵp

	Ar 29 Mawrth 2004 £m	Ailddosbarthu £m	Amorteiddiad £m	Cyfran o'r (golled)/ elw a gadwyd gan gydfentrau/ cyfranogion £m	Ar 27 Mawrth 2005 £m
Buddsoddiadau net gyda chyfranogion	56	38	(3)	(4)	**87**
Cyfran o'r asedion net gyda chyfranogion	31	38	-	(4)	**65**
Ewyllys da mewn cysylltiad â chyfranogion	25	-	(3)	-	**22**
Buddsoddiadau net mewn cydfentrau	75	(48)	-	14	**41**
Cyfran o'r asedion net gyda chydfentrau	73	(47)	-	14	**40**
Ewyllys da mewn cysylltiad â chydfentrau	2	(1)	-	-	**1**
Buddsoddiadau eraill (Gwarannau eurymylog y Llywodraeth)	7	-	-	-	**7**
Cyfanswm	138	(10)	(3)	10	**135**

Mae'r symiau a ddangosir yn y golofn Ailddosbarthu'n ymwneud â'r canlynol:

1. Newid yn statws Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post yn ystod y flwyddyn, (cytundeb gyda'r Bank of Ireland i werthu cyhyrchion gwasanaethau ariannol gyda brand Swyddfa'r Post), o gydfenter i fod yn un o gyfranogion y Grŵp.
2. Newid yn statws Romec Limited yn ystod y flwyddyn, o gydfenter i fod yn un o isgwmnïau'r Grŵp.
3. Newid yn statws Szybka Paczka Spolka z.o.o. ac NDC 2000 Limited, o fod yn gyfranogion i fod yn isgwmnïau i'r Grŵp.

Ailddosbarthu buddsoddiadau asedion sefydlog

Isgwmni	**Cydfenter £m**	**Cyfranogwr £m**	**Isgwmni £m**	**Cyfanswm £m**
Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post	**(44)**	**44**	**-**	**-**
Romec Limited	**(4)**	**-**	**4**	**-**
Szybka Paczka Spolka z.o.o.	**-**	**(5)**	**5**	**-**
NDC 2000 Limited	**-**	**(1)**	**1**	**-**
Cyfanswm	**(48)**	**38**	**10**	**-**

Ceir manylion y prif gydfentrau a chyfranogion yn nodyn 23.

Cwmni	**2005 £m**	2004 £m
Ar 29 Mawrth 2004	**2,146**	2,180
Newid yng ngwerth asedion net yr isymgymeriad	**184**	(34)
Ar 27 Mawrth 2005	**2,330**	2,146

Mae buddsoddiad asedion sefydlog y Cwmni'n cynrychioli gwerth asedion net ei fuddsoddiadau mewn isgwmni.

9 Buddsoddiadau asedion sefydlog (parhad)

(i) Caffaeliadau yn ystod y flwyddyn

Dyma'r endidau a gaffaelwyd:

	Cyddiad y caffaeliad
DGE Firenze	1 Awst 2004
DGE Vicenza	1 Hydref 2004
NDC 2000 Limited[2]	7 Hydref 2004
Romec Limited[1]	22 Rhagfyr 2004
Szybka Paczka Spolka z.o.o.[2]	1 Ionawr 2005

[1] Cyn dod yn isgwmni, roedd Romec Limited yn un o gydfentrau'r Grŵp.

[2] Cyn dod yn isgwmnïau, roedd Szybka Paczka Spolka z.o.o. ac NDC 2000 Limited yn gyfranogion i'r Grŵp.

Gwelir manylion pellach am brif isymgymeriadau eraill yn nodyn 23 i'r cyfrifon.

Defnyddiwyd y dull cyfrifyddu ar gyfer caffael. Nid yw unrhyw gaffaeliadau yn faterol i'r Grŵp ac oni ddangosir yn wahanol gwnaed y datgeliadau canlynol ar sail agregedig.

Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr asedion a'r dyledion canfyddadwy a gaffaelwyd am eu gwerth teg darpariaethol i'r Grŵp, a oedd yn gyson â'u gwerth llyfr.

	Szybka Paczka Spolka z.o.o.	**Arall**	**Cyfanswm**
	£m	**£m**	**£m**
Asedion sefydlog diriaethol	**10**	**1**	**11**
Asedion cyfredl			
Dyledwyr	**3**	**34**	**37**
Arian a banc	**3**	**3**	**6**
Cyfanswm yr asedion	**16**	**38**	**54**
Dyledion			
Credydwyr masnach	**(10)**	**(30)**	**(40)**
Asedion net a gaffaelwyd	**6**	**8**	**14**
Lles lleiafrifol	**-**	**(4)**	**(4)**
Ewyllys da o ganlyniad i gaffael	**19**	**9**	**28**
	20	8	**28**
Cyflawnwyd drwy:			
Cydnabyddiaeth pryniant a dalwyd yn ystod y flwyddyn	**-**	**4**	**4**
Cydnabyddiaeth pryniant ohiriedig	**20**	**4**	**24**
Trosglwyddo gwerth buddsoddiadau mewn cydfentrau/cyfranogion cysylltiedig ar ddyddiad newid statws i isymgymeriad	**5**	**5**	**10**
Gwerth teg yr ystyriaeth	20	8	**28**

Gwnaed y caffaeliadau am arian, yn amodol ar eu haddasu mewn cyfrifon cytuno ar gwblhau.

Nid oedd angen unrhyw addasu ar gyfer alinio polisïau cyfrifyddu.

(ii) Gwarediadau yn ystod y flwyddyn

Ar 10 Rhagfyr 2004, cafodd y Grŵp wared o'i gyfran o 100% yn Citipost (Holdings) Limited. Cyfran o asedion net Citipost (Holdings) Limited y Grŵp ar ddyddiad y gwarediad oedd £dim a'r golled gyffredinol a gafwyd drwy waredu oedd £3m.

10 Dyledwyr

	2005 £m	2004 £m
Derbyniadwy o fewn blwyddyn:		
Debydwyr masnach	**737**	673
Rhagdaliadau pensiwn	**-**	128
Rhagdaliadau eraill ac incwm cronedig	**353**	370
Cyfanswm	**1,090**	1,171

	2005 £m	2004 £m
Derbyniadwy ymhen dros flwyddyn :		
Rhagdaliadau pensiwn	**835**	770
Asedion treth gohiriedig	**16**	-
Debydwyr eraill	**14**	14
Cyfanswm	**865**	784

Mae'r rhagdaliad pensiwn ymhen dros flwyddyn yn ymwneud â gormodedd cronnol y symiau a ariannwyd yng nghynlluniau budd-daliadau diffiniedig y Grŵp dros y symiau a godir i'r cyfrif elw a cholled cyfunol. Mae'r swm o fewn blwyddyn yn cynrychioli cyfraniadau rhagdaledig.

Mae dyledwyr hirdymor eraill yn cynrychioli'n bennaf symiau derbyniadwy gan weithwyr yn achos y fenter cyfrifaduron cartref a lansiwyd yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2003.

11 Buddsoddiadau asedion cyfredol

	2005 £m	2004 £m
Gwarannau eurymylog y Llywodraeth	**134**	131
Adneuon tymor byr y Llywodraeth (Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol)	**575**	583
Adneuon eraill	**432**	285
Cyfanswm	**1,141**	999

Yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol, nodir Gwarannau eurymylog y Llywodraeth o fewn buddsoddiadau asedion cyfredol gyda'r gwerth marchnadol. Y gwahaniaeth rhwng y gost a'r gwerth marchnadol, a drosglwyddwyd i'r cyfrif elw a cholled ar gyfer y buddsoddiadau hyn, oedd colled o £4m (2004 £4m).

O fewn buddsoddiadau asedion cyfredol, mae cyfanswm o fuddsoddiadua gwerth £800m yn ymwneud â'r Gronfa Bost ac fe gyfyngir y defnydd a wneir ohonynt i'r hyn a ganiateir gan y gorchymyn adran 72 a greodd y Gronfa Bost (nodyn 16). Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys adneuon o £549m, sydd yn amodol ar daliad fel gwarant yn erbyn cyfleusterau benthyca'r Adran dros Fasnach a Diwydiant (DTI).

12 Credydwyr – symiau dyledus o fewn blwyddyn

	2005 £m	2004 £m
Benthyciadau (nodyn 14)	**375**	53
Rhwymedigaethau dan brydlesi cyllid a chytundebau hurbwrcas (nodyn 14)	**1**	35
Gweddilion gwasanaethau cleientiaid	**323**	767
Croniadau a chredydwyr masnach	**1,628**	1,377
Taliadau cwsmeriaid ymlaen llaw	**224**	224
Treth gorfforaethol	**-**	10
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	**102**	106
Cydnabyddiaeth ohiriedig (nodyn 14)	**16**	-
Credydwyr eraill	**15**	18
Cyfanswm	**2,684**	2,590

Mae'r Grŵp, drwy ei isgwmni Swyddfa'r Post Cyfyngedig, yn derbyn a dosrannu arian ar ran asiantaethau'r Llywodraeth a chleientiaid eraill i gwsmeriaid drwy ei rwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post®. Dangosir y symiau dyledus i'r partïon hyn fel gweddillion gwasanaethau cleientiaid uchod. Gall maint yr arian a ddelir a nifer y credydwyr cysylltiedig amrywio'n fawr ar ddyddiad pob mantolen.

13 Credydwyr – symiau dyledus ymhen mwy na blwyddyn

	2005 £m	2004 £m
Benthyciadau (nodyn 14)	**506**	507
Rhwymedigaethau dan brydlei cyllid a chytundebau hurbwrcas (nodyn 14)	**2**	2
Cydnabyddiaeth ohiriedig (nodyn 14)	**8**	2
Arall	**32**	32
Cyfanswm	**548**	543

Mae credydwyr hirdymor eraill yn cynrychioli £20m (2004 £22m) yn achos incwm gohiriedig a £12m (2004 £10m) ar gyfer y fenter cyfrifiaduron cartref.

14 Mae benthyciadau'n cynnwys benthyciadau, prydlesi cyllid, cytundebau hurbwrcas a chydnabyddiaeth ohiriedig

	2005				2004			
	Benthyciadau £m	**Prydlesi cyllid/ cytundebau hurbwrcas £m**	**Cydnabyddiaeth ohiriedig £m**	**Cyfanswm £m**	Benthyciadau £m	Prydlesi cyllid/ cytundebau hurbwrcas £m	Cydnabyddiaeth ohiriedig £m	Cyfanswm £m
Symiau dyledus ymhen:								
Blwyddyn neu lai ar gais	**375**	**1**	**16**	**392**	53	35	-	88
Mwy na blwyddyn	**506**	**2**	**8**	**516**	507	2	2	511
Mwy na blwyddyn ond heb fod dros ddwy	**1**	**1**	**8**	**10**	1	-	2	3
Mwy na dwy flynedd ond heb fod dros bump	**2**	**1**	**-**	**3**	-	1	-	1
Mwy na phum mlynedd	**503**	**-**	**-**	**503**	506	1	-	507
Cyfanswm	**881**	**3**	**24**	**908**	560	37	2	599

Dadansoddiad o'r benthyciadau a'r cyfleusterau

	Benthyciad £m	**Cyfleuster pellach £m**	**Cyfanswm y cyfleuster £m**	**Ystod llog/llog cyfartalog y benthyciad %**	**rddiad aeddfedu cyfartalog y benthyciad Blwyddyn**
Benthyciadau'r DTI i Grŵp y Post Brenhinol ccc	500	844	1,344	5.8	2023
Benthyciadau'r Trysorlys i Swyddfa'r Post Cyfyngedig	360	790	1,150	5.0	2005
Cyfleusterau rhwymedig	860	1,634	2,494		
Benthyciad tymor byr gan gyfranogwr	14	-	14	4.8	2005
Benthyciadau banc hirdymor amrywiol mewn isgwmnïau tramor	7	-	7	3.1-6.9	2009
Cyfanswm	881	1,634	2,515		

Ar 27 Mawrth 2005, cyfyngiad benthyca'r Grŵp dan adran 115(6)(b) Deddf Gwasanaethau Post 2000 oedd £5bn (2004 £5bn) yn amodol ar gytundeb y Llywodraeth.

Mae gwahanol gyfleusterau benthyca ar gael i'r Grŵp. Dyma'r cyfleusterau rhwymedig sydd heb eu defnyddio sydd ar gael ar 27 Mawrth 2005, yr oedd yr holl amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni ar y dyddiad hwnnw:

	2005 £m	2004 £m
Dirwyn i ben ymhen blwyddyn neu lai	**300**	500
Dirwyn i ben ymhen dros flwyddyn ond heb fod dros ddwy flynedd	**200**	-
Dirwyn i ben ymhen dros ddwy flynedd	**1,134**	1,644
Cyfanswm	**1,634**	2,144

Mae'r symiau sydd heb eu defnyddio'n cynnwys cyfleusterau amlfenthyciad gwerth £1,634m. Roedd £860m o'r cyfleusterau rhwymedig wedi'i defnyddio ar27 Mawrth 2005. Diogelir y benthyciad o £500m gyda thaliad sefydlog a nofiol ar amrywiol asedion y Grŵp. Mae benthyciadau'r Trysorlys o £360m i Swyddfa'r Post Cyfyngedig, a ddiogelwyd gyda thaliad nofiol ar wahanol asedion y Grŵp ac ernes negyddol dros eitemau arian ac eitemau lled-arian, wedi eu byrddyddio ar raglen o ddiweddu rheolaeth hylifedd ar y cyfleuster sydd yn dod i ben yn 2010.

15 Darpariaethau ar gyfer dyledion a thaliadau

	Ar 29 Mawrth 2004 £m	Codwyd/ (rhyddhawyd) yn ystod y flwyddyn £m	Di-Arian a ddefnyddiwyd £m	Arian a ddefnyddiwyd £m	Ar 27 Mawrth 2005 £m
Post a Pharseli	429	47	(117)	(200)	**159**
Gwasanaethau Cownter	50	-	(14)	(24)	**12**
Treth Ohiriedig	96	(1)	-	-	**95**
Cyfanswm	575	46	(131)	(224)	**266**

Mae'r defnydd o £224m mewn arian yn cynnwys £218m o wariant cysylltiedig â rhesymoli eithriadol. Dangosir cyfanswm y gwariant arian cysylltiedig â rhesymoli eithriadol yn ystod y flwyddyn y y datganiad llif arian. Cynhwysir o fewn darpariaethau mae £66m (2004 £53m) sy'n gysylltiedig â chytundebau eiddo rhwymedigaethus.

Mae'r ddarpariaeth Post a Pharseli'n cynnwys symiau'n ymwneud â diswyddiad ac eitemau di-ddiswyddiad eraill ar gyfer prosiect Canolfan Dosbarthu Byd-eang Heathrow a rhaglenni ailstrwythuro eraill. Yn ystod y flwyddyn, codwyd £36m ar eitemau eithriadol ac £11m ar gostau gweithredu eraill. Trosglwyddwyd £117m i gredydwyr dyledus o fewn blwyddyn, yn ymwneud yn bennaf â'r cynllun pensiwn ar gyfer diswyddiadau gydag ymddeol cynnar. Disgwylir i £111m o'r ddarpariaeth hon gael ei defnyddio yn 2005-06 a'r gweddill yn ystod y ddwy flynedd neu'r tair blynedd nesaf, ac eithrio £12m yn ymwneud â chostau digomisiynu ac £20m yn ymwneud â chytundebau eiddo rhwymedigaethus, y disgwylir eu defnyddio dros gyfnod hwy.

Mae'r darpariaethau Gwasanaethau Cownter yn cynnwys symiau cysylltiedig â'r rhaglen gostwng niferoedd parhaol. Yn ystod y flwyddyn trosglwyddwyd £14m i gredydwyr dyledus o fewn blwyddyn, yn ymwneud yn bennaf â symiau dyledus i'r cynllun pensiwn ar gyfer diswyddiadau gydag ymddeol cynnar. Disgwylir i'r gweddill gael ei ddefnyddio yn ystod 2005-06

Nid yw rhyddhau'r dreth ohiriedig a ddangosir uchod yn cynnwys treth ohiriedig cyfranogion, fel a ddangosir yn nodyn 6(a).

Mae treth ohiriedig yn cynnwys:

	2005 £m	2004 £m
Gwahaniaethau amseru asedion sefydlog	**73**	23
Gwahaniaethau amseru cyfraniadau pensiwn	**(193)**	(250)
Darpariaethau	**25**	98
Colledion a gwahaniaethau amseru eraill	**16**	33
Cyfanswm	**(79)**	(96)
Dadansoddwyd fel:		
Ased treth ohiriedig	**16**	-
Darpariaeth treth ohiriedig	**(95)**	(96)
	(79)	(96)

16 Cronfeydd wrth gefn

Grŵp	**Cronfeydd dosranadwy**				
	Cyfrif elw a cholled £m	**Post £m**	**Rhwydwaith Gwledig £m**	**Arall £m**	**2005 Cyfanswm £m**
Ar 29 Mawrth 2004	999	765	311	63	**2,138**
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	235	-	-	-	**235**
Trosglwyddo Cronfa'r Rhwydwaith Gwledig	151	-	(151)	-	**-**
Trosglwyddo incwm llog	(47)	36	11	-	**-**
Gwahaniaethau cyfnewid	8	-	-	-	**8**
Ar 27 Mawrth 2005	**1,346**	**801**	**171**	**63**	**2,381**

Crewyd y Gronfa Bost yng NGrŵp y Post Brenhinol ccc ar 3 Chwefror 2003, gan ddilyn cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant dan adran 72 Deddf Gwasanaethau Post 2000. Rhaid cymhwyso'r symiau a ddyrannwyd i'r Gronfa fel petaent yn elw sydd ar gael i'w ddosbarthu a dylid eu defnyddio'n bennaf i gynnig cymorth ariannol i Swyddfa'r Post Cyfyngedig ac fel gwarant ar gyfer benthyciadau i Grŵp y Post Brenhinol ccc.

Sefydlwyd Cronfa'r Rhwydwaith Gwledig i ddechrau yn 2003-04 i ddarparu cyllid am gyfnod o dair blynedd i gynnal y rhwydwaith gwledig o Swyddfeydd Post. Bu gostyngiad o £151m yn y Gronfa, i adlewyrchu'r arian roedd ei angen yn ystod y flwyddyn.

16 Cronfeydd wrth gefn (parhad)
Mae cronfeydd eraill yn cyrychioli'r enillion heb eu gwireddu a gododd drwy gaffael buddion gyda chyfranogion a chydfentrau yn ystod blynyddoedd blaenorol.

Mae trosglwyddo'r llog yn gysylltiedig ag incwm a gofnodwyd yn y cyfrif elw a cholled, a enillwyd ar yr asedion sy'n cefnogi'r Cronfeydd Post a Rhydwaith Gwledig.

Cwmni	**Cyfrif elw a cholled £m**	**2005 Cyfanswm £m**
Ar 29 Mawrth 2004	2,146	**2,146**
Elw am y flwyddyn	184	**184**
Ar 27 Mawrth 2005	2,330	**2,330**

Yr elw a nodwyd yng nghyfrifon y rhian-gwmni oedd £184m (2004 colled o £34m). Cwmni di-fasnachu yw'r cwmni ac mae'r elw am y flwyddyn yn cynrychioli gwerth yr addasiad gwerth ased net a gyfyd oherwydd y polisi cyfrifyddu ar fuddsoddiadau asedion sefydlog. Nodir yma fod y buddsoddiadau mewn isymgymeriadau a ffurfiwyd yn fewnol wedi'u datgan gyda'u gwerth ased net. Felly, tynnit elw'r Cwmni am y flwyddyn ariannol o Gyfrifon y Grŵp ac nid yw felly'n rhan o ganlyniadau'r Grŵp. Ceir manylion pellach yn nodyn 9.

17 Cyfalaf Cyfranddaliadau

Awdurdodedig	**2005 £**	2004 £
Cyfranddaliadau cyffredin £1 yr un	**100,000**	100,000
Cyfranddaliad Dewisol Adbrynadwy Hawliau Arbennig (Cyfranddaliad Arbennig) £1 yr un	**1**	1
Cyfanswm	**100,001**	100,001

Dyrannwyd a galwyd	**2005 £**	2004 £
Cyfranddaliadau cyffredin £1 yr un	**50,000**	50,000
Cyfranddaliad Dewisol Adbrynadwy Hawliau Arbennig (Cyfranddaliad Arbennig) £1 yr un	**1**	1
Cyfanswm	**50,001**	50,001

Gellir adbrynu'r Cyfranddaliad Arbennig unrhyw bryd gan ei ddeilydd (Yr Ysgrifennydd Gwladol). Ni all y Cwmni adbrynu'r Cyfranddaliad Arbennig heb ganiatâd ymlaen llaw gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni thelir premiwm pan adbrynir. Yn amodol ar, ac yn unol â, darpariaethau Deddf Gwasanaethau Post 2000, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw adeg fynnu bod y Cyfarwyddwyr yn datgan a thalu difidend i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i'w enwebai.

Adeg dosbarthu wrth ddirwyn y Cwmni i ben, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i ad-daliad o'r cyfalaf a dalwyd ar y Cyfranddaliad Arbennig cyn yr ad-delir cyfalaf i unrhyw aelod arall.

Nid yw'r Cyfranddaliad Arbennig yn dwyn gydag ef unrhyw hawl i bleidleisio.

Yn unol ag adran 63(7) Deddf Gwasanaethau Post 2000, i ddibenion Deddf Cwmnïau 1985, trinnir y cyfranddaliadau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel pe bai eu gwerth enwol wedi'i dalu'n llwyr.

18 Deilliadau ac offer ariannol eraill

Cynhwysir esboniad ar reolaethau a pholisi trysorlys y Grŵp yn yr Adolygiad Gweithredu ac Ariannol. Esbonir hefyd yn yr adran honno rôl yr offer ariannol mewn creu neu newid y risgiau a wynebir gan y Grŵp yn ei weithgareddau.

Mae asedion a dyledion ariannol yn is-set o asedion a dyledion cyffredinol y Grŵp ac maent yn cynnwys gweddillion sydd fel arfer â risgiau arian tramor a/neu gyfradd llog cysylltiedig. Mae deilliadau FRS 13 ac offer ariannol eraill yn caniatáu eithrio eitema fel debydwyr masnachu, credydwyr masnachum rhagdaliadau a chroniadau. Amlygir yr asedion a'r dyledion a geir dan y diffiniad hwn, ynghyd â'u gwerth teg, yn (i) isod:

(i) Gwerth teg asedion/(dyledion) ariannol

Diffinnir gwerth teg fel y swm y gellid cyfnewid offeryn ariannol amdano mewn gweithrediad hyd braich rhwng partïon gwybodus a bodlon, ac fe'i cyfrifir drwy gyfeirio at gyfraddau'r farchnad wedi'u disgowntio i'r gwerth cyfredol. Os nad yw cyfraddau'r farchnad ar gael, cyfrifiwyd gwerthoedd teg drwy ddisgowntio llifoedd arian gan ddefnyddio'r cyfraddau mynychaf a drafodwyd gyda chyfraddau cyfnewid diwedd y flwyddyn.

	2005				2004			
	Ased gros £m	**Dyled gros £m**	**Gwerth llyfr net £m**	**Gwerth teg £m**	Ased gros £m	Dyled gros £m	Gwerth llyfr net £m	Gwerth teg £m
Arian	**890**	**-**	**890**	**890**	1,049	-	1,049	1,049
Buddsoddiadau asedion cyfredol (nodyn 11)	**1,141**	**-**	**1,141**	**1,141**	999	-	999	999
Other buddsoddiadau (gwarannau eurymylog y Llyw.) (nodyn 9)	**7**	**-**	**7**	**7**	7	-	7	7
Benthyciadau (nodyn 14)	**-**	**(908)**	**(908)**	**(898)**	-	(599)	(599)	(595)
Gweddilion gwasanaethau cleientiaid (nodyn 12)	**-**	**(323)**	**(323)**	**(323)**	-	(767)	(767)	(767)
Cyfanswm	**2,038**	**(1,231)**	**807**	**817**	2,055	(1,366)	689	693

Cyfrifiwyd gwerthoedd teg ar gyfer benthyciadau ac adneuon drwy ddisgowntio ar gyfradd briodol.

Gwerth trosglwyddol giltiau yw £141m (2004 £138m), a chynhwysir £134m (2004 £131m) o hyn dan fuddsoddiadau asedion cyfredol uchod a £7m (2004 £7m) yn y ffigyrau ar gyfer buddsoddiadau eraill. Dangosodd portffolio'r Grŵp o ddaliadau giltiau golled o £4m (2004 £4m) yn ystod y flwyddyn pan ailbrisiwyd hwy.

(ii) Proffil aeddfedrwydd dyledion ariannol y Grŵp

Isod ceir proffil aeddfedrwydd dyledion ariannol y Grŵp ar 27 Mawrth 2005:

	2005			2004		
	Benthyciadau (nodyn 14) £m	**Gweddillion cleientiaid £m**	**Cyfanswm £m**	Benthyciadau (nodyn 14) £m	Gweddillion cleientiaid £m	Cyfanswm £m
Blwyddyn neu lai ar gais	**392**	**323**	**715**	88	767	855
Mwy na blwyddyn ond heb fod dros ddwy flynedd	**10**	**-**	**10**	3	-	3
Mwy na dwy flynedd ond heb fod dros bum mlynedd	**3**	**-**	**3**	1	-	1
Mwy na phum mlynedd	**503**	**-**	**503**	507	-	507
Cyfanswm	**908**	**323**	**1,231**	599	767	1,366

(iii) Proffil aeddfedrwydd cyfleusterau benthyca rhwymedig y Grŵp sydd heb eu defnyddio

Ceir manylion am fenthyciadau a chyfleusterau benthyca rhwymedig y Grŵp syddd heb eu defnyddio yn nodyn 14.

18 Deilliadau ac offer ariannol eraill (parhad)

(iv) Proffil cyfraddau llog adadansoddiad o arian tramor

	2005 Dyledion ariannol				2005 Asedion ariannol					
	Sterling £m	**Ewro £m**	**Arall £m**	**Cyfanswm gros £m**	**Sterling £m**	**DUD £m**	**Ewro £m**	**Arall £m**	**Cyfanswm gros £m**	**Cyf. net £m**
Cyfradd sefydlog	**(860)**	**(7)**	**-**	**(867)**	**1,148**	**-**	**-**	**-**	**1,148**	**281**
Cyfradd nofiol	**(14)**	**(3)**	**-**	**(17)**	**13**	**-**	**15**	**6**	**34**	**17**
Heb gludo llog	**(323)**	**(6)**	**(18)**	**(347)**	**785**	**16**	**48**	**7**	**856**	**509**
Cyfanswm	**(1,197)**	**(16)**	**(18)**	**(1,231)**	**1,946**	**16**	**63**	**13**	**2,038**	**807**

	2004 Dyledion ariannol				2004 Asedion ariannol					
	Sterling £m	Ewro £m	Arall £m	Cyfanswm gros £m	Sterling £m	DUD £m	Ewro £m	Arall £m	Cyfanswm gros £m	Cyf. net £m
Cyfradd sefydlog	(550)	(8)	-	(558)	1,006	-	-	-	1,006	448
Cyfradd nofiol	-	(4)	-	(4)	-	2	51	-	53	49
Heb gludo llog	(804)	-	-	(804)	936	20	38	2	996	192
Cyfanswm	(1,354)	(12)	-	(1,366)	1,942	22	89	2	2,055	689

Mae gan y dyledion ariannol sterling cyfradd sefydlog o £860m gyfradd llog gyfartalog gymhwysol o 5.5% ac amser cyfartalog tan aeddfedrwydd o 11 mlynedd (2004 5.7% a 18 mlynedd). Mae gan yr asedion sterling cyfradd sefydlog o £1,148m gyfradd llog gyfartalog gymhwysol o 4.73% ac amser cyfartalog tan aeddfedrwydd o 46 diwrnod (2004 3.95% ac 20 diwrnod).

Mae gan yr asedion ariannol sterling cyfradd nofiol gyfradd llog gyfartalog gymhwysol sy'n cyfateb i gyfradd y banc minws 1% ac amser cyfartalog tan aeddfedrwydd o un diwrnod (2004 £dim).

Mae gan y dyledion ariannol ewro cyfradd sefydlog gyfradd llog gyfartalog gymhwysol o 6.1% ac amser cyfartalog tan aeddfedrwydd o bedair blynedd (2004 6.1% a phedair blynedd).

Mae gan y dyledion ariannol ewro nofiol gyfradd llog gyfartalog gymhwysol o ewro LIBOR plws 2% ac amser cyfartalog tan aeddfedrwydd o dair blynedd (2004 ewro LIBOR plws 2% a phedair blynedd). Mae gan yr asedion ariannol nofiol gyfradd llog gyfartalog gymhwysol sy'n cyfateb i gyfradd y banc minws 1% ac amser cyfartalog tan aeddfedrwydd o un diwrnod (2004 cyfradd y banc minws 1% ac un diwrnod).

O'r dyledion ariannol o £347m sydd ddim yn cludo llog, mae £323m yn daladwy ar gais ac mae gan £24m ddyddiad aeddfedu cyfartalog o flwyddyn. Mae'r holl asedion ariannol sydd ddim yn cludo llog yn dderbyniadwy ar gais.

Buasai cynnydd o un y cant mewn cyfraddau llog drwy gydol y cyfnod wedi creu cynnydd mewn elw cyn treth o £11m.

(v) Offer ariannol deilliadol a gedwir i reoli amrywiadau mewn arian tramor a phrisiau nwyddau

	2005 Gwerth teg £m	2004 Gwerth teg £m
Gweithrediadau arian tramor	**138**	153
Deilliadau tanwydd	**28**	16

Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Grŵp gytundebau i brynu arian tramor am £138m (2004 £153m) a thanwydd am £28m (2004 £16m). Ni ddangosir symiau cludol gan fod yr eitemau hyn i gyd yn cael eu cadw oddi ar y fantolen. Y gwahaniaeth rhwng y gyfradd cytundebu ymlaen a'r marc i gyfradd y farchned oedd £diml (2004 sef colled o £4m) yn achos cytundebau arian tramor a chynnydd o £8m (2004 £1m) yn achos cytundebau tanwydd.

18 Deilliadau ac offer ariannol eraill (parhad)

(vi) Gweithrediadau at ymlaen

Mae gan y Grŵp weithrediadau at ymlaen sydd heb eu cyflawni, er mwyn ymddiogelu yn achos prynu arian a thanwydd, a dyma hwy:

	Mewn arian tramor (miliynau)		Sterling cyfatebol (miliynau)	
	2005	2004	**2005**	2004
Aeddfedu o fewn blwyddyn				
Ewro	**86**	38	**60**	26
Yen Japan	**-**	745	**-**	4
Doleri'r UD	**138**	207	**74**	121
Doleri Awstralia	**3**	3	**1**	1
Tanwydd (Doleri'r UD)	**46**	26	**25**	15
Aeddfedu ymhen dros flwyddyn				
Doleri'r UD	**6**	1	**3**	1
Tanwydd (Doleri'r UD)	**5**	2	**3**	1

(vii) Enillion a cholledion ar ddangosiadau gweithredu

Mae dangosiadau arian tramor y Grŵp yn achosi enillion a cholledion a gydnabyddir yn y cyfrif elw a cholled. Cyfyd y dyledion hyn oherwydd y taliadau dyledus i weinyddiaethau post tramor am ddosbarthu post, ac fe'u henwir yn yr Hawliau Tynnu Arbennig (HTA), sef basged o arian tramor yn cynnwys Doler yr UD, ewro, Yen Japan a Sterling. Y dangosiadau hyn yw dyledion ariannol y Grŵp nas enwir yn arian ffwythiannol yr uned weithredu berthnasol.

Ar gyfer 2005 a 2004 nid oes unrhyw ddangosiad HTA materol sydd heb ei ddiogelu.

Ar 27 Mawrth 2005, roedd gan y Grŵp amrywiol gytundebau agored at ymlaen a gymerwyd er mwyn ymddiogelu yn achos taliadau arian tramor disgwyliedig yn y dyfodol (fel a ddangosir yn nodyn (vi) uchod).

(viii) Enillion a cholledion ar ymddiogeliadau

Ymddiogelir yn achos dangosiadau arian tramor drwy ddefnyddio adneuon arian tramor, benthyciadau arian tramor, cytundebau arian tramor at ymlaen ac opsiynau arian tramor. Ni chydnabyddir enillion a cholledion ar yr offerynnau hyn hyd nes y cydnabyddir y dangosiad diogeledig ei hun. Nid yw'r enillion a cholledion anghydnabyddedig ar yr offerynnau hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer ymddiogelu yn rhai materol.

Ymddiogelir rhag dinoethiad i brisiau nwyddau gan ddefnyddio opsiynau a chyfnewidiadau nwyddau. Ni chydnabyddir enillion a cholledion ar yr offerynnau hyn nes bydd y dinoethiad diogeledig ei hun yn cael ei gydnabod. Cyfanswm yr enillion anghydnabyddedig ar ddechrau'r flwyddyn ariannol oedd oedd £1m (2004 £1m) a gwireddwyd hwy i gyd yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cyfanswm yr enillion anghydnabyddedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd oedd £8m (2004 £1m) a disgwylir iddynt oll gael eu gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Ni chariwyd unrhyw enillion/colledion ymlaen yn y fantolen (2004 dim).

19 Pensiynau

Mae'r Grŵp yn gweithredu'r cynlluniau pensiwn isod:

Enw	Cymwys	Teip
Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol (RMPP)	Gweithwyr y DG	Mantesion diffiniedig
Cynllun Pensiwn Uwch Swyddogion y Post Brenhinol (RMSEPP)	Uwch Weithwyr y DG	Mantesion diffiniedig
Cynllun Cynilion Ymddeoliad y Post Brenhinol (RMRSP)	Gweithwyr y DG	Cyfraniad diffiniedig
Amryw gynllyniau bychain eraill a weithredir gan isgwmnïau tramor	Gweithwyr isgwmnïau tramor	Cyfraniad diffiniedig

Yn ôl telerau cyfuno'r ddau gynllun blaenorol – Cynllun Pensiwn Staff Swyddfa'r Post (POSSS) a Chynllun Pensiwn Swyddfa'r Post (POPS) – a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2000, roedd gofyn eu trin fel adrannu gwahanol o RMPP tra yr arhosodd y naill adran fel swrplws a'r llall fel dyled. Gan fod y ddwy adran bellach mewn dyled, mae'r gofyniad hwn yn dod i ben a thrinnir yr RMPP fel cynllun unigol heb adrannau ar wahân ar gyfer gofynion cyfrifo ac ariannu cyffredinol.

Taliadau pensiwn yn y cyfrif elw a cholled

Mae'r Grŵp yn parhau i gyfrif am gostau pensiwn dan Gyfrifo SSAP 24 yn achos costau pensiwn, ac isod ceir crynodeb o'r taliadau pensiwn gan gynnwys y rhai'n ymwneud â darpariaethau diswyddiad:

	2005 £m	2004 £m
Costau pensiwn rheolaidd – cynlluniau manteision diffiniedig	**252**	242
- cynlluniau cyfraniad diffiniedig	**1**	1
Costau pensiwn rheolaidd	**253**	243
Taliad diffyg pensiwn dan SSAP 24	**138**	132
Llog damcaniaethol ar asedion pensiwn	**(60)**	(56)
Costau'n ymwneud â darpariaethau diswyddiad	**21**	54
Cyfanswm y gost a gynhwyswyd yn yr elw/(colled) cyn treth (nodyn 2)	**412**	429

Gwerthuso pensiynau

Gwerthusir y cynlluniau manteision diffiniedig o bryd i'w gilydd, ond heb fod mwy na thair blynedd rhwng gwerthusiadau, fel a bennir gan yr Ymddiriedolaethwyr. Cynhaliwyd yr asesiadau actiwaraidd diweddaraf ar yr RMPP a'r RMSEPP ar 31 Mawrth 2003 gan ddefnyddio'r dull uned amcanol. Cyflawnwyd y rhain gan ddefnyddio cyfradd chwyddiant dybiedig o 2.5% ar gyfer y ddau gynllun.Tybiwyd mai'r enillion real ar fuddsoddiadau fyddai 4.9% a 4.3% yn y drefn honno. Tybiwyd mai'r codiadu cyflog real fyddai 1.5% a 3.0% yn y drefn honno a thybiwydy byddai pensiynau, mewn taliadau a hefyd y rhai gohiriedig, yn cynyddu 2.5% yn achos y ddau gynllun. Gwerth marchnadol yr asedion adeg yr asesiadau actiwaraidd diweddaraf oedd £11,954m yn achos yr RMPP a £86m yn achos yr RMSEPP. Diogelwch asedion y manteision a enillir i aelodau ar ôl ystyried codiadau cyflog yn y dyfodol oedd 91% yn achos yr RMPP ac 82% yn achos yr RMSEPP, ar 31 Mawrth 2003 yn achos y ddau. Cadarnhaodd y gwerthusiad diwethaf ddiffyg o £2.5bn mewn arian. Gwnaed cyfraniad ariannol cychwynnol o £133m tuag at y diffyg hwn yn 2003-04 a gwnaed taliad pellach o £138m yn 2004-05. Rhagwelir y gwneir taliadau tebyg yn y dyfodol yn ôl yr angen. Mae'r gwerthusiad llawn nesaf o'r RMPP a'r RMSEPP i'w wneud ar 31 Mawrth 2006. Y ffactorau allweddol a greodd y newid o swrplws i ddiffyg oedd profiad yn y farchnad uddsoddi ys ystod y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2003 gwerth rhyw £725m, newidiadau demograffig, gan gynnwys disgwyliadau einioes uwch yr aelodau, sef rhyw £420m, a'r dyledion asesiedig uwch o ryw £1,350m a seilir ar gyfradd ddisgownt is.

Safonau cyfrifyddu

Cynhyrchwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r safon gyfrifo gyfredol SSAP 24. Mabwysiadwyd y safon gyfrifo pensiynau ddiweddaraf, buddion ymddeol FRS 17, gan y Grŵp yn unol â'r trefniadau trosglwyddo.

Datganiadau FRS 17

Mae'r datganiadau FRS 17 canlynol yn ynwneud â chynlluniau RMPP a RMSEPP:

a) Rhagdybiadau

Dyma'r prif ragdybiadau a ddefnydiodd yr actiwari:

	Ar 27/03/2005 % pa	Ar 28/03/2004 % pa	Ar 30/03/03 % pa
Cyfradd codiad mewn cyflogau	**4.20**	4.10	3.55
Cyfradd codiad mewn pensiynau	**2.70**	2.60	2.25
Cyfradd ddisgownt	**5.50**	5.50	5.50
Rhagdybiad chwyddiant	**2.70**	2.60	2.25
Cyfradd adenillion gyfartalog ddisgwyliedig ar asedion	**7.40**	7.50	7.90

Mae maint y diffyg pensiwn, sydd yn fawr yng nghyd-destun y Cwmni a'i gyllid, yn faterol sensitif i'r rhagdybiadau a fabwysiadwyd. Gallai newidiadau bach yn y rhagdybiadau hyn gael effaith arwyddocaol ar y diffyg a'r taliad elw a cholled cyffredinol.

19 Pensiynau (parhad)

b) Cyfraddau adenill disgwyliedig ac asedion y cynlluniau

Yr asedion yn y Cynllun a'r cyfraddau adennill disgwyliedig oedd:

Ar 27 Mawrth 2005

	Gwerth marchnadol ar 27 Mawrth 2005		
	RMPP £m	**RMSEPP £m**	**Cyfradd adennill hirdymor a ddisgwylid ar 27 Mawrth 2005 % pa**
Ecwitïau	**13,266**	**117**	**8.00**
Bondiau	**1,978**	**28**	**4.80**
Eiddo	**1,642**	**-**	**6.40**
Asedion eraill	**334**	**2**	**3.70**
Cyfanswm gwerth marchnadol yr asedion	**17,220**	**147**	
Gwerth dyledion y Cynllun ar hyn o bryd	**(21,126)**	**(189)**	
Dyledion y cynllun	**(3,906)**	**(42)**	
Asedion treth gohiriedig cysylltiedig	**279**	**3**	
Dyledion pensiwn net	**(3,627)**	**(39)**	

Ar 28 Mawrth 2004

	Gwerth marchnadol ar 28 Mawrth 2004		
	RMPP £m	RMSEPP £m	Cyfradd adennill hirdymor a ddisgwylid ar 28 Mawrth 2004 % pa
Ecwitïau	12,066	106	8.00
Bondiau	1,754	12	4.80
Eiddo	1,313	-	6.40
Asedion eraill	(43)	6	3.60
Cyfanswm gwerth marchnadol yr asedion	15,090	124	
Gwerth dyledion y Cynllun ar hyn o bryd	(19,438)	(156)	
Dyledion y cynllun	(4,348)	(32)	
Asedion treth gohiriedig cysylltiedig	-	-	
Dyledion pensiwn net	(4,348)	(32)	

Ar 30 Mawrth 2003

	Gwerth marchnadol ar 30 Mawrth 2003		
	RMPP £m	RMSEPP £m	Cyfradd adennill hirdymor a ddisgwylid ar 30 Mawrth 2003 % pa
Ecwitïau	9,650	56	8.50
Bondiau	1,562	6	4.50
Eiddo	1,240	-	6.50
Asedion eraill	(352)	25	4.25
Cyfanswm gwerth marchnadol yr asedion	12,100	87	
Gwerth dyledion y Cynllun ar hyn o bryd	(16,752)	(119)	
Dyledion y cynllun	(4,652)	(32)	
Asedion treth gohiriedig cysylltiedig	-	-	
Dyledion pensiwn net	(4,652)	(32)	

*Oherwydd gwell proffidioldeb, cydnabyddir asedion treth gwerth £282m mewn perthynas â dyledion pensiwn ym mis Mawrth 2005, ond ni chydnabuwyd dim yn ystod blynyddoedd blaenorol. Mae'r swm hwn yn llai na'r ased posibl o £1,184m oherwydd ansicrwydd parhaus ynghylch gallu'r Grwp i gynhyrchu incwm trethadwy digonol yn y dyfodol i gael gostyngiad terth ar gyfer y cyfraniadau pensiwn a dalwyd.

19 Pensiynau (parhad)

c) Cydrannau costau'r manteision diffiniedig

Dyma ddadansoddiad o wahanol gydrannau'r costau a adlewyrchid yn y datganiadau ar berfformiad:

	RMPP £m	RMSEPP £m	2005 Cyfanswm £m	RMPP £m	RMSEPP £m	2004 Cyfanswm £m
Dadansoddiad o'r symiau a godir ar elw gweithredol:						
Cost gwasanaeth cyfredol	**479**	**4**	**483**	394	3	397
Cyfanswm y taliad a godir ar elw gweithredol:	**479**	**4**	**483**	394	3	397
Dadansoddiad o'r symiau eraill a godir ar y cyfrif elw a cholled						
Colled oherwydd taliadau terfynol	**6**	**-**	**6**	-	-	-
Colled oherwydd cwtogiadau *	**208**	**-**	**208**	87	6	93
Cyfanswm cost gweithredu net	**693**	**4**	**697**	481	9	490
*Cydnabuwyd y costau hyn eisoes yn natganiadau cynradd y Grŵp ar sail SSAP 24.						
Dadansoddiad o'r swm a godir /(credydir) i incwm cyllidol arall:						
Llog ar ddyledion y Cynllun Pensiwn	**1,059**	**9**	**1,068**	909	6	915
Adenillion disgwyliedig ar asedion y Cynllun Pensiwn	**(1,118)**	**(9)**	**(1,127)**	(950)	(6)	(956)
Credyd net i incwm cyllidol arall	**(59)**	**-**	**(59)**	(41)	-	(41)
Cyfanswm y taliad elw a cholled cyn tynnu ar gyfer treth	**634**	**4**	**638**	440	9	449
Dadansoddiad o'r symiau a gydnabyddir yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion (STRGL):						
Gwahaniaeth rhwng adenillion gwirioneddol a disgwyliedig ar asedion y Cynllun	**(1,038)**	**(3)**	**(1,041)**	(2,063)	(16)	(2,079)
Colled a brofwyd ar ddyledion y Cynllun	**297**	**4**	**301**	73	2	75
Colled oherwydd newid rhagdybiadau (ariannol a demograffig)	**316**	**14**	**330**	1,886	24	1,910
(Enillion)/colled actiwaraidd a gydnabyddir yn STRGL	**(425)**	**15**	**(410)**	(104)	10	(94)

d) Symudiad mewn (dedyled)/swrplws

Dadansoddiad o'r symudiad mewn (dyled)/swrplws yn y Cynlluniau yn ystod y cyfnod:	RMPP £m	RMSEPP £m	2005 Cyfanswm £m	RMPP £m	RMSEPP £m	2004 Cyfanswm £m
Dyledion yn y Cynllun ar ddechrau'r cyfnod	**(4,348)**	**(32)**	**(4,380)**	(4,652)	(32)	(4,684)
Cyfraniadau a dalwyd gan y cwmni	**661**	**9**	**670**	640	19	659
Cost gwasanaeth cyfredol	**(479)**	**(4)**	**(483)**	(394)	(3)	(397)
Cost taliadau terfynol	**(6)**	**-**	**(6)**	-	-	-
Cosy cwtogiadau	**(208)**	**-**	**(208)**	(87)	(6)	(93)
Newid cyfrifyddu yn achos cydfentrau	**(10)**	**-**	**(10)**	-	-	-
Incwm ariannol arall	**59**	**-**	**59**	41	-	41
Enillion/(colled) actiwaraidd	**425**	**(15)**	**410**	104	(10)	94
Dyledion yn y Cynllun yn ystod y cyfnod	**(3,906)**	**(42)**	**(3,948)**	(4,348)	(32)	(4,380)

19 Pensiynau (parhad)

e) Hanes enillion a cholledion a brofwyd

	RMPP	RMSEPP	2005 Cyfanswm	RMPP	RMSEPP	2004 Cyfanswm	RMPP	RMSEPP	2003 Cyfanswm
(Enillion)/colled rhwng adenillion gwirioneddol a disgwyliedig ar asedion y Cynllun:									
Swm (£m)	**(1,038)**	**(3)**	**(1,041)**	(2,063)	(16)	(2,079)	4,342	28	4,370
Canran o asedion y Cynllun ar ddiwedd y cyfnod	**6.0%**	**2.0%**	**6.0%**	13.7%	12.9%	13.7%	35.9%	32.2%	35.9%
Colled/(enillion) ar ddyledion y Cynllun									
Swm (£m)	**297**	**4**	**301**	73	2	75	(22)	5	(17)
Canran o asedion y Cynllun ar ddiwedd y cyfnod	**1.4%**	**2.1%**	**1.4%**	0.4%	1.3%	0.4%	0.1%	4.2%	0.1%
Cyfanswm yr (enillion)/colledion actiwaraidd a gydnabyddir yn STRGL:									
Swm (£m)	**(425)**	**15**	**(410)**	(104)	10	(94)	4,992	37	5,029
Canran o asedion y Cynllun ar ddiwedd y cyfnod	**2.0%**	**7.9%**	**1.9%**	0.5%	6.4%	0.5%	29.8%	31.1%	29.8%

f) Cyflwyno'r fantolen

Asedion net	**2005 £m**	2004 £m
Asedion net a nodir yn y fantolen	**2,385**	2,138
Rhagdaliadau pensiwn adenilladwy tu hwnt i flwyddyn (SSAP 24)	**(835)**	(770)
Treth ohiriedig gysylltiedig	**95**	95
Asedion net ac eithrio asedion pensiwn	**1,645**	1,463
Dyledion pensiwn FRS 17	**(3,948)**	(4,380)
Treth ohiriedig gysylltiedig	**282**	-
Asedion net gan gynnwys dyledion pensiwn FRS 17	**(2,021)**	(2,917)

Cronfeydd wrth gefn	**2005 £m**	2004 £m
Cronfa elw a cholled fel a nodir yn y fantolen	**1,346**	999
Rhagdaliadau pensiwn adenilladwy tu hwnt i flwyddyn (SSAP 24)	**(835)**	(770)
Treth ohiriedig gysylltiedig	**95**	95
Cronfa elw a cholled reserve ac eithrio symiau'n ymwneud â phensiwn	**606**	324
Dyledion pensiwn FRS 17	**(3,948)**	(4,380)
Treth ohiriedig gysylltiedig	**282**	-
Cronfa elw a cholled gan gynnwys symiau'n ymwneud â dyledion pensiwn FRS 17	**(3,060)**	(4,056)

Cyfraddau hirdymor cyfraniadau'r dyfodol o'u mynegi fel canran o gyflogau yw 12.6% yn achos yr RMPP ac 20.9% yn achos yr RMSEPP.

20 Ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau cyfalaf y mae cytundebau ar eu cyfer ond na ddarparwyd ar eu cyfer yn y cyfrifon yn cyfateb i £93m (2004 £84m).

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i'r taliadau canlynol ar brydlesi gweithredu yn ystod y 12 mis nesaf:

	Tir ac adeiladau		Cerbydau ac Offer	
	2005 £m	2004 £m	**2005 £m**	2004 £m
Ar gyfer prydlesi a ddaw i ben:				
O fewn blwyddyn	**13**	10	**50**	16
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	**29**	21	**56**	51
Tu hwnt i bum mlynedd	**87**	89	**3**	1
Cyfanswm	**129**	120	**109**	68

21 Gwarantau a dyledion achlysurol

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc, un o isgwmnïau'r Cwmni, wedi gwarantu perfformiad trydydd parti mewn perthynas â thaliadau prydles sydd yn daladwy dros 15-mlynedd y brydles a gytunwyd ar 21 Rhagfyr 2000, ac mae wedi rhoi indemniadau treth penodol i'r prydleswyr yn yr UD. Ym marn y Cyfarwyddwyr, ni chaiff y Grŵp golled oherwydd y gwarantau hyn.

Fel a fynnir gan reolau'r Cyfleuster Didoli Arian Papur, diogelir yr arian papur sydd ar eu ffordd i ganolfannau trin arian a'r rhai a brosesir dros nos, y mae'r Grŵp wedi derbyn credyd ar eu cyfer, gan giltiau a adneuwyd gyda Banc Lloegr. Pe bai diffyg, y ddyled amcangyfrifedig fwyaf fyddai £104m.

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc wedi rhoi gwarant i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, yr Adran Datblygiad Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) a Chomisiynwyr Cyllid Cartref, i danysgrifennu perfformiad Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn achos ei rwymedigaethau dan y Cytundeb Bancio Cyffreedinol (Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post).

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc hefyd wedi rhoi gwarant i Electronic Data Systems Limited i danysgrifennu perfformiad Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn achos ei rwymedigaethau dan y Cytundeb Bancio Cyffreedinol (Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post).

22 Gweithrediadau parti cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn ymgymerodd y Grŵp â gweithrediadau gyda phartïon cysylltiedig. Ymgymerwyd â'r gweithrediadau wrth gyflawni busnes arferol ac yn eu plith roedd gwasanaethau buddsoddi a gweinyddu a ailgodwyd ar Gynllun Pensiwn y Grŵp gan Ymddiriedolwyr Penisynau'r Post Brenhinol Cyfyngedig. Dyma'r gweithrediadau yr ymgymerwyd â hwy a hefyd y gweddillion ar 27 Mawrth 2005:

	Gwerthiannau i'r parti cysylltiedig		Pryniannau gan y parti cysylltiedig		Syliau dyledus gan y parti cysylltiedig gan gynnwys benthyciadau heb eu talu		Syliau dyledus i'r parti cysylltiedig gan gynnwys benthyciadau heb eu talu	
	2005 £m	2004 £m	**2005 £m**	2004 £m	**2005 £m**	2004 £m	**2005 £m**	2004 £m
Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol	**8**	8	**-**	-	**1**	10	**-**	-
Quadrant Catering Limited	**-**	1	**43**	40	**-**	-	**15**	1
Camelot Group plc	**11**	9	**-**	-	**1**	-	**-**	-
G3 Worldwide Mail N.V. (trade name "Spring")	**2**	5	**17**	30	**12**	11	**2**	3
First Rate Travel Services Holdings Limited Group	**24**	19	**-**	-	**-**	-	**1**	-
Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post	**1**	-	**-**	-	**-**	-	**-**	-
Romec Limited (isgwmni ers 22 Rhagfyr 2004)	**3**	13	**127**	224	**3**	1	**18**	29

Mae'r cwmnïau a restrir uchod yn gydfentrau a chyfranogion i'r Grŵp ac eithrio Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol.

Mae David Mills, un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn un o Gyfarwyddwyr Grŵp Camelot ccc a enwebwyd gan y cyfranddalwyr, y mae gan y Grŵp berthynas fasnachol ag ef ar gyfer gwerthu gwerth £749m (2004 £748m) o gynhyrchion y loteri bob blwyddyn.

Mae Bob Wigley, un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, yn Gadeirydd Busnes Merrill Lynch yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica. Mae gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol, nid y cwmni, berthynas fasnachol gyda Merrill Lynch Investment Management, nid ei Fusnes Bancio, ar gyfer dau fandad portffolio ecwitïau yn y DG gwerth £1.1bn (2004 £1.0bn) yn ystod y flwyddyn. Nid yw Bob Wigley yn un o Ymddiriedolaethwyr Cynlun Pensiwn y Post Brenhinol.

Mae Brian Goggin, un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, isgwmni sydd yn eiddo llwyr i'r Cwmni, hefyd yn Brif Weithredwr y Bank of Ireland. Mae gan y Grŵp berthynas fasnachol gyda First Rate Travel Services Holdings Limited Group, cwmni cydfenter y mae gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig a'r Bank of Ireland gyfranddaliadaeth o 50% ynddo, i ymgymryd â gweithgareddau arian tramor gwerth £99m (2004 £74m) yn ystod y flwyddyn. Mae gan y Grŵp berthynas fasnachol hefyd gyda Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post, cwmni y mae gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig a'r Bank of Ireland gyfranddaliadaeth o 50% ynddo, i ddarparu cynhyrchion gwasanaethau ariannol gwerth £5m (2004 £dim) yn ystod y flwyddyn.

John Neill, un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, yw Prif Weithredwr a Dirprwy Gadeirydd Grŵp Unipart sydd â chytundeb i gyflenwi arbenigedd a gwasanaethau cefnogi corfforaethol i'r Post Brenhinol ar gyfer gwella canolfannau post. Cyfanswm gwerth y cytundeb yw £4m a thalwyd £1.5m ohono yn ystod y flwyddyn.

23 Prif isgwmnïau, cydfentrau a chyfranogion

	Gwlad ymgorffori	Canran y ddaliadaeth %	Prif weithgarwch
Isgwmnïau			
Grŵp y Post Brenhinol ccc[1]	y DG	100	Gwasanaethau Post a Pharseli
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	y DG	100	Gwasanaethau Cownter ac ariannol
General Logistics Systems International Holdings B.V.[2]	Yr Iseldiroedd	100	Gwasanaethau Parseli
Romec Limited	y DG	51	Rheoli cyfleusterau
NDC 2000 Limited	y DG	51	Ymgynghorwyr cynllunio
Cyfranogion			
Grŵp Camelot plc	y DG	20	Gweithrediadau loteri
Quadrant Catering Limited[3]	y DG	51	Gwasanaethau Arlwyo
G3 Worldwide Mail N.V. (trade name 'Spring')	Yr Iseldiroedd	25	Gwasanaethau Post
Midasgrange Cyfyngedig	y DG	50	Gwasanaethau ariannol
Cydfentrau			
First Rate Travel Services Holdings Limited	y DG	50	Bureau de Change

Delir y buddsoddiad hwn gan y Cwmni. Delir yr holl fuddsoddiadau eraill gan isgwmnïau.

[2] Cwmni daliannol difasnachol yw hwn sydd â buddsoddiadau mewn cwmnïau gweithredol eraill yn Ewrop.

[3] Mae'r Grŵp yn dal cyfran cyfalaf o 51% o Quadrant Catering Limited. Fodd bynnag, mae'r hawliau pleidleisio cysylltiedig â'r gwahanol ddosbarthiadau o gyfranddaliadau'n rhoi rheolaeth weithredu i'r buddsoddwr arall. Felly, trinnir Quadrant fel un o'r cyfranogion yng Nghyfrifon y Grŵp.

31 Mawrth yw dyddiad cyfrifyddu'r holl brif isgwmnïau, cydfentrau a chyfranogion hyn ac eithrio Quadrant Catering Limited lle mae'r dyddiad cyfrifyddu ar 30 Medi a G3 Worldwide Mail N.V. a Romec Limited lle mae'r dyddiad cyfrifyddu ar 31 Rhagfyr.

Ceir rhestr lawn o'r isymgymeriadau, cydfentrau a chyfranogion o Swyddfa Gofrestredig y Cwmni. Mae'r holl gyfranddaliadaethau yn gyfranddaliadau ecwiti.

Crynodeb pum mlynedd

Cyfrif elw a cholled	2001 £m	2002[2] £m	2003 £m	2004 £m	**2005 £m**
Trosiant allanol	8,119	8,408	8,299	8,633	**8,956**
(Colled)/Elw o weithrediadau	(206)	(318)	(197)	220	**537**
Llai cyfran o'r (elw)/colled weithredol gyda chydfentrau a chyfranogion	-	4	(30)	(37)	**(34)**
Adio taliadau /(costau) pensiwn ar gyfer y swrplws/(dyled) pensiynau	228	247	246	(132)	**(138)**
Elw/(colled) weithredol y Grŵp cyn eitemau eithriadol	22	(67)	19	51	**365**
Eitemau eithriadol gweithredol	(67)	(1,119)	(697)	(64)	**(277)**
(Colled)/elw weithredol y Grŵp	(45)	(1,186)	(678)	(13)	**88**
Cyfran o'r (elw)/colled weithredol gyda chydfentrau a chyfranogion	-	4	30	37	**34**
Amhariad ar ewyllys da gyda chyfranogion	-	(12)	(24)	-	**-**
Cyfanswm (colled)/elw weithredol y Grŵp	(45)	(1,194)	(672)	24	**122**
Eitemau eithriadol anweithredol	20	14	26	64	**67**
(Colled)/elw cyn llog	(25)	(1,180)	(646)	88	**189**
Llog net derbyniadwy	106	56	35	17	**18**
Elw/(colled) cyn treth	81	(1,124)	(611)	105	**207**
Trethiant	(34)	179	52	(98)	**28**
Elw/(colled) ar ôl treth	47	(945)	(559)	7	**235**
Buddion lleiafrifol ecwiti	2	5	-	-	**-**
Elw/(colled) y flwyddyn ariannol	49	(940)	(559)	7	**235**
Trosglwyddo i'r gronfa ddifidend	(93)	-	-	-	**-**
(Colled)/elw a gadwyd	(44)	(940)	(559)	7	**235**
Cyfanswm elw/(colled) weithredol cyn eitemau eithriadol	22	(68)	49	88	**399**

Mantolen	2001 £m	2002 £m	2003 £m	2004 £m	**2005 £m**
Asedion anniriaethol	421	146	156	123	**144**
Asedion diriaethol sefydlog	2,026	1,783	1,648	1,550	**1,591**
Buddsoddiadau asedion sefydlog	60	94	83	138	**135**
Asedion cyfredol net	2,008	1,987	1,785	1,445	**1,329**
Credydwyr y tu hwnt i flwyddyn a darpariaethau	(977)	(1,405)	(1,584)	(1,118)	**(814)**
Cyfanswm asedion llai rhwymedigaethau	3,538	2,605	2,088	2,138	**2,385**

Llif arian	2001 £m	2002 £m	2003 £m	2004 £m	**2005 £m**
Llif arian net cyn defnyddio adnoddau hylifol ac ariannu a chyn symudiad mantolen cleientiaid SPC	(229)	(96)	(553)	65	**140**
Symudiad mantolen cleientiaid SPC	108	(4)	67	(287)	**(444)**
Echlif arian net cyn defnyddio adnoddau hylifol ac ariannu	(121)	(100)	(486)	(222)	**(304)**

Nodyn
[1] Mae (colled)/elw o weithrediadau'n adlewyrchu perfformiad sylfaenol y Grŵp fel a ddiffinnir yn yr Arolwg Gweithredol ac Ariannol.
[2] Blwyddyn 53 wythnos. Mae pob blwyddyn arall yn flwyddyn 52 wythnos.

Rhestr Termau

Confensiwn cyfrifeg
Y sail ar gyfer paratoi cyfrifon.

Bwrdd Safonau Cyfrifeg (BSC)
Y Bwrdd Safonau Cyfrifeg sy'n gyfrifol am gynhyrchu safonau cyfrifeg a elwir yn Safonau Adroddiadau Ariannol. Disgwylir i'r Grŵp gydymffurfio â Safonau Adroddiadau Ariannol wrth baratoi cyfrifon.

Cyfalaf gwariant
Gwariant ar asedion sefydlog neu ychwanegiadau i rai sy'n bodoli eisoes.

Arian
Arian mewn llaw ac adneuon ad-daladwy ar gais (o fewn 24 awr neu un diwrnod gwaith) gydag unrhyw sefydliad ariannol.

Gweddillion gwasanaethau cleient
Symiau sydd yn ddyledus i neu oddi wrth gleientiaid mewn cysylltiad â thrafodion cownter a gyflawnwyd gan Swyddfa'r Post Cyf.

Gwasanaethau Cownter
Y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid gan rwydwaith canghennau Swyddfa'r Post®.

Credydwyr
Swm sy'n ddyledus i eraill am daliadau, nwyddau a gwasanaethau.

Opsiynau arian treigl
Opsiwn i ddewis prynu neu werthu arian tramor.

Asedion cyfredol
Arian neu asedion eraill a ellir eu troi yn arian parod yn hawdd.

Dyledwyr
Gan mwyaf, symiau sy'n ddyledus gan gwsmeriaid am wasanaethau a ddarparwyd a rhagdaliadau pensiwn.

Treth ohiriedig
Amcangyfrif o effaith y dreth yn y dyfodol ar drafodion a digwyddiadau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol y cyfnodau cyfredol a blaenorol.

Adran Masnach a Diwydiant (AMA)
Yr Adran Masnach a Diwydiant.

Safonau Adroddiadau Ariannol (SAA)
Safonau'r Bwrdd Safonau Cyfrifeg ar gyfer adrodd am weithrediadau ariannol.

Prydles ariannu
Prydles sy'n trosglwyddo'r cyfan o risgiau a manteision perchen ased i'r un sy'n prydlesu.

Ewyllys Da
Y gormodedd a delir dros yr asedion net a brynir.

Grŵp
Yn cynnwys Daliadau'r Post Brenhinol ccc a'i is-gwmnïau.

Sicrhad
Y defnydd o asedion ariannol a rhwymedigaethau ariannol i reoli risg.

Sail cost hanesyddol
System gyfrifyddu lle cofnodir yr holl wariant cyfredol a chyfalaf ar ei gost adeg ei brynu.

Bwrdd Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (BSCRh)
Y corff rheoleiddio cyfrifeg rhyngwladol sy'n gosod Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol y bydd yn rhaid i'r Grŵp gydymffurfio â hwy o Ebrill 2005 ymlaen.

IFRS
International Financial Reporting Standard

Cronfeydd hylifol (llif arian)
Buddsoddiadau asedion cyfredol sy'n hawdd i'w newid yn symiau hysbys o arian parod am eu gwerth daliadol, neu'n agos iddo, ac y gellir eu gwerthu heb gyfyngu gweithrediadau'r busnes.

Cronfa'r post
Cronfa ddosbarthadwy a grëwyd o dan Deddf Gwasanaethau Post 2000 i ddarparu arian.

Rhestr termau (parhad)

Cronfa Fenthyciadau Genedlaethol (CFG)
Mae'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol yn darparu ffynhonnell arian benthyg y Llywodraeth .

Prydles weithredu
Prydles wahanol i brydles arian.

Elw gweithredol
Yr elw (cyn llog ac eitemau eithriadol anweithredol) ar weithgareddau cyffredin ac eithrio lle daw llog o fewn gweithgareddau gweithredol.

Postcomm
Rheolydd y diwydiant post.

Postwatch
Corff defnyddwyr y diwydiant post.

Cronfa cyfrif elw a cholled
Mae'r gronfa cyfrif elw a cholled yn cynrychioli elw a gedwir i'r graddau nad ydynt wedi'u trosglwyddo i gronfa arall benodedig.

Darpariaethau
Symiau a neilltuir i dalu rhwymedigaethau hysbys sy'n debygol o gael eu hachosi, neu sy'n sicr o gael eu hachosi, ond pan fo'r swm neu'r amseru yn ansicr.

Cronfa Rhwydwaith Gwledig
Cronfa a grëwyd i ariannu'r rhwydwaith gwledig.

Datganiad Safonau Arfer Cyfrifeg (DSAC)
Safonau adrodd ariannol a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Safonau Cyfrifeg (PSC) ac a fabwysiadwyd gan Fwrdd Safonau Cyfrifeg (BSC) ym 1990.

Cyfranddaliwr
Llywodraeth EM yw cyfranddaliwr y Cwmni

Cyfranddaliad arbennig
Breingyfrannau Adbrynadwy Hawliau Arbennig am £1 yng nghyfalaf y Cwmni.

Cyfranddaliwr Arbennig
Daliwr y Cyfranddaliad Arbennig (h.y. Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Masnach a Diwydiant).

Asedion sefydlog diriaethol
Tir ac adeiladau, offer a cherbydau a brynwyd i'w defnyddio dros nifer o flynyddoedd.

Cyfanswm elw a cholledion cydnabyddedig
Cyfanswm yr holl elw a cholledion – wedi'i sylweddu a heb – a gydnabyddir mewn cyfnod ac sy'n briodoladwy i'r Cyfranddaliwr.

Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (RhGC)
Yr anghenraid i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol yn y DG.

Treth Ar Werth (TAW)
Treth anuniongyrchol ar nwyddau a gwasanaethau.

Gwybodaeth Gorfforaethol

Swyddfa Gofrestredig a Phrif Swyddfa'r Grŵp

Daliadau'r Post Brenhinol ccc
148 Old Street
LLUNDAIN
EC1V 9HQ
020 7250 2888
Rhif Cofrestredig: 4074919

Gwefan Gorfforaethol

Gellir cael gwybodaeth gorfforaethol ychwanegol, a gwybodaeth arall, ar y wefan a ganlyn (www.royalmail.com). Nid yw'r wybodaeth a roddir ar y wefan yn rhan o'r cyfrifon ac nid ddylid ei hystyried felly.

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr yw cynnal a chadw gwefannau'r Grŵp a sicrhau eu cywirdeb; nid yw gwaith yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all ddigwydd i'r datganiadau ariannol wedi iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn y lle cyntaf.

Archwilwyr

Ernst & Young LLP
1 More London Place
LLUNDAIN
SE1 2AF

Actiwarïaid

Watson Wyatt Worldwide
Watson House
London Road
Reigate
Surrey
RH2 9PQ

Cyfreithwyr

Slaughter and May
1 Bunhill Row
LLUNDAIN
EC1Y 8YY

Rheolydd (Postcomm)

Comisiwn Gwasanaethau Post
Hercules House
6 Hercules Road
LLUNDAIN
SE1 7DB

Corff Defnyddwyr

Postwatch
28 Grosvenor Gardens
LLUNDAIN
SW1W 0TT

Calendr Ariannol

Cyfrifon Rheoliadol 2004-05	Gorffennaf 2005
Cyfrifon Interim 2005-06	Tachwedd 2005
Canlyniadau Rhagarweiniol 2005-06	Mai 2006